



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 22 Chwefror 2012
Wednesday, 22 February 2012

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House |
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science |
| 3 | Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Aflonyddu
ar sail Anabledd yng Nghymru
The Communities, Equality and Local Government Committee's Report on Disability
Related Harassment in Wales |
| 78 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Anhwylder Straen wedi Trawma
Welsh Conservatives Debate: Post-traumatic Stress Disorder |
| 110 | Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Y Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru
Gyfan
Welsh Liberal Democrats Debate: The All-Wales Ethnic Minority Association |
| 136 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 146 | Dadl Fer: Dŵr—Adfywiad Adnodd
Short Debate: Water—The Renaissance of a Resource |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.
Y Llywydd: Brynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr mewn sesiwn.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

Rheoli Grantiau

2. Jenny Rathbone: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i symleiddio a chyflymu prosesau rheoli grantiau. OAQ(4)0085(FIN)*

Jane Hutt: The grants management project will improve grant administration. A grants centre of excellence team and comprehensive guidance is in place. The project has led to the rationalisation of schemes, the streamlining of administration and made funding more accessible.

Jenny Rathbone: Minister, you will be aware of the grants management report by the Wales Audit Office, which demonstrates that, with 118 different education grants under £1 million, headteachers have to spend far too much time trying to analyse how and where they apply. There is a similar situation across other departments. What is the Government doing to make the grants regime simpler, clearer and easier to manage and evaluate?

Jane Hutt: In response to the specific question from Jenny Rathbone about the grants scheme arrangements for specific grants for local authorities, the Minister for Education and Skills and the Minister for Local Government and Communities are working hard to ensure that we rationalise those grants. Many are now part of the revenue support grant. It is clear that the WAO report is helpful, and I know that it is being scrutinised by the Public Accounts Committee. The committee has given an encouraging response by saying that the Welsh Government and other funders are now improving their arrangements for managing grants to achieve better value for money.

Grants Management

2. Jenny Rathbone: *What is the Welsh Government doing to simplify and streamline grants management. OAQ(4)0085(FIN)*

Jane Hutt: Bydd y prosiect rheoli grantiau yn gwella prosesau gweinyddu grantiau. Mae gennym dîm canolfan rhagoriaeth mewn grantiau a chanllawiau cynhwysfawr. Mae'r prosiect wedi arwain at resymoli cynlluniau, symleiddio'r prosesau gweinyddol ac wedi gwneud cyllid yn fwy hygyrch.

Jenny Rathbone: Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r adroddiad rheoli grantiau gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n dangos, gyda 118 o wahanol grantiau addysg dan £1 miliwn, fod penaethiaid yn gorfod treulio llawer gormod o amser yn ceisio dadansoddi sut a ble y maent yn gymwys. Mae sefyllfa debyg i'w gweld mewn adrannau eraill. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y drefn grantiau'n symlach, yn gliriach ac yn haws ei rheoli a'i gwerthuso?

Jane Hutt: Mewn ymateb i'r cwestiwn penodol gan Jenny Rathbone am drefniadau'r cynllun grantiau ar gyfer grantiau penodol i awdurdodau lleol, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn rhesymoli'r grantiau hynny. Mae llawer yn rhan o'r grant cynnal refeniw erbyn hyn. Mae'n amlwg bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn ddefnyddiol, ac rwyf yn gwybod bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu arno. Mae'r pwyllgor wedi rhoi ymateb calonogol gan ddweud bod Llywodraeth Cymru a chyllidwyr eraill yn awr yn gwella eu trefniadau ar gyfer rheoli grantiau i gael gwell gwerth am arian.

Antoinette Sandbach: Minister, I am sure that you would agree that effective monitoring is vital to deliver value for money in the management of grant funding. Can you confirm what concerns your cabinet colleagues have raised with you over the monitoring of millions of pounds in European and Welsh Government grants given to the Penmon fish farm in Anglesey? A number of constituents have contacted me with concerns that the original grant conditions do not appear to have been met and that the business was recently sold for a fraction of the amount of public subsidy it received.

Jane Hutt: I can assure Antoinette Sandbach that there is robust monitoring and scrutiny of European funded schemes and projects. In fact, the Welsh European Funding Office has been highlighted as being exemplary in grants management and monitoring. I am sure that there will be a response from the Minister responsible on this specific issue in due course.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, rydych chi a'r Llywodraeth wedi derbyn erbyn hyn fod problemau wedi codi ynglŷn a'r modd yr ariannwyd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Nid wyf am gyfeirio'n benodol at hynny, ond o ran taliadau uniongyrchol gan y Llywodraeth ac arian Ewropeaidd a ddyfarnwyd—mae'r arian hwnnw wedi ei atal, bellach—a oes gwersi wedi'u dysgu, ac a oes methiant systematig yn y ffordd y mae'r taliadau hyn yn cael eu goruchwylio gan Lywodraeth Cymru? Os oes, a ydych yn gallu rhannu'r gwersi hynny â ni y prynhawn yma?

Jane Hutt: Rhodri Glyn Thomas knows that the Wales Audit Office is now undertaking a review and will deliver a report to the Public Accounts Committee. It has stated that its review will consider whether the Welsh Government and the Welsh European Funding Office have managed their relationship with AWEMA to appropriately protect and make good use of public funds. We await that report.

Peter Black: Minister, I accept that you are awaiting the Wales Audit Office report on

Antoinette Sandbach: Weinidog, rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod monitro effeithiol yn hanfodol i sicrhau gwerth am arian wrth reoli arian grantiau. A allwch gadarnhau pa bryderon y mae eich cyd-Aelodau yn y cabinet wedi'u codi gyda chi ynghylch y gwaith o fonitro miliynau o bunnoedd mewn grantiau Ewropeaidd a grantiau Llywodraeth Cymru a roddwyd i fferm bysgod Penmon ar Ynys Môn? Mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi gyda phryderon nad yw amodau gwreiddiol y grant wedi'u bodloni, i bob golwg, a bod y busnes wedi'i werthu yn ddiweddar am ffraciwn o swm y cymhorthdal cyhoeddus a gafodd.

Jane Hutt: Gallaf sicrhau Antoinette Sandbach fod monitro a chraffu cadarn ar brosiectau a chynlluniau a ariennir gan Ewrop. Mewn gwirionedd, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi cael ei hamlygu fel enghraifft ragorol o reoli a monitro grantiau. Rwyf yn siŵr y daw ymateb gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am y mater hwn maes o law.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, you and the Government have by now accepted that there were problems in the way that the All Wales Ethnic Minority Association was funded. I will not refer specifically to that, but, in terms of direct payments from the Government and the awarding of European funds—that funding has now been suspended—have lessons been learnt, and is there a systematic failure in the way that the Welsh Government oversees these payments? If so, can you share those lessons with us this afternoon?

Jane Hutt: Mae Rhodri Glyn Thomas yn gwybod bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad yn awr ac y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae wedi datgan y bydd ei hadolygiad yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi rheoli eu perthynas ag AWEMA i ddiogelu arian cyhoeddus yn briodol a'i ddefnyddio'n dda. Rydym yn aros am yr adroddiad hwnnw.

Peter Black: Weinidog, rwyf yn derbyn eich bod yn aros am adroddiad Swyddfa

AWEMA, but can you tell us what changes you have brought in immediately in terms of the grants that the Welsh Government gives to other organisations to reflect the findings that you have made so far?

Jane Hutt: As I have indicated in written statements, we have dealt directly with this by suspending and then terminating AWEMA's funding, as well as terminating the arrangements via the Welsh European Funding Office, while seeking to protect those bodies that are delivering important schemes and initiatives for black and minority ethnic communities. It is important that we take forward our grants management scheme. As indicated, we are benchmarking schemes against minimum standards, we are introducing a model award letter and providing advice and guidance from a central source, all of which are improving effectiveness. I welcome the Wales Audit Office review of grant management, which is not just about as a Welsh Government, but is important for local government and other funding bodies.

Peter Black: My question was about that grant management scheme and how it impacts on other organisations. Do you not think that if you do not take immediate action now to learn the lessons for the sake of other grants to other organisations, instead of waiting for a Wales Audit Office report, this Government is being complacent?

Jane Hutt: We are taking action, prior to the WAO report on grants management. We have already set up a grants centre of excellence team and a grants management project, which is improving grant administration, and comprehensive guidance is in place. We also fund many third sector organisations that are delivering effectively for some of our most disadvantaged and vulnerable adults and communities in Wales.

Procurement Policy

3. Mark Drakeford: Will the Minister make a

Archwilio Cymru ar AWEMA, ond a allwch ddweud wrthym pa newidiadau rydych wedi'u cyflwyno'n syth o ran y grantiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i sefydliadau eraill er mwyn adlewyrchu'r canfyddiadau rydych wedi'u gwneud hyd yn hyn?

Jane Hutt: Fel yr wyf wedi'i nodi mewn datganiadau ysgrifenedig, rydym wedi ymdrin yn uniongyrchol â hyn drwy atal ac yna terfynu cyllid AWEMA, yn ogystal â therfynu'r trefniadau drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a cheisio yr un pryd amddiffyn y cyrff hynny sy'n darparu cynlluniau a mentrau pwysig ar gyfer cymunedau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Mae'n bwysig ein bod yn bwrw ymlaen â'n cynllun rheoli grantiau. Fel y nodwyd, rydym yn meincodi cynlluniau yn erbyn safonau gofynnol, rydym yn cyflwyno llythyr dyfarnu enghreifftiol ac yn darparu cyngor ac arweiniad o ffynhonnell ganolog. Mae pob un o'r rhain yn gwella effeithiolrwydd. Rwyf yn croesawu adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o brosesau rheoli grantiau. Nid â Llywodraeth Cymru y mae a wnelo hyn yn unig, ond mae'n bwysig i lywodraeth leol a chyrrff cyllido eraill.

Peter Black: Roedd fy nghwestiwn yn ymwneud â'r cynllun rheoli grantiau a sut y mae'n effeithio ar sefydliadau eraill. Onid ydych yn meddwl, os na wnewch gymryd camau ar unwaith yn awr i ddsygu'r gwersi er mwyn grantiau eraill i sefydliadau eraill, yn hytrach na disgwyl am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, fod y Llywodraeth hon yn bod yn hunanfodlon?

Jane Hutt: Rydym yn cymryd camau, cyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli grantiau. Rydym eisoes wedi sefydlu tîm canolfan ragoriaeth mewn grantiau a phrosiect rheoli grantiau, sy'n gwella prosesau gweinyddu grantiau, ac mae gennym ganllawiau cynhwysfawr. Rydym hefyd yn ariannu sawl mudiad trydydd sector sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer rhai o'n cymunedau a'n hoedolion mwyaf difreintiedig ac agored i niwed yng Nghymru.

Polisi Caffael

3. Mark Drakeford: A wnaiff y Gweinidog

statement on the procurement policy of the Welsh Government. OAQ(4)0091(FIN)

Jane Hutt: The programme for government clearly lays out how the Welsh Government is supporting economic growth and improving public service delivery through public procurement. Our commitments to improve procurement systems and processes, along with widespread adoption of the community benefits approach, are delivering significant results.

Mark Drakeford: Thank you, Minister, for that answer and for your oral statement here yesterday. Given the substantial amounts of money involved in public procurement and the importance of the work carried out, do you agree that there is still a substantial job to be done in ensuring that those individuals who discharge those obligations on behalf of local authorities, health services and so on are properly trained and fully professionally qualified so that they can do the job on behalf of the public?

Jane Hutt: I thank the Member for Cardiff West for that question, following my statement yesterday. We need to develop more people with professional procurement skills in Wales. We are running a home-grown talent project funded by the European social fund, which is an innovative scheme where two cohorts of young trainees are completing placements across Wales. The first group started last year, and we are just about to appoint a further 12. That project also provides training for managers and procurement staff, while accelerating the use of e-procurement tools.

Paul Davies: I note from the Minister's statement yesterday that the Welsh Government will be taking account of the draft proposals for the new European procurement directives. In the circumstances, could the Minister expand on that and tell us what she means by 'taking account' of these draft proposals?

Jane Hutt: I am certainly not only taking account of the draft proposals, but, as I indicated yesterday, working closely with the

ddatganiad am bolisi caffael Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0091(FIN)

Jane Hutt: Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi'n glir sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd ac yn gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus drwy gaffael cyhoeddus. Mae ein hymrwymiaidau i wella systemau a phrosesau caffael, ynghyd â mabwysiadu'n helaeth dulliau sy'n dwyn manteision i'r gymuned, yn sicrhau canlyniadau arwyddocaol.

Mark Drakeford: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw ac am eich datganiad llafar yma ddoe. O ystyried y symiau sylweddol o arian sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus a phwysigrwydd y gwaith a wnaed, a ydych yn cytuno bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod yr unigolion hynny sy'n cyflawni'r rhwymedigaethau hynny ar ran awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd ac yn y blaen yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn meddu ar y cymwysterau proffesiynol llawn er mwyn iddynt allu gwneud y gwaith ar ran y cyhoedd?

Jane Hutt: Diolch i'r Aelod dros Orllewin Caerdydd am y cwestiwn hwnnw, yn dilyn fy natganiad ddoe. Mae angen inni feithrin mwy o bobl sy'n meddu ar sgiliau caffael proffesiynol yng Nghymru. Rydym yn cynnal prosiect talent gynhenid a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, sydd yn gynllun arloesol lle mae dwy garfan o hyfforddeion ifanc yn cwblhau lleoliadau ledled Cymru. Dechreuodd y grŵp cyntaf y llynedd, ac rydym ar fin penodi 12 arall. Mae'r prosiect hwnnw hefyd yn darparu hyfforddiant ar gyfer rheolwyr a staff caffael, ac yn cyflymu'r modd y caiff offer e-gaffael ei ddefnyddio hefyd.

Paul Davies: Sylwaf o ddatganiad y Gweinidog ddoe y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynigion drafft ar gyfer y cyfarwyddebau caffael Ewropeaidd newydd. Dan yr amgylchiadau, a allai'r Gweinidog ymhelaethu ar hynny a dweud wrthym beth mae'n ei olygu wrth 'ystyried' y cynigion drafft hyn?

Jane Hutt: Yn sicr, nid dim ond ystyried y cynigion drafft y byddaf, ond, fel y dywedais ddoe, byddaf yn gweithio'n agos gyda grŵp

Enterprise and Business Committee's procurement task and finish group. I am determined to make the voice of Wales heard with regard to the feedback on consultation on the modernisation of European procurement regulations. I have corresponded with the Minister in the UK Government to ensure that the Assembly's needs and views are clearly heard.

Paul Davies: Yesterday at the cross-party group on construction, we were told that there are a number of inconsistencies in procurement practices, and in particular that there are clear inconsistencies in local authority processes for tendering, scoring and awarding contracts, which challenges the ability of small Welsh firms to bid. Will the Minister therefore outline what immediate measures the Welsh Government will be taking to help address these inconsistencies to ensure that there is a consistent practice across Wales, because businesses want to see action now?

Jane Hutt: I can assure the opposition spokesperson for finance that we are taking that action now. Indeed, I am speaking at a Constructing Excellence in Wales conference tomorrow. In the past 10 months, as I indicated yesterday, the new supplier qualification information database has helped Wales-based businesses win 45 of the 67 construction contracts, worth £755 million.

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Weinidog, yn eich datganiad ddoe, dywedasoch eich bod am gynnal adolygiad o bolisi caffael y Llywodraeth. Byddwch chi, fel finnau, yn gwybod bod materion yn ymwneud â phroblemau caffael wedi'u codi gan fusnesau bach a chanolig eu maint yn ystod yr uwchgynadleddau economaidd a gynhaliwyd gennym yn 2008 a 2009. Felly, pam mae hi wedi cymryd pedair blynedd i chi gynnal yr adolygiad?

Jane Hutt: As I indicated in my statement yesterday, a great deal has been carried out in response to the issues raised in those summits. Research for 'Breaking the Barriers' led to the simplified supplier qualification information database, and that is making a difference. It is important that we

gorchwyl a gorffen caffael y Pwyllgor Menter a Busnes. Rwyf yn benderfynol o sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed o ran yr adborth ar yr ymgynghoriad ar foderneiddio rheoliadau caffael Ewrop. Rwyf wedi gohebu â'r Gweinidog yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod anghenion a barn y Cynulliad yn cael eu clywed yn glir.

Paul Davies: Ddoe yn y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu, dywedwyd wrthym fod sawl anghysondeb mewn arferion caffael, ac yn benodol fod anghysondebau amlwg mewn prosesau awdurdodau lleol ar gyfer tendro, sgorio a dyfarnu contractau, sy'n herio gallu cwmnïau bach o Gymru i wneud cais. A wnaiff y Gweinidog felly amlinellu pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd ar unwaith i helpu i fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn i sicrhau bod arferion cyson ar draws Cymru, gan fod busnesau am weld camau yn cael eu cymryd yn awr?

Jane Hutt: Gallaf sicrhau llyfarydd yr wrthblaid dros gyllid ein bod yn cymryd y camau hynny yn awr. Yn wir, rwyf yn siarad yng nghynhadledd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yfory. Dros y 10 mis diwethaf, fel y dywedais ddoe, mae'r gronfa ddata newydd sy'n cynnig gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr wedi helpu busnesau yng Nghymru i ennill 45 o'r 67 contract adeiladu, sydd yn werth £755 miliwn.

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Minister, you said in your statement yesterday that you want to conduct a review of the Government's procurement policy. As I do, you will be aware that small and medium-sized enterprises raised issues relating to procurement problems during the economic summits we held in 2008 and 2009. Why then has it taken you four years to hold this review?

Jane Hutt: Fel y nodais yn fy natganiad ddoe, mae cryn dipyn wedi cael ei wneud mewn ymateb i'r materion a godwyd yn yr uwchgynadleddau hyn. Mae'r ymchwil ar gyfer 'Torri'r Rhwystrau' wedi arwain at gronfa ddata symlach sy'n cynnig gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr, ac

take this opportunity to review procurement practice as a whole in Wales. I look forward to reporting on that in due course.

Ieuan Wyn Jones: Weinidog, byddwch hefyd yn gwybod bod nifer o'r problemau gyda chaffael a busnesau bach a chanolig eu maint wedi cael eu hamlygu yn ystod yr ymgynghoriad yr ymgymerais fel rhan o'r rhaglen i adnewyddu'r economi. Roedd y busnesau, a'r mudiadau sy'n eu cynrychioli, yn awyddus i fod yn rhan o unrhyw broses i adolygu caffael. Allwch chi gadarnhau y bydd cynrychiolwyr o fusnesau bach a chanolig eu maint yn cael bwydo mewn i'r broses o ddiwygio'r polisi caffael? Allwch chi gadarnhau hefyd y bydd swyddogion o Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y Llywodraeth yn rhan o'r tîm?

Jane Hutt: It is vital that the review not only undertakes a review of our process, but takes on board the recent recommendations and findings of the microbusiness report. I am working closely with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science Minister to ensure that the review is thorough and joined up.

Vaughan Gething: I was pleased with yesterday's statement on procurement, in particular the reference to the community benefit policy. As we have heard, procurement is a key issue for Welsh business, as highlighted recently in the microbusiness strategy report. When you look to review procurement policy, can you confirm that you will provide updated advice to the public sector in Wales in terms of having a more can-do attitude to procuring locally, the community benefits approach in the supply chain, and the ability to combat unemployment as part of the procurement process?

Jane Hutt: I thank the Member for Cardiff South and Penarth for that question. Yesterday, in response to the statement, David Rees drew attention to the fact that Neath Port Talbot County Borough Council is embedding community benefits into its contracts. As a result, jobs are created,

mae hynny'n gwneud gwahaniaeth. Mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y cyfle hwn i adolygu arferion caffael yn gyffredinol yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at adrodd am hynny maes o law.

Ieuan Wyn Jones: Minister, you will also be aware that many of the procurement problems experienced by SMEs were highlighted during the consultation I undertook as part of the economic renewal programme. Businesses, and their representative bodies, said that they very much wanted to be part of any process to review procurement. Can you confirm that SME representatives will have an opportunity to feed into the process of reforming procurement policy? Can you also confirm that officials from the Government's Business, Enterprise, Technology and Science Department will be part of the team?

Jane Hutt: Mae'n hanfodol bod yr adolygiad yn adolygu ein proses, yn ogystal â derbyn argymhellion diweddar a chanfyddiadau'r adroddiad ar ficrofusnesau. Rwyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i sicrhau bod yr adolygiad yn drylwyr ac yn gydgysylltiedig.

Vaughan Gething: Roeddwn yn falch o'r datganiad ddoe am gaffael, yn arbennig y cyfeiriad at y polisi manteision i'r gymuned. Fel yr ydym wedi'i glywed, mae caffael yn fater allweddol i fusnesau Cymru, fel yr amlygwyd yn ddiweddar yn adroddiad y strategaeth microfusnesau. Pan fyddwch yn adolygu'r polisi caffael, a allwch gadarnhau y byddwch yn darparu'r cyngor diweddaraf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru o ran cael mwy o agwedd cyflawni at gaffael yn lleol, defnyddio dulliau sy'n dwyn manteision i'r gymuned yn y gadwyn gyflenwi, a'r gallu i fynd i'r afael â diweithdra fel rhan o'r broses gaffael?

Jane Hutt: Diolch i'r Aelod dros Dde Caerdydd a Phenarth am y cwestiwn hwnnw. Ddoe, mewn ymateb i'r datganiad, tynnodd David Rees sylw at y ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymgorffori manteision i'r gymuned yn ei gontractau. O ganlyniad, mae swyddi yn cael

training is undertaken and local links are created. Community benefits are now embedded in the contracting for public procurement.

Eluned Parrott: Further to yesterday's statement, I ask you to confirm whether you think that the data collection methods for identifying Welsh firms are sophisticated enough and accurately measure the local multiplier effect if they use the invoice address of businesses rather than their headquarter address?

Jane Hutt: I confirm that that will be part of the review undertaken.

Mentrau Cyllid Preifat

4. Leanne Wood: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar fentrau cyllid preifat. OAQ(4)0088(FIN)*

Jane Hutt: The Welsh Government position on the old, discredited PFI model is clear—we do not use it. However, the Welsh Government is determined to explore innovative ways of raising capital for investment in public service infrastructure. The launch of the local government borrowing initiative is an example of that commitment.

Leanne Wood: Minister, although in the early years of devolution some PFI projects were undertaken, your party eventually signed up to Plaid Cymru's outright opposition to PFI being used at a national level. We have been right to reject PFI in Wales. However, the current Government has not produced an alternative model, which means that capital investment is going down rather than up. We all know that that means the choking off of growth in the economy. Plaid Cymru's Build for Wales model was called 'PFI in disguise' by Labour when we first proposed it. Minister, you are now on record as saying that it is a possible option. What efforts are you putting in to developing a Welsh alternative to PFI?

eu creu, hyfforddiant yn cael ei wneud ac mae cysylltiadau lleol yn cael eu creu. Mae manteision i'r gymuned yn cael eu hymgorffori'n awr wrth gontractio ar gyfer caffael cyhoeddus.

Eluned Parrott: Yn dilyn y datganiad ddoe, rwyf yn gofyn ichi gadarnhau a ydych yn credu bod y dulliau casglu data ar gyfer adnabod cwmnïau o Gymru yn ddigon soffistigedig ac yn mesur effaith lluosydd lleol yn gywir os byddant yn defnyddio cyfeiriad anfoneb y busnesau yn hytrach na chyfeiriad eu pencadlys?

Jane Hutt: Rwyf yn cadarnhau y bydd hynny'n rhan o'r adolygiad a gynhelir.

Private Finance Initiatives

4. Leanne Wood: *Will the Minister make a statement on Welsh Government policy on private finance initiatives. OAQ(4)0088(FIN)*

Jane Hutt: Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar hen fodel anhygyr y Fenter Cyllid Preifat yn glir—nid ydym yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o edrych ar ffyrdd arloesol o godi cyfalaf ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith gwasanaeth cyhoeddus. Mae lansiad menter benthyca llywodraeth leol yn enghraifft o'r ymrwymiad hwnnw.

Leanne Wood: Weinidog, er bod ambell brosiect Menter Cyllid Preifat wedi'i gynnal ym mlynnyddoedd cynnar datganoli, cytunodd eich plaid yn y pen draw â gwrthwynebiad llwyr Plaid Cymru i ddefnyddio'r Fenter Cyllid Preifat ar lefel genedlaethol. Rydym wedi bod yn iawn i wrthod Menter Cyllid Preifat yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth bresennol wedi creu model arall, sy'n golygu bod buddsoddiad cyfalaf yn lleihau yn hytrach na chynyddu. Mae pob un ohonom yn gwybod bod hynny'n golygu bod twf yr economi yn cael ei fygu. Roedd y blaid Lafur yn galw model Plaid Cymru, Adeiladu ar gyfer Cymru, yn 'Menter Cyllid Preifat ar ffurf arall' pan gynigiwyd y model y tro cyntaf. Weinidog, rydych yn awr yn dweud ar goedd ei fod yn opsiwn posibl. Pa ymdrechion rydych yn eu gwneud i ddatblygu model arall yng Nghymru yn lle Menter Cyllid Preifat?

Jane Hutt: It is disappointing that Leanne Wood from Plaid Cymru wants to undermine and downplay a very important initiative that many of your Members have been pressing for and welcome, namely the local government borrowing initiative.

1.45 p.m.

Through this initiative, the Welsh Government will provide funding of £240 million in total over a period of 22 years, allocated to local authorities by way of in-year grant. It is innovative and it will assist local authorities in dealing with mounting revenue pressures, allowing them to free up resources for prudential borrowing. A total of £170 million will be used exclusively for capital highway improvement investment. That is a demonstration of innovation from the Welsh Labour Government.

Nick Ramsay: I am tempted to say that the Minister has signed up to a few Conservative policies over the years, but she probably had enough of that line of questioning from the leadership contender from across the Chamber. In listening to your original answer, I was pleased that you said that you do not agree with the old discredited version of PFI. I think that there is widespread acceptance that some PFI projects run by both Governments in the UK were badly undertaken. Do you accept, however, that there is a place for private finance of one form or another in funding services in Wales? Without some of the projects that we have seen, for schools and hospitals, people would not be benefitting from them now. Will you agree not to rule out private finance projects purely on the basis of some grandstanding dogma, for whatever reason, and say that you will do what is in the best interest of the people of Wales to properly fund public services?

Jane Hutt: As Minister for Finance, you will know that I am not one for grandstanding dogma; I am one for delivery and implementation. In fact, today, along with Huw Lewis, I have launched the Welsh housing partnership with a tenant who will

Jane Hutt: Mae'n siomedig bod Leanne Wood o Blaid Cymru am danseilio a bychanu menter bwysig iawn y mae llawer o'ch Aelodau wedi bod yn pwysu amdani ac yn ei chroesawu, sef menter benthyca llywodraeth leol.

1.45 p.m.

Drwy'r fenter hon, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o £240 miliwn i gyd dros gyfnod o 22 mlynedd, wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol drwy gyfrwng grant yn ystod y flwyddyn. Mae'n arloesol a bydd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ymdrin â phwysau refeniw cynyddol, gan roi cyfle iddynt ryddhau adnoddau ar gyfer benthyca darbodus. Bydd cyfanswm o £170 miliwn yn cael ei ddefnyddio dim ond ar gyfer buddsoddi i wella priffyrdd. Mae hynny'n dangos arloesedd gan Lywodraeth Lafur Cymru.

Nick Ramsay: Caf fy nhemtio i ddweud bod y Gweinidog wedi cytuno ar ambell bolisi gan y Ceidwadwyr dros y blynyddoedd, ond mae'n siŵr ei bod wedi cael digon ar y math hwnnw o gwestiynu gan yr ymgeisydd am arweinyddiaeth ar ochr arall y Siambr. Wrth wrando ar eich ateb gwreiddiol, roeddwn yn falch eich bod wedi dweud nad ydych yn cytuno â hen fersiwn anhygred y Fenter Cyllid Preifat. Credaf fod pawb yn derbyn bod ambell brosiect Menter Cyllid Preifat a reolwyd gan y ddwy Lywodraeth yn y DU wedi'u cynnal yn wael. A ydych yn derbyn, fodd bynnag, fod lle i gyllid preifat o ryw fath neu'i gilydd i ariannu gwasanaethau yng Nghymru? Heb rai o'r prosiectau rydym wedi'u gweld, ar gyfer ysgolion ac ysbytai, ni fyddai pobl yn elwa oddi wrthynt yn awr. A wnewch gytuno i beidio â diystyru prosiectau cyllid preifat ar sail rhyw ddogma gorchestol yn unig, am ba reswm bynnag, a dweud y byddwch yn gwneud yr hyn sydd er lles gorau pobl Cymru i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn briodol?

Jane Hutt: Fel Gweinidog Cyllid, byddwch yn gwybod nad wyf yn un am ddogma gorchestol; cyflwyno a gweithredu sy'n bwysig i mi. Yn wir, heddiw, ynghyd â Huw Lewis, rwyf wedi lansio partneriaeth tai Cymru gyda thenant a fydd yn elwa o fenter

benefit from a joint venture involving housing associations, the Principality Building Society—which is important in terms of the private sector’s contribution—and the Welsh Government, to increase the supply of quality affordable homes. That is a demonstration of innovative finance and innovative solutions from this Welsh Labour Minister for Finance.

Aled Roberts: Weinidog, mae nifer o gynlluniau yn y gogledd, yn arbennig ar gyfer canolfannau iechyd newydd, yn ddibynnol ar gyllid gan ddatblygwyr preifat. A yw’ch Llywodraeth chi yn parhau i ddatblygu’r cynlluniau hynny mewn ardaloedd megis Bwcle a’r Waun?

Jane Hutt: In terms of the local area, I am sure that that is something that the Minister for Health and Social Services is aware of. We have to lever in, and we have done, funding to ensure that we have a modernised primary healthcare estate, and that is a priority for this Government.

Blaenoriaethau wrth Bennu’r Gyllideb Atodol

5. Mohammad Asghar: *Beth oedd blaenoriaethau’r Gweinidog wrth bennu’r gyllideb atodol. OAQ(4)0087(FIN)*

Jane Hutt: Our priority continues to be supporting growth and jobs in Wales. We have demonstrated this by allocating an additional £320.6 million in the supplementary budget, published on 7 February, of which £172.1 million is to support capital investment.

Mohammad Asghar: Thank you for that answer, Minister. I welcome the additional money being made available for health in the supplementary budget. In England, the Government is making the newest cancer drugs available through the cancer drugs fund. The Rarer Cancers Foundation has said that patients in England currently have access to more than 20 medicines that are not available in Wales. Will the Minister advise whether consideration was given to using the additional money that is available to set up a Welsh cancer drugs fund?

ar y cyd sy'n cynnwys cymdeithasau tai, Cymdeithas Adeiladu'r Principality—sydd yn bwysig o ran cyfraniad y sector preifat—a Llywodraeth Cymru, i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy o ansawdd. Mae hynny'n dangos cyllid arloesol ac atebion arloesol gan y Gweinidog Cyllid hwn o blaid Lafur Cymru.

Aled Roberts: Minister, a number of schemes in north Wales, especially for new health centres, are dependent upon funding from private developers. Is your Government continuing to develop those schemes in areas such as Buckley and Chirk?

Jane Hutt: O ran yr ardal leol, rwyf yn siŵr bod hyn yn rhywbeth y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol ohono. Rhaid inni ddenu cyllid, ac rydym wedi gwneud hynny, i sicrhau bod gennym ystâd gofal iechyd sylfaenol fodern, ac mae hynny'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon.

Priorities in Setting the Supplementary Budget

5. Mohammad Asghar: *What were the Minister’s priorities in setting the supplementary budget. OAQ(4)0087(FIN)*

Jane Hutt: Ein blaenoriaeth o hyd fydd cefnogi twf a swyddi yng Nghymru. Rydym wedi dangos hyn drwy ddyrannu £320.6 miliwn ychwanegol yn y gyllideb atodol, a gyhoeddwyd ar 7 Chwefror, a bydd £172.1 miliwn o hwnnw yn cefnogi buddsoddiad cyfalaf.

Mohammad Asghar: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Rwyf yn croesawu'r arian ychwanegol a fydd ar gael ar gyfer iechyd yn y gyllideb atodol. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth yn sicrhau bod y cyffuriau cancer diweddaraf ar gael drwy'r gronfa cyffuriau cancer. Mae Sefydliad y Canserau Prinnach wedi dweud bod cleifion yn Lloegr yn cael mynediad ar hyn o bryd at fwy na 20 o feddyginiaethau nad ydynt ar gael yng Nghymru. A wnaiff y Gweinidog ddweud a roddwyd ystyriaeth i ddefnyddio'r arian ychwanegol sydd ar gael i sefydlu cronfa

cyffuriau canser Cymru?

Jane Hutt: I am glad that you welcome the additional funding that is coming to health in my supplementary budget. In total, we have allocated an additional £164 million to health this year, which means an increase of 2.1% in the resource budget and 20% in the capital budget for the NHS, over and above previously published plans. I do not know how the UK Government will continue to deliver health services when not only is it privatising the NHS, but also expecting the health service to deliver a £20 billion cut in services over the next three years.

Jane Hutt: Rwyf yn falch eich bod yn croesawu'r arian ychwanegol sy'n dod i faes iechyd yn fy nghyllideb atodol. Gyda'i gilydd, rydym wedi dyrannu £164 miliwn ychwanegol i faes iechyd eleni, sy'n golygu 2.1 y cant o gynnydd yn y gyllideb adnoddau ac 20 y cant yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer y GIG, sy'n uwch na'r hyn sydd mewn cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Nid wyf yn gwybod sut y bydd Llywodraeth y DU yn parhau i ddarparu gwasanaethau iechyd pan mae, nid yn unig yn preifateiddio'r GIG, ond hefyd yn disgwyl i'r gwasanaeth iechyd gyflwyno toriadau gwerth £20 biliwn mewn gwasanaethau dros y tair blynedd nesaf.

Bethan Jenkins: In your supplementary budget, there was a reference to a transfer of resources from revenue to capital, suggesting that you are finally starting to recognise Plaid Cymru's call for more resources to go into capital investment as an economic stimulus. Despite switching some of the revenue to capital, however, the overall levels of capital investment in the Welsh economy will continue to fall. Excluding the discredited private finance initiative, which has already been mentioned, what plans do you have to find sources of capital expenditure over the next few years, especially in the realm of health?

Bethan Jenkins: Yn eich cyllideb atodol, cyfeiriwyd at drosglwyddo adnoddau o refeniw i gyfalaf, sy'n awgrymu eich bod, o'r diwedd, yn dechrau cydnabod galwad Plaid Cymru am ragor o adnoddau i mewn i fuddsoddiad cyfalaf fel sbardun economaidd. Er gwaethaf newid rhywfaint o'r refeniw i gyfalaf, fodd bynnag, bydd lefelau cyffredinol y buddsoddiad cyfalaf yn economi Cymru yn parhau i ostwng. Heb gynnwys y fenter cyllid preifat anhygred, sydd eisoes wedi'i chrybwyll, pa gynlluniau sydd gennych i ddod o hyd i ffynonellau o wariant cyfalaf dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig ym maes iechyd?

Jane Hutt: I am sure that Bethan Jenkins will join me in condemning the UK Government for cutting our capital grant by 42% and welcome the fact that I have been able to lever in an extra £170 million this year. I am sure that she will also welcome the fact that Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats supported the economic stimulus package, which was so important to deliver opportunities for capital investment in Wales.

Jane Hutt: Rwyf yn siŵr y bydd Bethan Jenkins yn ymuno â mi i gondemnio Llywodraeth y DU am dynnu 42 y cant oddi ar ein grant cyfalaf, ac yn croesawu'r ffaith fy mod wedi gallu denu £170 miliwn ychwanegol eleni. Rwyf yn siŵr y bydd hi hefyd yn croesawu'r ffaith bod Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cefnogi'r pecyn sbardun economaidd, a oedd mor bwysig i roi cyfleoedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf yng Nghymru.

Dyraniadau'r Gyllideb

Budget Allocations

6. Eluned Parrott: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y defnyddir rhagolygon demograffig yn dyraniadau'r gyllideb. OAQ(4)0090(FIN)*

6. Eluned Parrott: *Will the Minister make a statement on the use of demographic projections in budget allocations. OAQ(4)0090(FIN)*

Jane Hutt: Our budget for growth and jobs

Jane Hutt: Cafodd ein cyllideb ar gyfer twf a

was approved in December. Through the budget setting process, we use a range of tools to ensure that our budget reflects the needs of people and communities in Wales, including making use of demographic projections where appropriate.

Eluned Parrott: Thank you, Minister; that is very helpful. Wales already has the highest proportion of people of state pension age in the UK, and this figure is set to double in the next 20 years. An ageing population obviously brings an increasing pressure on health and social services. Therefore, what preparations have you been able to make in order to deal with the financial challenges that that ageing population will bring?

Jane Hutt: We use demographic projections to ensure that we are distributing funding in a way that is fair, equitable and transparent. However, it is based on independent, robust indicators, such as the increasing elderly population and the most up-to-date indicators of need, and that impacts on our funding allocations.

William Graham: Building on that question, Minister, you will know that the Royal Gwent Hospital was placed in special measures for orthopaedic services by your predecessor. With the demographic changes and the increased pressures, are you sure that your measures will be sufficiently robust to reflect the needs for orthopaedic services and the increasing demand over the next few years?

Jane Hutt: Of course, in recognising the pressures and based on the demographic projections, we make allocations of funding. You will recall that, as a result of submissions from the Minister for Health and Social Services, I made an additional allocation of over £20 million to support orthopaedics, and that is now having an impact and is bringing down waiting times.

Alun Ffred Jones: One area in which demography has a direct impact on budgets is health. In the supplementary budget, you

swyddi ei chymeradwyo ym mis Rhagfyr. Drwy'r broses pennu'r gyllideb, rydym yn defnyddio ystod o gyfryngau i sicrhau bod ein cyllideb yn adlewyrchu anghenion pobl a chymunedau yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio rhagolygon demograffig lle y bo'n briodol.

Eluned Parrott: Diolch, Weinidog; mae hynny'n gymorth mawr. Ar hyn o bryd, gan Gymru y mae'r gyfran uchaf o bobl o oedran pensiwn y wladwriaeth yn y DU, ac mae'r ffigur hwn ar fin dyblu yn yr 20 mlynedd nesaf. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn amlwg yn dwyn pwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd a chymdeithasol. Felly, pa baratodau rydych wedi gallu eu gwneud er mwyn ymdrin â'r heriau ariannol a ddaw yn sgîl y boblogaeth sy'n heneiddio?

Jane Hutt: Rydym yn defnyddio rhagolygon demograffig i sicrhau ein bod yn dosbarthu arian mewn ffordd sy'n deg, yn gyfiawn ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae'n seiliedig ar ddangosyddion cadarn ac annibynnol, megis y boblogaeth oedrannus gynyddol a'r dangosyddion diweddaraf o angen, ac mae hynny'n effeithio ar ein dyraniadau cyllid.

William Graham: Gan adeiladu ar y cwestiwn hwnnw, Weinidog, byddwch yn gwybod bod eich rhagflaenydd wedi rhoi Ysbyty Brenhinol Gwent yn y categori mesurau arbennig ar gyfer gwasanaethau orthopedig. Gyda'r newidiadau demograffig a'r pwysau cynyddol, a ydych yn siŵr y bydd eich mesurau yn ddigon cadarn i adlewyrchu'r anghenion ar gyfer gwasanaethau orthopedig a'r galw cynyddol dros y blynyddoedd nesaf?

Jane Hutt: Wrth gwrs, wrth gydnabod y pwysau, ac ar sail y rhagolygon demograffig, rydym yn gwneud dyraniadau cyllid. Byddwch yn cofio, o ganlyniad i sylwadau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fy mod wedi gwneud dyraniad ychwanegol o dros £20 miliwn i gefnogi gwasanaethau orthopedig, ac mae hynny erbyn hyn yn cael effaith ac yn gostwng amseroedd aros.

Alun Ffred Jones: Un maes y mae demograffeg yn cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau yw iechyd. Yn y gyllideb atodol,

have allocated an extra £30 million to Hywel Dda Local Health Board as part of a four-year package to support the transformation of services, and an additional £70 million will be provided over four years. What is this for? Is it part of a long-term strategy? If so, will you explain that strategy? Why is Hywel Dda LHB deserving of special treatment?

Jane Hutt: Alun Ffred Jones, you know that we have been upfront about the challenges that we face as a result of the UK Government budget cuts, and we have been working closely with all of our health boards to plan for a series of difficult budgets—not just with Hywel Dda, but across the board. However, Hywel Dda faces a unique set of challenges. The Welsh Government has committed a transitional stream of funding over the next four years to give Hywel Dda the headroom to allow it to sustain current services while improvements are developed and implemented.

Ni ofynnwyd cwestiwn 7, OAQ(4)0082(FIN). Question 7, OAQ(4)0082(FIN), not asked.

Gwella Bywyd Pobl Anabl

8. Russell George: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella bywyd pobl anabl yng Nghymru. OAQ(4)0079(FIN)*

Jane Hutt: Our framework for action on independent living will identify how we can strengthen the action that we are taking to support the rights of disabled people to participate fully in society and to exercise the same choices as everyone else.

Russell George: Thank you for that answer, Minister. Disabled people living in Montgomeryshire and, indeed, in other rural areas in Wales, feel that they are more likely to face barriers than those living in urban areas. Bus services are less likely to be accessible, as are pubs and shops. Those living with chronic conditions, such as multiple sclerosis, have to travel 50 to 100 miles to access important hospital services. What action are you taking to make the

rydych wedi dyrannu £30 miliwn ychwanegol i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fel rhan o becyn pedair blynedd i gefnogi'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau, a bydd swm ychwanegol o £70 miliwn yn cael ei roi dros bedair blynedd. Ar gyfer beth mae hwn? A yw'n rhan o strategaeth tymor hir? Os felly, a wnewch esbonio'r strategaeth honno? Pam mae BILl Hywel Dda yn haeddu triniaeth arbennig?

Jane Hutt: Alun Ffred Jones, gwyddoch ein bod wedi bod yn agored ynghylch yr heriau sy'n ein hwynebu o ganlyniad i doriadau Llywodraeth y DU yn y gyllideb, ac rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n holl fyrddau iechyd i gynllunio ar gyfer cyfres o gyllidebau anodd—nid dim ond gyda Hywel Dda, ond ym mhobman. Fodd bynnag, mae Hywel Dda yn wynebu set unigryw o heriau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynnig ffrwd drosiannol o arian dros y pedair blynedd nesaf er mwyn rhoi cyfle i Hywel Dda allu cynnal y gwasanaethau presennol, a datblygu a gweithredu gwelliannau yr un pryd.

Ni ofynnwyd cwestiwn 7, OAQ(4)0082(FIN). Question 7, OAQ(4)0082(FIN), not asked.

Improving the Lives of Disabled People

8. Russell George: *Will the Minister make a statement about the Welsh Government's policies for improving the lives of disabled people in Wales. OAQ(4)0079(FIN)*

Jane Hutt: Bydd ein fframwaith gweithredu ar fyw'n annibynnol yn nodi sut y gallwn gryfhau'r camau a gymerwn i gefnogi hawliau pobl anabl i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas ac i arfer yr un dewisiadau â phawb arall.

Russell George: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae pobl anabl sy'n byw yn sir Drefaldwyn ac, yn wir, mewn ardaloedd gwledig eraill yng Nghymru, yn teimlo eu bod yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau na'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd trefol. Mae gwasanaethau bws yn llai tebygol o fod yn hygyrch, fel y mae tafarndai a siopau. Mae'r rheini sy'n byw gyda chyflyrau cronig, fel sglerosis ymledol, yn gorfod teithio 50 i 100 milltir i gael mynediad at wasanaethau ysbty

Equality Act 2010 a reality in our rural areas as well as in our cities?

Jane Hutt: We have carried out detailed equality impact assessments on our budget decisions. That reassures us and the people of Wales that our decisions are not impacting adversely disadvantaged groups. Disabled people are key in terms of those equality impact assessments. That includes rurality, people's needs and the barriers that they face. We are operating in a difficult context, in terms of the UK Government's cuts, but we are committed to supporting disabled people through the Equality Act 2010, and we expect all public bodies to do so, including local authorities and the health service in your area.

Julie Morgan: I had a concerning meeting at the weekend with a support group for people with Tourette syndrome. What can the Minister for equalities do to counter the widespread ignorance about this condition and the discrimination that people who suffer from it experience?

Jane Hutt: In terms of the discrimination that people experience, it would be helpful to learn more about your meeting with the support group for those with Tourette syndrome. This is something that will be reflected in the development of our equality plans, and I am sure that the Minister for Health and Social Services will want to ensure that the chief medical officer can provide information to raise awareness. In terms of tackling discrimination and raising awareness, we must use the Equality Act 2010 for this in full. Indeed, this Welsh Government is using it in full, unlike the UK Government, which does not wish to implement all aspects of the Act.

Troseddau Casineb

9. Sandy Mewies: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r mesurau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb. OAQ(4)0089(FIN)*

pwysig. Pa gamau rydych yn eu cymryd i wneud Deddf Cydraddoldeb 2010 yn realiti yn ein hardaloedd gwledig yn ogystal ag yn ein dinasoedd?

Edwina Hart: Fel y dywedais yn fy ymateb i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, mae gennym dimau sy'n gweithio yn yr adran arloesi ac yn adran y prif gynghorydd gwyddonol i greu cysylltiadau strategol o ran cronfeydd yn Ewrop, ac i gynyddu ein cyfran yn y DU. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo'n dda.

Ieuan Wyn Jones: The Minister will be aware that the European Commission is preparing a document called 'Horizon 2020', which is the document that will be responsible for the European Union's research policy. When I visited Brussels last week, officials in the department that deal

pholisi rhanbarthol bod angen i Lywodraeth Cymru baratoi strategaeth arloesedd i sicrhau bod Cymru'n cael ei siâr o'r arian hwn, a bod angen i'r Llywodraeth drafod y mater hwn â swyddogion yr Undeb ar fyrder. A all y Gweinidog ddweud wrthym heddiw bod y gwaith hwnnw'n cael ei wneud gan ei swyddogion, ac a fyddai'r Gweinidog yn fodlon dod â'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr pan fydd drafft o'r strategaeth honno ar gael?

Edwina Hart: Thank you very much for that question. This is an important area of our work. I am happy to confirm that work is proceeding in this area. In fact, I was only discussing this issue with my Deputy Minister today, and I am sure that we will both be delighted to report to the Chamber on the matter in the next few weeks.

Mynediad Busnesau at Gyllid

2. Alun Ffred Jones: *Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella mynediad busnesau at gyllid. OAQ(4)0102(BET)*

Edwina Hart: Better access to finance for Welsh businesses is a priority and I have been taking positive action to address this. A microbusinesses implementation plan will be launched in early March, and accessible solutions for microbusiness will be launched in autumn 2012.

Alun Ffred Jones: Mae cwmni bwyd blaenllaw yn y gogledd wedi bod yn fy holi am y grant prosesu a marchnata, gan ei fod wedi methu â chael atebion gan swyddogion yn Llandudno. A yw'r grant hwnnw'n weithredol, a pham nad yw'r diwydiant yn ymwybodol o'r manylion?

Edwina Hart: I must say that I am very concerned if you cannot obtain answers from my officials or the Deputy Minister's officials in Llandudno. I would be grateful if you could send me the full details so that we can investigate the matters that you have

with regional policy told me that the Welsh Government needs to prepare an innovation strategy to ensure that Wales receives its share of this money, and that the Government needs to discuss this matter with EU officials urgently. Can the Minister tell us today that that work is being done by her officials, and would the Minister be willing to come to the Chamber with an update once a draft of that strategy is available?

Edwina Hart: Diolch yn fawr iawn ichi am y cwestiwn hwnnw. Mae hon yn rhan bwysig o'n gwaith. Rwyf yn falch o gadarnhau bod gwaith yn mynd rhagddo yn hyn o beth. Yn wir, roeddwn yn trafod y mater hwn gyda fy Nirprwy Weinidog heddiw, ac rwyf yn siŵr y bydd y ddau ohonom yn fwy na pharod i adrodd i'r Siambr ar y mater yn ystod yr wythnosau nesaf.

Access to Finance for Businesses

2. Alun Ffred Jones: *What action is the Minister taking to improve access to finance for businesses. OAQ(4)0102(BET)*

Edwina Hart: Mae gwella mynediad busnesau Cymru at gyllid yn flaenoriaeth, ac rwyf wedi bod yn cymryd camau cadarnhaol i ymdrin â hyn. Bydd cynllun gweithredu microfusnesau yn cael ei lansio ddechrau mis Mawrth, a bydd atebion hygyrch ar gyfer microfusnesau yn cael eu lansio yn ystod hydref 2012.

Alun Ffred Jones: A prominent food company in north Wales has been asking me about the processing and marketing grant, as it has failed to secure answers from officials in Llandudno. Is that grant operational and why is the industry not aware of the details?

Edwina Hart: Rhaid imi ddweud fy mod yn bryderus iawn os nad ydych yn gallu cael atebion gan fy swyddogion i na chan swyddogion y Dirprwy Weinidog yn Llandudno. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon yr holl fanylion ataf er mwyn inni allu

brought forward in this Chamber.

Paul Davies: I recently met representatives of Lloyds TSB, which happens to be my old employer and the old employer of the Minister. We discussed small businesses and the issue of accessing finance. They highlighted to me a number of steps that the company is taking to support small businesses in the current financial climate. Will the Minister outline what recent discussions she has had with banks regarding the issue of access to finance for small businesses, and what part is the Welsh Government playing to encourage banks to lend to small businesses?

Edwina Hart: I have had discussions with the banks since I became Minister. I also have the financial and professional services sector panel, and the various banks are represented on that panel. I am regularly informed by them. I think that it is important that we continue to pressure the banks about the level of investment in companies. There are some difficulties in that area, particularly with regard to overdraft facilities, which seem to change overnight, even though the order books of companies are full. In relation to the fund that we launched, we are finding that a lot of companies are coming to us because of the shortfall in their ability to borrow from the banks. I notice that the Member used the word 'employed' by the bank not 'worked' at the bank. I always use the word 'employed' as well.

Keith Davies: Hoffwn groesawu'r buddsoddiad o £12 miliwn a wnaed yn Tallent Automotive Cyf yn Llanelli. Daeth £3.4 miliwn o gronfa twf economaidd Llywodraeth Cymru, a daeth y gweddill o'r cwmni. Yn ogystal â diogelu dros 300 o swyddi, gall yr arian hwyluso'r defnydd o dechnoleg fwy datblygedig a fydd yn hybu gallu'r cwmni i gystadlu a chynhyrchu. Yn sgîl yr holl fanteision amlwg, gobeithiaf y

ymchwilio i'r materion rydych wedi'u rhoi gerbron yn y Siambr hon.

Paul Davies: Yn ddiweddar, cefais gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Lloyds TSB, sef fy hen gyflogwr i a hen gyflogwr y Gweinidog fel mae'n digwydd. Buom yn trafod busnesau bach a'r mater o gael gafael ar gyllid. Soniasant wrthyf am nifer o gamau y mae'r cwmni yn eu cymryd i gynorthwyo busnesau bach yn yr hinsawdd ariannol bresennol. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda banciau yn ddiweddar ynghylch mynediad busnesau bach at gyllid, a pha ran y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae i annog banciau i roi benthyg i fusnesau bach?

Edwina Hart: Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r banciau ers imi ddod yn Weinidog. Mae panel y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol gennym, ac mae'r gwahanol fanciau yn cael eu cynrychioli ar y panel hwnnw. Rwyf yn cael gwybodaeth ganddynt yn rheolaidd. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn parhau i roi pwysau ar y banciau am y lefel buddsoddi mewn cwmnïau. Ceir rhai anawsterau yn hynny o beth yn enwedig o ran cyfleusterau gorddrafft, sy'n newid dros nos yn ôl pob golwg, er bod llyfrau archebion cwmnïau'n llawn. O ran y gronfa rydym wedi'i lansio, rydym yn gweld bod llawer o gwmnïau'n dod atom oherwydd eu bod yn methu cael benthygiad gan y banciau. Sylwaf fod yr Aelod wedi defnyddio'r gair 'cyflogi' gan y banc ac nid 'gweithio' yn y banc. Rwyf finnau bob amser yn defnyddio'r gair 'cyflogi' hefyd.

Keith Davies: I would like to welcome the investment of £12 million in Tallent Automotive Ltd in Llanelli. The sum of £3.4 million came from the Welsh Government's economic growth fund, and the rest came from the company. As well as safeguarding over 300 jobs, that money could enable the use of better technology that will enable the company to compete and to produce. Due to all the obvious benefits, I hope that the fund

bydd y gronfa neu unrhyw fenter arall o'r fath yn cael ei ehangu yn y dyfodol agos. Weinidog, a fydddech yn cytuno bod cronfa o'r math hwn yn adnodd pwysig i fusnesau yn yr hinsawdd economaidd bresennol?

Edwina Hart: Yes, I agree that the fund has been highly successful, and we have received about 500 applications. Of course, I am due to make a statement on this next week. I have also received a lot of representations from a number of organisations concerning the £100,000 threshold. We shall be taking the feedback into account when considering future funds, particularly on that issue.

Kenneth Skates: Minister, I recently spoke at an excellent event organised by the Welsh Social Enterprise Coalition, and it seems to me no coincidence that in growing economies, such as Brazil, Russia, India and China, some 15% of the population are member-owners of co-operative and mutual enterprises. While it is clear that social enterprise models of organisation are a proven global model, some of the problems raised with me recently concern the need for a tighter definition of what a social enterprise is and the need to examine how Government can effectively support social enterprises with start-up finance and capital. Will you look at these issues with your officials and do all that you can to ensure that social enterprises in areas such as north Wales form the future of the Welsh economy?

Edwina Hart: I am sure that the Member, like me, is aware that there is no legal definition of a social enterprise. I am aware of the issues relating to the definition and the distribution of profit. We fund the Welsh Social Enterprise Coalition to represent the interests of social enterprises in Wales, and I am happy for its representatives to suggest a definition for consideration by my officials.

Blaenoriaethau ar gyfer Dwyrain De Cymru

or any other initiative of this kind will be expanded in the near future. Minister, would you agree that such a fund is an important resource for businesses in the current economic climate?

Edwina Hart: Byddwn. Rwyf yn cytuno bod y gronfa wedi bod yn llwyddiannus dros ben, ac rydym wedi cael oddeutu 500 o geisiadau. Wrth gwrs, rwyf i fod i wneud datganiad am hyn yr wythnos nesaf. Rwyf hefyd wedi cael llawer o sylwadau gan amryw o sefydliadau ynghylch y trothwy o £100,000. Byddwn yn ystyried yr adborth wrth ystyried cronfeydd yn y dyfodol, yn enwedig o ran y mater hwnnw.

Kenneth Skates: Weinidog, bûm yn siarad yn ddiweddar mewn digwyddiad gwych a drefnwyd gan Glymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru. Nid yw'n ymddangos yn gyd-ddigwyddiad i mi fod oddeutu 15 y cant o'r boblogaeth mewn economïau sy'n tyfu, megis Brasil, Rwsia, India a Tsieina, yn aelodau-berchnogion ar fentrau cydweithredol ac ar fentrau cydffuddiannol. Er ei bod yn amlwg bod modelau sefydliadol mentrau cymdeithasol yn fodel byd-eang dibynadwy, mae rhai o'r problemau a godwyd gyda mi yn ddiweddar yn ymwneud â'r angen am ddiffiniad manylach o beth yw menter gymdeithasol, a'r angen i ystyried sut gall y Llywodraeth gefnogi mentrau cymdeithasol yn effeithiol gyda chyfalaf a chyllid cychwynnol. A wnewch ystyried y materion hyn gyda'ch swyddogion a gwneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau bod mentrau cymdeithasol mewn ardaloedd fel y gogledd yn rhan o ddyfodol economi Cymru?

Edwina Hart: Rwyf yn siŵr bod yr Aelod, fel finnau, yn ymwybodol nad oes diffiniad cyfreithiol o fenter gymdeithasol. Rwyf yn ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â'r diffiniad a dosbarthu elw. Rydym yn ariannu Clymblaid Mentrau Cymdeithasol Cymru i gynrychioli buddiannau mentrau cymdeithasol yng Nghymru, ac rwyf yn fodlon i gynrychiolwyr y Glymblaid awgrymu diffiniad i'w ystyried gan fy swyddogion.

Priorities for South Wales East

3. Mohammed Asghar: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer Dwyrain De Cymru. OAQ(4)0095(BET)*

Edwina Hart: Our priorities for economic growth are set out in the programme for government.

Mohammad Asghar: The latest unemployment figures reveal that Blaenau Gwent, Merthyr Tydfil and Rhymney have the highest claimant count rates in Wales. This highlights the desperate need to boost enterprise and employment in these parts of South Wales East. Will the Minister provide an update on her plan for an enterprise zone in Ebbw Vale and confirm that she is on track to deliver it before the end of this year?

Edwina Hart: Thank you very much for that point, because I do agree with you that it is very important that we up the number of private sector jobs and increase the opportunities for private sector investment to get people back into work. The Ebbw Vale enterprise zone is on course and I am particularly pleased that Gareth Jenkins, who is chair of my sector panel for advanced materials and manufacturing, is to chair that board, as I think that that sends out the right message in Ebbw Vale. It is important that we recognise that the local workforce has an excellent reputation and we have to enhance that through the publicity that we put out about the enterprise zone.

Ardal Fenter yn Sir y Fflint

4. Sandy Mewies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynlluniau i sefydlu ardal fenter yn sir y Fflint. OAQ(4)0100(BET)*

Edwina Hart: I refer you to the statement

3. Mohammad Asghar: *Will the Minister make a statement on her priorities for South Wales East. OAQ(4)0095(BET)*

Edwina Hart: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer twf economaidd wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

Mohammad Asghar: Mae'r ffigurau diweithdra diweddaraf yn dangos mai Blaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhymni sydd â'r nifer mwyaf o hawlwr yng Nghymru. Mae hyn yn pwysleisio'r angen dybryd i hybu mentergarwch a chyflogaeth yn y rhannau hyn o Dwyrain De Cymru. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynllun ar gyfer ardal fenter yng Nglyn Ebwy, a chadarnhau ei bod ar y trywydd iawn i'w gyflwyno cyn diwedd y flwyddyn hon?

Edwina Hart: Diolch yn fawr iawn ichi am y pwynt hwnnw, oherwydd rwyf yn cytuno â chi ei bod yn bwysig iawn ein bod yn cynyddu nifer y swyddi yn y sector preifat ac yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad sector preifat er mwyn cael pobl yn ôl i fyd gwaith. Mae ardal fenter Glyn Ebwy ar y trywydd iawn ac rwyf yn arbennig o falch mai Gareth Jenkins, cadeirydd panel y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, fydd cadeirydd y bwrdd hwnnw, gan fy mod yn credu bod hynny'n cyfleu'r neges gywir yng Nglyn Ebwy. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod gan y gweithlu lleol enw arbennig o dda, ac mae'n rhaid inni ehangu hynny drwy ein cyhoeddusrwydd am yr ardal fenter.

Enterprise Zone in Flintshire

4. Sandy Mewies: *Will the Minister provide an update on her plans to set up an enterprise zone in Flintshire. OAQ(4)0100(BET)*

Edwina Hart: Fe'ch cyfeiriai at y datganiad

that I made on 31 January. Further details are available on the Welsh Government website.

Sandy Mewies: Thank you for that, Minister. It is important that the Welsh Government is able to offer a range of incentives in the enterprise zone so that new jobs and economic growth can be encouraged. Can you therefore give an update on discussions with the Treasury on the provision of enhanced capital allowances?

Edwina Hart: Thank you for that. My officials are meeting Treasury officials today to discuss the issue of enhanced capital allowances. Since the very positive meeting that was held between Jane Hutt and the Chief Secretary to the Treasury, there seems to have been some change in the Treasury about the exact conditions regarding capital allowances. We are now being asked to give specific details of companies in areas to which we may wish to give capital allowances—you will all be aware that I have been designating areas. That is the subject of ongoing discussions, but I should of course be delighted to update the Member when these matters are, hopefully, resolved in order for us to launch the enterprise zones properly at the beginning of April.

Mark Isherwood: I have no doubt that these enterprise zones will be on the agenda on Friday when Councillor Matt Wright opens the second Flintshire regeneration conference 2012. When you made your statement on enterprise zones on 31 January, you said that specific sites would be identified for targeted interventions within the Deeside enterprise zone. I would be grateful if you could expand on what sort of targeted interventions you might have in mind, working with the local authority and other stakeholders, for this enterprise zone.

a wneuthum ar 31 Ionawr. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Sandy Mewies: Diolch ichi am hynny, Weinidog. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gallu cynnig amrywiaeth o gymhellion yn yr ardal fenter er mwyn gallu hybu swyddi newydd a thwf economaidd. Felly, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda'r Trysorlys ynghylch darparu lwfansau cyfalaf uwch?

Edwina Hart: Diolch ichi am hynny. Mae fy swyddogion yn cael cyfarfod gyda swyddogion y Trysorlys heddiw i drafod lwfansau cyfalaf uwch. Ers y cyfarfod hynod gadarnhaol a gynhaliwyd rhwng Jane Hutt a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, mae'n ymddangos y bu rhywfaint o newid yn y Trysorlys o ran yr union amodau ar gyfer lwfansau cyfalaf. Gofynnir yn awr inni roi manylion penodol am gwmnïau mewn ardaloedd y byddem efallai'n dymuno rhoi lwfansau cyfalaf iddynt—bydd pob un ohonoch yn ymwybodol fy mod wedi bod yn dynodi ardaloedd. Mae'r pwnc hwnnw'n cael ei drafod ar hyn o bryd, ond wrth gwrs, byddwn yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod pan fydd y materion hyn, gobeithio, wedi cael eu datrys er mwyn inni lansio'r ardaloedd menter yn briodol ddechrau mis Ebrill.

Mark Isherwood: Rwyf yn berffaith siŵr y bydd yr ardaloedd hyn ar yr agenda ddydd Gwener pan fydd y Cyngorydd Matt Wright yn agor ail gynhadledd adfywio sir y Fflint 2012. Pan wnaethoch eich datganiad am ardaloedd menter ar 31 Ionawr, dywedasochoch y byddai safleoedd penodol yn cael eu dynodi ar gyfer ymyriadau wedi'u targedu yn ardal fenter Glannau Dyfrdwy. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymhelaethu ar y math o ymyriadau wedi'u targedu sydd gennych mewn golwg, gan weithio gyda'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill, ar gyfer yr ardal

fenter hon.

Edwina Hart: I would very much like to know the views of the local stakeholders and what they regard to be the target areas, because it is important that local authorities and Government go forward in partnership, irrespective of political differences, to enhance the opportunities for jobs to come into that zone.

Darren Millar: Minister, you will appreciate that Deeside is not actually in my constituency, and neither is Flintshire, however, you have indicated a willingness to consider a link between the Deeside enterprise zone and the coastal communities in Conwy and Denbighshire that fall within the north Wales regeneration area. Are you able to provide an update on that today?

Edwina Hart: Yes. We have already begun to open up discussions with the unsuccessful bidders, which were Conwy, Denbighshire and Wrexham. We will meet senior officials, and I want to look at the links that can be made with companies in the enterprise zone in Deeside that have other bases elsewhere. It is a good opportunity for business, and I will report on those discussions in due course.

2.30 p.m.

Dyfrffyrdd

5. Nick Ramsay: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd dyfrffyrdd i economi Cymru. OAQ(4)0093(BET)*

Edwina Hart: Waterways play an important role in the leisure and tourism industries, as well as providing a focus for some economic regeneration activities.

Edwina Hart: Byddwn yn falch iawn o gael gwybod beth yw barn y rhanddeiliaid lleol a beth maen nhw'n tybio yw'r ardaloedd targed, oherwydd mae'n bwysig bod awdurdodau lleol a'r Llywodraeth yn symud ymlaen mewn partneriaeth, ni waeth beth fo'u gwahaniaethau gwleidyddol, er mwyn gwella cyfleoedd swyddi yn yr ardal honno.

Darren Millar: Weinidog, byddwch yn sylweddoli nad yw Glannau Dyfrdwy yn fy etholaeth i mewn gwirionedd, na sir y Fflint ychwaith. Er hynny, rydych wedi mynegi parodrwydd i ystyried cyswllt rhwng ardal fenter Glannau Dyfrdwy a'r cymunedau arfordirol yng Nghonwy a sir Ddinbych sydd o fewn ardal adfywio Gogledd Cymru. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny heddiw?

Edwina Hart: Gallaf. Rydym eisoes wedi dechrau trafodaethau gyda'r rhai a fu'n aflwyddiannus gyda'u ceisiadau, sef Conwy, sir Ddinbych a Wrecsam. Byddwn yn cael cyfarfod ag uwch swyddogion, ac rwyf am edrych ar y cysylltiadau y gellir eu gwneud gyda chwmnïau yn yr ardal fenter yng Nglannau Dyfrdwy sydd â chanolfannau eraill mewn mannau eraill. Mae'n gyfle busnes da, a byddaf yn adrodd ar y trafodaethau hynny maes o law.

Waterways

5. Nick Ramsay: *Will the Minister make a statement on the importance of waterways to the Welsh economy. OAQ(4)0093(BET)*

Edwina Hart: Mae dyfrffyrdd yn chwarae rhan bwysig yn y diwydiannau hamdden a thwristiaeth, a hefyd yn darparu ffocws ar gyfer rhai gweithgareddau adfywio economaidd.

Nick Ramsay: Thank you, Minister, for that answer. As you know, I chair the cross-party group on waterways in Wales. You may be aware of work in Scotland by British Waterways in reopening the Forth and Clyde canal and the Union canal to create the millennium link, which has generated a huge amount of investment—£342 million of inward investment was generated in the private sector as a result. Do we need to do something similar in Wales to take advantage of the opportunities that our waterways provide? How does your Government intend to make the most of these opportunities as waterways in Wales pass from British Waterways to the new Glandwr Cymru, the canal and river trust in Wales?

Edwina Hart: I have an interest in waterways, and as you will recall, my former colleague Val Lloyd chaired the all-party group very successfully during her time in the Assembly; it is good to see that the excellent work of that group is continuing. I have been invited to meet Andrew Stumpf from British Waterways to discuss the role of waterways in Wales in economic regeneration terms, because they are a focus for economic regeneration activities. Visit Wales has obviously been working with people across Wales on this, and it is important to recognise that there is a golden opportunity here for the tourism market. I am happy to keep Members updated about any issues that come to the fore.

Jocelyn Davies: Minister, you will be aware that there are calls for water from Wales to be transported to drought-stricken parts of the UK, and you will also know that Plaid Cymru sees water as a resource with economic value. Our submission to the Silk commission advocates devolving the power for us to levy taxes on natural resources. I also know that the Welsh Government did not include a

Nick Ramsay: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, fi yw cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar ddyfrffyrdd yng Nghymru. Efallai eich bod yn ymwybodol o'r gwaith a wneir gan Ddyfrffyrdd Prydain yn yr Alban i ailagor y gamlas Forth a Clyde a'r gamlas Union i greu cyswllt y mileniwm, sydd wedi creu buddsoddiad enfawr—cafodd £342 miliwn o fewnfuddsoddiad ei gynhyrchu yn y sector preifat o ganlyniad. A oes angen inni wneud rhywbeth tebyg yng Nghymru i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan ein dyfrffyrdd? Sut mae eich Llywodraeth yn bwriadu gwneud yn fawr o'r cyfleoedd hyn wrth i ddyfrffyrdd yng Nghymru symud o Ddyfrffyrdd Prydain i Glandwr Cymru, yr ymddiriedolaeth camlesi ac afonydd newydd yng Nghymru.

Edwina Hart: Mae gennyf ddiddordeb mewn dyfrffyrdd, ac fel y cofiwch, bu Val Lloyd—fy nghyn gyd-Aelod—yn gadeirydd llwyddiannus iawn ar y grŵp hollbleidiol yn ystod ei chyfnod yn y Cynulliad; mae'n dda gweld bod gwaith rhagorol y grŵp hwnnw'n parhau. Rwyf wedi cael gwahoddiad i gwrdd ag Andrew Stumpf o Ddyfrffyrdd Prydain i drafod rôl dyfrffyrdd yng Nghymru yng nghyswllt adfywio economaidd, oherwydd maent yn ffocws i weithgareddau adfywio economaidd. Mae'n amlwg bod Croeso Cymru wedi bod yn gweithio ar hyn gyda phobl ar hyd a lled Cymru, ac mae'n bwysig cydnabod bod hwn yn gyfle euraidd i'r farchnad dwristiaeth. Rwyf yn fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw faterion a fydd yn dod i'r amlwg.

Jocelyn Davies: Weinidog, byddwch yn ymwybodol y ceir galwadau i ddŵr o Gymru gael ei gludo i rannau o'r DU lle ceir prinder dŵr, a byddwch hefyd yn gwybod bod Plaid Cymru yn ystyried dŵr yn adnodd â gwerth economaidd. Mae ein sylwadau i'r Comisiwn Silk yn eirioli datganoli'r pŵer i ni dros godi trethi ar adnoddau naturiol. Gwn hefyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys

similar proposal in its submission. Will you now support in principle the devolution of all powers over water?

Edwina Hart: This is a matter that would have to be discussed collectively with my colleagues.

Aled Roberts: Minister, I echo Nick Ramsay's comments from the cross-party group on waterways, and welcome the fact that you will be meeting Andrew Stumpf shortly. Will you look in particular at the opportunities of the Pontcysyllte site in Clwyd South, particularly with regard to the large Flexsys complex in Cefn Mawr? That area is in need of regeneration, and your comments about tourism suggest particular opportunities there.

Edwina Hart: The Assembly Member for the constituency, Ken Skates, has already raised these matters about tourism opportunities with me, and I will be taking this forward.

Economi Cymru

6. Julie Morgan: *Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyflwr economi Cymru. OAQ(4)0089(BET)*

10. Christine Chapman: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella economi Cymru. OAQ(4)0096(BET)*

Edwina Hart: We continually assess the performance of the Welsh economy on a range of factors. Our priorities for improving the economy are set out in the programme for government and include strengthening the conditions for job creation and retention, and investment in infrastructure and innovation.

Julie Morgan: I thank the Minister for that reply. Does the Minister think that there is any way of boosting the economy by

cynnig tebyg yn ei sylwadau. A wnewch yn awr gefnogi, mewn egwyddor, datganoli'r holl bwerau dros ddŵr ?

Edwina Hart: Mae hwn yn fater y byddai'n rhaid ei drafod ar y cyd â'm cydweithwyr.

Aled Roberts: Weinidog, rwyf yn ategu sylwadau Nick Ramsay gan y grŵp trawsbleidiol ar ddyfrffyrdd, ac yn croesawu'r ffaith y byddwch yn cwrdd ag Andrew Stumpf yn fuan. A wnewch edrych yn benodol ar y cyfleoedd yn safle Pontcysyllte yn Ne Clwyd, yn enwedig o ran cyfaddilad mawr Flexsys yng Nghefn Mawr? Mae angen adfywio'r ardal honno, ac mae'ch sylwadau am dwristiaeth yn awgrymu y ceir cyfleoedd penodol yno.

Edwina Hart: Mae Aelod Cynulliad yr etholaeth, Ken Skates, eisoes wedi codi'r materion hyn am gyfleoedd twristiaeth gyda mi, a byddaf yn bwrw ymlaen â hyn.

The Welsh Economy

6. Julie Morgan: *What assessment has the Minister made of the state of the Welsh economy. OAQ(4)0089(BET)*

10. Christine Chapman: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for improving the Welsh economy. OAQ(4)0096(BET)*

Edwina Hart: Rydym yn asesu perfformiad economi Cymru ar amrywiaeth o ffactorau yn barhaus. Mae ein blaenoriaethau ar gyfer gwella'r economi wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu, ac yn cynnwys cryfhau'r amodau ar gyfer creu a chadw swyddi, a buddsoddi mewn seilwaith ac arloesedd.

Julie Morgan: Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. A yw'r Gweinidog yn credu bod unrhyw ffordd o roi hwb i'r economi drwy

encouraging companies that are not in an assisted area but which employ hundreds of staff who live in an assisted area with some grant assistance? I was thinking of companies such as the excellent GE Healthcare, which is based at Forest Farm in my constituency of Cardiff North.

Edwina Hart: I have visited GE Healthcare twice in recent months—once for a meeting with Vince Cable, and once at a follow-up meeting on my own, to see the excellent work that is done there. It is an anchor company, and it is keen to work with us. Of course, it finds it strange that it is not in an assisted area. The life sciences team is working closely with that company in discussing research and development projects, so we will see what help and assistance we are able to give to companies like that in any area. I commend that company for being an excellent employer, and one which is very loyal to Cardiff and Wales.

Christine Chapman: As the recent task and finish group report on microbusinesses noted, nearly 95% of Welsh businesses are microbusinesses. The report also noted that more help should be extended to microbusinesses to encourage them to innovate. Given the important role that this could play in improving and promoting economic activity in Wales, I would be keen for the Minister to provide further information on what plans the Welsh Government has to support this.

Edwina Hart: My recent announcement on an enhanced knowledge transfer partnership programme in Wales will broaden our provision for promoting innovation. We have the business innovation support, which has included in it about £5.8 million of European regional development fund money. We want people to invest in research and development to enhance commercial opportunities. We are looking at our academic expertise for

annog cwmnïau nad ydynt mewn ardal a gynorthwyir, ond sy'n cyflogi cannoedd o staff sy'n byw mewn ardal a gynorthwyir, gyda rhywfaint o gymorth grant? Roeddwn yn meddwl am gwmnïau fel GE Healthcare, cwmni gwych sydd wedi'i leoli yn Forest Farm yn fy etholaeth i, Gogledd Caerdydd.

Edwina Hart: Rwyf wedi ymweld â GE Healthcare ddwywaith yn ystod y misoedd diwethaf—unwaith i gael cyfarfod gyda Vince Cable, ac unwaith mewn cyfarfod dilynol ar fy mhen fy hun, i weld y gwaith rhagorol a wneir yno. Mae'n gwmni angor, ac mae'n awyddus i weithio gyda ni. Wrth gwrs, mae'n ei weld yn rhyfedd nad yw mewn ardal a gynorthwyir. Mae'r tîm gwyddorau bywyd yn gweithio'n agos gyda'r cwmni hwnnw i drafod prosiectau ymchwil a datblygu, felly byddwn yn gweld pa gefnogaeth a chymorth y gallwn ei roi i gwmnïau tebyg mewn unrhyw ardal. Rwyf yn cymeradwyo'r cwmni hwnnw am fod yn gyflogwr rhagorol, ac yn gyflogwr ffyddlon iawn i Gaerdydd ac i Gymru.

Christine Chapman: Fel y nodwyd yn adroddiad diweddar y grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnesau, mae bron i 95 y cant o fusnesau Cymru yn ficrofusnesau. Nodwyd hefyd yn yr adroddiad y dylid rhoi rhagor o gymorth i ficrofusnesau i'w hannog i arloesi. O ystyried y rôl bwysig y gallai hyn ei chwarae i wella ac i hyrwyddo gweithgarwch economaidd yng Nghymru, byddwn yn awyddus i'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am ba gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyn.

Edwina Hart: Bydd fy nghyhoeddiad diweddar am raglen uwch ar gyfer partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth yng Nghymru yn ehangu ein darpariaeth i hyrwyddo arloesedd. Mae gennym y rhaglen cymorth arloesi i fusnesau, sy'n cynnwys oddeutu £5.8 miliwn o arian cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Rydym am i bobl fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu er mwyn gwella cyfleoedd masnachol. Rydym

business project to see how that can help small businesses. We also have the Wales European collaboration fund, and the microbusiness task and finish group that you referred to makes some positive points about how we have to take that forward. I hope to have the initial report on its implementation in early March.

Nick Ramsay: Minister, in your response to my colleague Byron Davies's question earlier, I do not think that you gave us much evidence as to why you refused to give evidence to the Welsh Affairs Committee in Westminster on its inquiry into inward investment in Wales. I would be grateful if you could explain again why you did not do that. Do you agree with the findings of that Welsh Affairs Committee report that to better attract inward into Wales, a WDA-type body needs to be formed?

Edwina Hart: I always find it interesting when people talk about the Welsh Development Agency, as it sometimes seems to be seen through rose-tinted spectacles. We all remember the good that it did in some areas, but some of us also remember the criticisms of the agency. That is yesterday's news. I agree that we must look at the brand of Wales, which is important and which is an area I am considering. As to my decision not to attend the Welsh Affairs Committee regarding its inquiry into inward investment, I can say that, while we obviously have discussions with UK Trade and Investment on UK inward investment matters, matters of inward investment into Wales are for me and for my committee in the Assembly.

Nick Ramsay: Thank you for that answer, Minister. In looking at the reaction to your not attending that meeting, I noticed that the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes was also invited to attend, and he said that it was within your portfolio and was surprised that you were not there. Do you agree that this is

yn edrych ar ein harbenigedd academiaidd ar gyfer prosiect busnes i weld sut y gall hynny helpu busnesau bach. Mae gennym hefyd gronfa cydweithredu Ewropeaidd Cymru, ac mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ficrofusnesau y cyfeiriasoch ato yn gwneud rhai pwyntiau cadarnhaol ynghylch sut mae'n rhaid inni fwrw ymlaen â hynny. Rwyf yn gobeithio cael yr adroddiad cychwynnol ynghylch sut i'w weithredu ddechrau mis Mawrth.

Nick Ramsay: Weinidog, yn eich ymateb i gwestiwn fy nghyd-Aelod, Byron Davies, yn gynharach, nid wyf yn credu eich bod wedi rhoi llawer o dystiolaeth inni ynghylch pam eich bod wedi gwrthod rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan am ei ymchwiliad i fewnfuddsoddi yng Nghymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech egluro eto pam na wnaethoch hynny. A ydych yn cytuno â chanfyddiadau'r adroddiad hwnnw gan y Pwyllgor Materion Cymreig, bod angen ffurfio corff tebyg i Awdurdod Datblygu Cymru er mwyn mynd ati'n well i ddenu mewnfuddsoddiad i Gymru?

Edwina Hart: Rwyf bob amser yn meddwl ei fod yn ddiddorol, pan fydd pobl yn sôn am Awdurdod Datblygu Cymru, mai dim ond y pethau gorau y maent yn ei gofio yn ôl pob golwg. Mae pob un ohonom yn cofio'r pethau da a wnaeth mewn rhai meysydd, ond mae rhai ohonom hefyd yn cofio hefyd y feirniadaeth ar yr awdurdod. Newyddion ddoe yw hynny. Rwyf yn cytuno ei bod yn rhaid inni edrych ar frand Cymru, sy'n bwysig ac sy'n faes rwyf yn ei ystyried. O ran fy mhenderfyniad i beidio â mynychu'r Pwyllgor Materion Cymreig ar gyfer ei ymchwiliad i fewnfuddsoddi gallaf ddweud, er ein bod yn amlwg yn cael trafodaethau gyda Masnach a Buddsoddi y DU ar faterion sy'n ymwneud â mewnfuddsoddiad y DU, mai materion i mi ac i'm pwyllgor yn y Cynulliad yw mewnfuddsoddi yng Nghymru.

Nick Ramsay: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Wrth edrych ar yr ymateb i'r ffaith nad oeddech yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, sylwais fod y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd hefyd wedi cael gwahoddiad i fod yn bresennol, a dywedodd ei fod yn rhan o'ch portffolio chi

not about rose-tinted glasses? If you look at the evidence of that committee report, you will see that there is distrust within the business community of the variety of different agencies selling Wales around the world. Cardiff Business School said that, between 2004 and 2010, Wales was the only part of the UK that lost its share of inward investment. If you do not look back, Minister—and you do not seem to want us to move forward with regard to inward investment through a WDA-type model—how will you reverse this decline and ensure that, over the years to come, Wales does not continue to lose out when it comes to inward investment into this part of the world?

Edwina Hart: We have actually had quite a lot of inward investment. There have been a couple of very good announcements during the past few weeks. At the end of the day, we know what we must do with regard to selling Wales; it is important for us to do so. As I made clear at the time, the Cardiff Business School report has taken a historic perspective and has indicated the areas we need to deal with, which are the areas that are being dealt with. We are ultimately taking matters forward and I am content that we are doing so in the right manner.

Alun Ffred Jones: Mae Gerry Holtham wedi datgan y dylai Llywodraeth Cymru wario tua £2 biliwn yn ychwanegol at arian y bloc grant dros y pedair blynedd nesaf ar gynlluniau cyfalaf er mwyn cynnal swyddi a gwella isadeiledd. A gytunwch ag asesiad Mr Holtham, ac o ble y gobeithiwch gael yr arian ychwanegol hwnnw?

Edwina Hart: My colleague Jane Hutt and I have had several discussions about the importance of spending money on capital projects. We are in agreement that the money should be made available because these are good projects with regard to job creation. My colleague the Minister for Finance has already taken this forward and is looking at innovative ways to try to get the necessary capital to spend on projects across Wales.

Alun Ffred Jones: Unwaith eto, mae hyn yn

a'i fod yn synnu nad oeddech yno. A ydych yn cytuno nad yw hyn yn ymwneud â chofio'r pethau gorau? Os edrychwch ar dystiolaeth yr adroddiad hwnnw gan y pwyllgor, gwelwch y ceir diffyg ymddiriedaeth o fewn y gymuned fusnes o'r amrywiaeth o wahanol asiantaethau sy'n gwerthu Cymru ar hyd a lled y byd. Yn ôl Ysgol Fusnes Caerdydd, Cymru oedd yr unig ran o'r DU—rhwng 2004 a 2010—a gollodd ei chyfran o fewnfuddsoddiad. Os na fyddwch yn edrych yn ôl, Weinidog—ac nid yw'n ymddangos eich bod am inni symud ymlaen o ran mewnfuddsoddi drwy fodel tebyg i Awdurdod Datblygu Cymru—sut y byddwch yn dadwneud y dirywiad hwn ac yn sicrhau, dros y blynyddoedd i ddod, nad yw Cymru'n dal ar ei cholled o ran mewnfuddsoddi yn y rhan hon o'r byd?

Edwina Hart: Mewn gwirionedd, rydym wedi cael cryn dipyn o fewnfuddsoddiad. Bu cwpl o gyhoeddiadau da iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf. Yn y pen draw, rydym yn gwybod beth y mae'n rhaid inni ei wneud o ran gwerthu Cymru; mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny. Fel y nodais yn glir ar y pryd, mae'r adroddiad gan Ysgol Fusnes Caerdydd wedi arddel safbwynt hanesyddol ac wedi nodi'r meysydd y mae angen inni ymdrin â hwy, sef y meysydd rydym yn ymdrin â hwy. Rydym yn symud materion yn eu blaen, ac rwyf yn fodlon ein bod yn gwneud hynny yn y modd priodol.

Alun Ffred Jones: Gerry Holtham has stated that the Welsh Government should be spending about £2 billion in addition to the block grant over the next four years on capital schemes in order to sustain jobs and improve infrastructure. Do you agree with Mr Holtham's assessment and where do you hope to find that additional money?

Edwina Hart: Mae fy nghyd-Weinidog, Jane Hutt, a minnau wedi cael nifer o drafodaethau am bwysigrwydd gwario arian ar brosiectau cyfalaf. Rydym yn gytûn y dylai'r arian fod ar gael gan fod y rhain yn brosiectau da o ran creu swyddi. Mae fy nghyd-Weinidog, y Gweinidog Cyllid, eisoes wedi bwrw ymlaen â hyn ac mae'n ystyried ffyrdd arloesol o geisio cael y cyfalaf angenrheidiol i'w wario ar brosiectau ar hyd a lled Cymru.

Alun Ffred Jones: Once again, I am unclear

aneglur. Rydym wedi gofyn y cwestiwn ar nifer o achlysuron ynghylch lle'n union y credwch y gallem gael yr arian ychwanegol ar gyfer y prosiectau y cytunwn sy'n bwysig er mwyn cynnal swyddi. A allwch chi fod yn fwy manwl ynghylch y trafodaethau neu'r ffynonellau y credwch y gallem eu defnyddio er mwyn cael yr arian ychwanegol hwn?

Edwina Hart: My colleague Jane Hutt, when she was answering questions earlier, indicated how successful our discussions with local government have been and how we intend to look at other avenues to determine what capital investment can be utilised in Wales.

Russell George: Minister, I am pleased that significant interest has been shown in the Wales economic growth fund. Some tourism-based businesses in my constituency felt that the fund's application criteria and the short turnaround time for the completion of specific projects made it difficult for them to apply. I know that you are launching the SME investment fund in March, but do you intend to reintroduce the growth fund, or something similar, in the new financial year, which will have a more flexible application criteria and a longer delivery deadline?

Edwina Hart: Thank you for your comments; I will take account of them in my review of the success of the economic growth fund. I will make a statement in the Chamber next week indicating the direction of travel.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, rydych wedi ymdrin â rhai pynciau yng nghydestun yr economi o ran yr angen i sefydlu ardaloedd menter. Rydych wedi dweud bod y broses honno yn mynd yn ei blaen. Rydych chi wedi edrych ar bynciau eraill, megis y diwydiannau creadigol, ar sail Cymru gyfan, oherwydd rydych yn meddwl mai honno yw'r ffordd orau ymlaen. A ydych yn cytuno bod gan y celfyddydau a thwristiaeth ran bwysig i'w chwarae o ran hybu'r economi a'n harwain allan o'r dirwasgiad? A ydych chi'n edrych ar y pynciau hynny fel rhai sy'n addas i ardal fenter neu ar sail Cymru gyfan?

Edwina Hart: I have to look at some of

about this. We have asked the question on several occasions about where exactly you think you could find this additional money for projects that we all agree are important in order to sustain jobs. Can you be more specific about the discussions or the sources you think we could tap into in order to secure this additional funding?

Edwina Hart: Dywedodd fy nghyd-Weinidog, Jane Hutt, pan oedd yn ateb cwestiynau yn gynharach, pa mor llwyddiannus y bu ein trafodaethau gyda llywodraeth leol, a sut rydym yn bwriadu edrych ar opsiynau eraill i benderfynu pa fuddsoddiad cyfalaf y gellir ei ddefnyddio yng Nghymru.

Russell George: Weinidog, rwyf yn falch y dangoswyd llawer o ddiddordeb yng nghronfa twf economaidd Cymru. Teimlai rhai busnesau twristiaeth yn fy etholaeth bod meini prawf ymgeisio'r gronfa, a'r amserlen fer ar gyfer cwblhau prosiectau penodol, yn ei gwneud yn anodd iddynt ymgeisio. Gwn eich bod yn lansio'r gronfa fuddsoddi ar gyfer busnesau bach a chanolig ym mis Mawrth, ond a ydych yn bwriadu ailgyflwyno'r gronfa twf, neu rywbeth tebyg, yn y flwyddyn ariannol newydd, a fydd yn cynnwys meini prawf ymgeisio mwy hyblyg ac amserlen hwy ar gyfer cyflawni?

Edwina Hart: Diolch ichi am eich sylwadau; byddaf yn eu hystyried yn fy adolygiad o lwyddiant y gronfa twf economaidd. Byddaf yn gwneud datganiad yn y Siambr yr wythnos nesaf a fydd yn dangos y cyfeiriad.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, you have dealt with certain aspects of the economy in the context of establishing enterprise zones. You have said that that process is ongoing. You have looked at other areas, such as the creative industries, on an all-Wales basis because you see that as the best way forward. Do you agree that arts and tourism have an important role to play in terms of boosting the economy and leading us out of recession? Are you looking at those areas as being appropriate for an enterprise zone or as ones to be taken on an all-Wales basis?

Edwina Hart: Rhaid imi edrych ar rai o'r

those on an all-Wales basis, but we also have to show innovation and not be risk averse in developing some of the projects, which are innovative and on the cutting edge of what we want to do. I welcomed the opportunity to meet you yesterday to discuss a very innovative project in Carmarthenshire, which my officials will proceed to look at and which involves the arts, our heritage, and the tourism trail. We must look to work more in that area to ensure that we get people into Wales to spend money and create jobs.

Yr Economi yn Nhor-faen

7. Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r economi yn Nhorfaen. OAQ(4)0091(BET)

Edwina Hart: Our priorities for developing the economy across Wales are set out in the programme for government and include plans for strengthening the conditions for job creation and retention, and investing in infrastructure, skills and innovation.

Lynne Neagle: I am grateful for the support that you have offered to important manufacturers in Torfaen when I have made representations to you after they have been in touch with me to raise concerns. I worry that contact with Welsh Government is too often the last port of call in a storm, and that companies are turning to the Welsh Government for help as a last resort. I recognise and support the range of work that you are doing to support the economy in Wales during these difficult times, but what more can we do to ensure that individual companies are aware of the help and support the Welsh Government can offer? I am thinking, for example, of the proactive assigning of every employer over a certain size with a relationship manager as a matter of course.

rheini ar sail Cymru gyfan, ond mae'n rhaid inni hefyd ddangos arloesedd a pheidio ag ofni risg wrth ddatblygu rhai o'r prosiectau, sy'n arloesol ac yn arwain y ffordd o ran yr hyn rydym yn dymuno ei wneud. Roeddwn yn falch o'r cyfle i gael cyfarfod gyda chi ddoe i drafod prosiect arloesol iawn yn sir Gaerfyrddin, a bydd fy swyddogion yn mynd ati i edrych ar y prosiect hwn sy'n cynnwys y celfyddydau, ein treftadaeth, a'r llwybr twristiaeth. Rhaid inni ystyried gweithio rhagor yn y maes hwnnw er mwyn sicrhau ein bod yn denu pobl i Gymru i wario arian ac i greu swyddi.

The Economy in Torfaen

7. Lynne Neagle: Will the Minister outline Welsh Government plans to develop the economy in Torfaen. OAQ(4)0091(BET)

Edwina Hart: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r economi ledled Cymru wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu, ac maent yn cynnwys cynlluniau i gryfhau'r amodau ar gyfer creu a chadw swyddi, a buddsoddi mewn seilwaith, sgiliau ac arloesedd.

Lynne Neagle: Rwyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth rydych wedi'i rhoi i weithgynhyrchwyr pwysig yn Nhor-faen pan rwyf wedi cyflwyno sylwadau ichi ar ôl iddynt gysylltu â mi i fynegi pryderon. Rwyf yn poeni mai cysylltu â Llywodraeth Cymru yw'r opsiwn olaf yn rhy aml mewn sefyllfa anodd, a bod cwmnïau'n troi at Lywodraeth Cymru am gymorth fel y dewis olaf. Rwyf yn cydnabod ac yn cefnogi'r ystod o waith rydych yn ei wneud i gefnogi'r economi yng Nghymru yn ystod y cyfnod anodd hwn, ond beth arall y gallwn ei wneud i sicrhau bod cwmnïau unigol yn ymwybodol o'r cymorth a'r gefnogaeth y gall Llywodraeth Cymru eu cynnig? Rwyf yn meddwl, er enghraifft, am fynd ati i neilltuo i benodi rheolwr cysylltiadau ar gyfer pob cyflogwr dros faint penodol fel mater o drefn.

Edwina Hart: Your point about relationship management is an important part of the support we give. It is one of the areas that we will be reinstating across my department. We will actively engage with companies and assign relationship managers, such as we do in our work with anchor companies. It is important that we do that with SMEs, too. It is also important that the staff who engage with relationship managers understand what is on offer from across the Government, not just from my department. They might have an issue to do with training rather than just an issue about cash. For smaller businesses, we also have one-to-one support available through the regional centres. As part of the microbusiness report, we are looking at how we can improve access to and awareness of support for businesses, including the development of a one-stop shop and the branding issues that are essential if we are to get microbusinesses functioning well.

William Graham: Minister, I am sure that you will lament with me that over the last six or seven years, nearly 9,000 manufacturing jobs have been lost in south-east Wales, of which almost 10% was in Torfaen. A report by GMB Wales says that the lack of skills in manufacturing and the difficulty in getting people into positions when there are vacancies available are challenges that need to be met. What specific policies do you intend to implement?

Edwina Hart: It is interesting that the Member has asked this question because I had discussions with representatives of the chemical industry today—which impacts on south-east Wales—about the skills required in that industry for the future and what are we doing about that. I was able to tell the

Edwina Hart: Mae eich pwynt am reoli cysylltiadau yn rhan bwysig o'r gefnogaeth a roddwn. Mae'n un o'r meysydd y byddwn yn ei ailgyflwyno ar draws fy adran. Byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â chwmnïau ac yn neilltuo rheolwyr cysylltiadau, fel y gwnawn yn ein gwaith gyda chwmnïau angor. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hynny gyda busnesau bach a chanolig hefyd. Mae hefyd yn bwysig bod y staff sy'n ymwneud â rheolwyr cysylltiadau yn deall beth sydd ar gael gan bob rhan o'r Llywodraeth, nid dim ond gan fy adran i. Efallai fod ganddynt broblem sy'n ymwneud â hyfforddiant yn hytrach na dim ond problem yn ymwneud ag arian parod. Ar gyfer busnesau llai, rydym hefyd yn darparu cymorth un-i-un drwy'r canolfannau rhanbarthol. Fel rhan o'r adroddiad ar microfusnesau, rydym yn ystyried sut y gallwn wella mynediad busnesau at gefnogaeth a gwella ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth honno, gan gynnwys datblygu siop-un-stop a rhoi sylw i'r materion brandio sy'n hanfodol os ydym am gael microfusnesau sy'n gweithio'n dda.

William Graham: Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch chi fel finnau yn siomedig bod bron i 9,000 o swyddi gweithgynhyrchu wedi cael eu colli yn y de-ddwyrain dros y chwe neu saith mlynedd diwethaf, ac roedd bron i 10 y cant o'r rheini yn Nhor-faen. Mae adroddiad gan GMB Cymru yn dweud bod prinder sgiliau mewn gweithgynhyrchu a'r anhawster cael pobl i swyddi pan fydd swyddi gwag ar gael, yn heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy. Pa bolisiau penodol rydych yn bwriadu eu gweithredu?

Edwina Hart: Mae'n ddiddorol bod yr Aelod wedi gofyn y cwestiwn hwn gan fy mod wedi cael trafodaethau gyda chynrychiolwyr y diwydiant cemegol heddiw—sy'n effeithio ar y de-ddwyrain—am y sgiliau sy'n angenrheidiol yn y diwydiant hwnnw ar gyfer y dyfodol, a beth rydym yn ei wneud

representatives the excellent news that, as part of my education and skills colleagues' work with anchor companies, those companies will deliver skills for apprentices in the future so that we can get the right skills in place for industry. That is one of the key areas that we are developing, which I hope will help in this regard.

ynghylch hynny. Roeddwn yn gallu rhannu â'r cynrychiolwyr y newyddion gwych y bydd y cwmnïau hynny, fel rhan o waith sgiliau ac addysg fy nghydweithwyr gyda chwmnïau angor, yn sicrhau sgiliau ar gyfer prentisiaid yn y dyfodol er mwyn inni allu cael y sgiliau priodol ar gyfer diwydiant. Dyna un o'r prif feysydd rydym yn eu datblygu, a gobeithio y bydd yn gymorth yn hyn o beth.

Hyrwyddo Bwyd a Diod

The Promotion of Food and Drink

8. Christine Chapman: *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. OAQ(4)0098(BET)*

8. Christine Chapman: *What is the Welsh Government doing to promote food and drink from Wales. OAQ(4)0098(BET)*

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): The Welsh Government is committed to supporting Welsh food and drink produce through supporting a number of measures including attendance at major food events and exhibitions across the UK and internationally, the Wales the True Taste awards, and supporting food festivals.

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies): Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cynnyrch bwyd a diod o Gymru drwy gefnogi nifer o fesurau, gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd bwyd mawr ar draws y DU ac yn rhyngwladol, gwobrau Gwir Flas Cymru, a chefnogi gwyliau bwyd.

2.45 p.m.

Christine Chapman: Thank you, Deputy Minister; that is welcome news. I know that the Minister for business recently visited the Penderyn distillery in my constituency. Penderyn is a world-recognised Welsh brand. I note that, in the run-up to Christmas, the Welsh Government made a concerted effort to encourage Welsh shoppers to buy Welsh produce. I would be keen to know if there are early data on the success of the campaign. There is also an opportunity here with the Welsh public sector. What discussions are you having to encourage greater take-up of Welsh produce in the Welsh public sector?

Christine Chapman: Diolch, Ddirprwy Weinidog; mae hynny'n newyddion da. Gwn fod y Gweinidog Busnes wedi ymweld â distyllfa Penderyn yn fy etholaeth yn ddiweddar. Mae Penderyn yn frand o Gymru sy'n cael ei adnabod yn fyd-eang. Nodaf fod Llywodraeth Cymru, yn y cyfnod a oedd yn arwain at y Nadolig, wedi gwneud ymdrech arbennig i annog siopwyr Cymru i brynu cynnyrch o Gymru. Byddai'n dda gennyf wybod a oes data cynnar ar lwyddiant yr ymgyrch. Mae hwn yn gyfle i sector cyhoeddus Cymru hefyd. Pa drafodaethau rydych yn eu cael i annog sector cyhoeddus Cymru i brynu rhagor o gynyrrch o Gymru?

Alun Davies: As a Government, we conduct a number of regular surveys on the take-up of Welsh produce; I can write to Members on

Alun Davies: Fel Llywodraeth, rydym yn cynnal nifer o arolygon rheolaidd ar faint o gynyrrch o Gymru sy'n cael ei brynu; gallaf

that, providing more detailed information. However, the Government and officials hold regular discussions with purchasing professionals across the whole of the Welsh public sector, with the aim of encouraging the supply of a far greater volume of Welsh produce to this sector. This is a crucial part of our overall work in support of Welsh food and in increasing the market share of Welsh produce, and an essential part of our overall food strategy.

Antoinette Sandbach: Deputy Minister, Wales has successfully built a reputation for the quality of its food and drink, and it is vital that the growing market for Welsh produce in Europe and further abroad is not undermined in any way. Bearing in mind that 80% of Welsh fish and shellfish are exported to Europe, can you confirm what assessment the Welsh Government has made of the suitability of continuing to provide marketing assistance for land-based production of marine fish, particularly in light of the fact that operators of such a plant in north Wales, who accompanied you to the European seafood exposition in Brussels last week, are being sentenced today for discharging trade effluent and chemicals into the sea in an area of outstanding natural beauty? What assessment has been made of the reputational damage to the wider food and drink sector?

Alun Davies: There are a number of areas in which we are seeking to promote the production and the processing of seafood products, in north Wales and elsewhere. One thing that I will be looking at—I will be making a statement in the next few weeks on how we take forward the next rural development plan—is how we can help support and promote economic development and profitability in that sector. One way in which we can do that is through the grant systems that we have available under the RDP. I will be seeking to strengthen the processing facilities that we have along the Welsh coast, and we will be taking that forward over the next few years.

William Powell: Representatives from the smaller and micro brewery sector in Wales

ysgrifennu at yr Aelodau ynghylch hynny, i roi rhagor o wybodaeth fanwl iddynt. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth a swyddogion yn cynnal trafodaethau rheolaidd â gweithwyr proffesiynol ym maes prynu ar draws sector cyhoeddus Cymru, gyda'r nod o annog y sector hwn i ddefnyddio llawer rhagor o gynnyrch o Gymru. Mae hyn yn rhan allweddol o'n gwaith cyffredinol i gefnogi bwyd o Gymru ac i gynyddu cyfran marchnad cynnyrch o Gymru, ac yn rhan hanfodol o'n strategaeth fwyd gyffredinol.

Antoinette Sandbach: Ddirprwy Weinidog, mae Cymru wedi llwyddo i greu enw da am ansawdd ei bwyd a'i diod, ac mae'n hanfodol nad yw'r farchnad gynyddol ar gyfer cynnyrch o Gymru yn Ewrop a thu hwnt yn cael ei thanseilio mewn unrhyw ffordd. Gan gofio bod 80 y cant o bysgod a physgod cregyn Cymru yn cael eu hallforio i Ewrop, a allwch gadarnhau pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ba mor addas yw parhau i ddarparu cymorth marchnata ar gyfer cynhyrchu pysgod môr ar y tir, yn enwedig yn wyneb y ffaith bod gweithredwyr ffatri o'r fath yn y gogledd—a ddaeth gyda chi i'r digwyddiad bwyd môr Ewropeaidd ym Mrwsel yr wythnos diwethaf—yn cael eu dedfrydu heddiw am ryddhau elifiant masnach a chemegau i'r môr mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol? Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r niwed i enw da'r sector bwyd a diod ehangach?

Alun Davies: Rydym yn ceisio hyrwyddo cynhyrchu a phrosesu cynnyrch bwyd môr mewn nifer o ardaloedd, yn y gogledd ac mewn mannau eraill. Un peth y byddaf yn ei ystyried—byddaf yn gwneud datganiad yn ystod yr wythnosau nesaf am sut rydym yn bwrw ymlaen â'r cynllun datblygu gwledig nesaf—yw sut y gallwn helpu i gefnogi a hybu datblygiad economaidd a phroffidioldeb yn y sector hwnnw. Un ffordd y gallwn wneud hynny yw drwy'r systemau grant sydd ar gael o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Byddaf yn ceisio cryfhau'r cyfleusterau prosesu sydd gennym ar hyd arfordir Cymru, a byddwn yn bwrw ymlaen â hynny dros y blynyddoedd nesaf.

William Powell: Mae cynrychiolwyr o'r sector microfragdai a bragdai llai yng

have recently expressed concern about their relative exclusion from recent Visit Wales promotional campaigns. It is particularly frustrating for them, given that such campaigns have concentrated particularly around cider and wine. Ahead of your forthcoming visit to the Rotters micro-brewery in Powys, will you confirm that Welsh beers play an important part in contributing to a sense of place in the tourism sector, and ensure that they have their rightful place in promotional campaigns?

Alun Davies: I have a strong personal commitment to this. [*Laughter.*] The Member will be aware that I hosted the first Welsh drinks summit in Aberystwyth last September. The Government will be publishing an action plan to take forward all the areas identified as part of that, but it is an industry-led action plan, and I hope that it meets the needs not only of the micro-breweries that you have met, but micro-breweries across the whole of Wales.

Seilwaith Busnes

9. Janet Finch-Saunders: *Sut y bydd y Gweinidog yn gwella seilwaith busnes yng Nghymru dros y 6 mis nesaf. OAQ(4)0099(BET)*

Edwina Hart: I will improve business infrastructure through such initiatives as next generation broadband and our investment in infrastructure to support enterprise zones, particularly the sum of £3.5 million for road improvements. In addition, maximising benefits for Welsh companies and communities will be a central priority in developing the Wales infrastructure investment plan.

Janet Finch-Saunders: Minister, 38% of members of the Federation of Small Businesses in Wales rent or lease business premises, compared with 44% in the UK. There are also currently many empty

Nghymru wedi mynegi pryder yn ddiweddar am y ffaith eu bod wedi'u hepgor o ymgyrchoedd diweddar Croeso Cymru. Mae'n hynod rwystredig iddynt, o ystyried bod ymgyrchoedd o'r fath wedi canolbwyntio'n benodol ar seidr a gwin. Cyn eich ymweliad â microfragdy Rotters ym Mhowys cyn bo hir, a wnewch gadarnhau bod cwrw o Gymru yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyfrannu at ymdeimlad o le yn y sector twristiaeth, a sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn briodol mewn ymgyrchoedd hyrwyddo?

Alun Davies: Mae gennyf ymrwymiad personol cryf i hyn. [*Chwerthin.*] Bydd yr Aelod yn gwybod fy mod wedi cynnal uwchgynhadledd diodydd gyntaf Cymru yn Aberystwyth fis Medi diwethaf. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi cynllun gweithredu i fwrw ymlaen â'r holl elfennau a nodwyd fel rhan o hynny, ond mae'n gynllun gweithredu o dan arweiniad y diwydiant, a gobeithio y bydd yn diwallu anghenion y microfragdai rydych wedi cwrdd â hwy yn ogystal â microfragdai ledled Cymru.

Business Infrastructure

9. Janet Finch-Saunders: *How will the Minister improve business infrastructure in Wales over the next 6 months. OAQ(4)0099(BET)*

Edwina Hart: Byddaf yn gwella seilwaith busnes drwy fentrau fel band eang y genhedlaeth nesaf a'n buddsoddiad mewn seilwaith i gefnogi ardaloedd menter, yn enwedig y swm o £3.5 miliwn i wella ffyrdd. Hefyd, bydd sicrhau'r budd mwyaf posibl i gwmnïau a chymunedau Cymru yn flaenoriaeth ganolog wrth ddatblygu cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru.

Janet Finch-Saunders: Weinidog, 38 y cant o aelodau Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru sy'n rhentu neu'n prydlesu adeiladau busnes, o'i gymharu â 44 y cant yn y DU. Ceir hefyd amryw o unedau diwydiannol

industrial units in business parks across Wales. What meaningful support and real initiatives have you put in place to genuinely encourage new and start-up businesses to take on and lease one of these many empty properties?

Edwina Hart: Many of these empty properties are not under my control, although I have a property portfolio, which I ensure is marketed well. The points that you have made are very interesting, particularly with regard to the units that local government and others hold. I will certainly have a word with my property officials to see if there is anything that we could discuss with our partners.

Simon Thomas: Minister, businesses in my region say that the main issue that they face over the next six months is access to the finance infrastructure—particularly lending. Now that we have seen Project Merlin fail to deliver to SMEs in particular and now that the Government in Westminster has abandoned it and has no firm plans for an alternative, what steps are you taking to discuss with Westminster ways of ensuring that lending is available to SMEs in Wales at a reasonable rate? Are you looking at alternative lending institutions, such as a business bank for Wales?

Edwina Hart: Yes, I am looking at alternative arrangements for Wales. I am very disappointed at the response of some of the major banks in terms of lending to businesses. To be frank with you, I think that it is a result of a lack of direction from the Bank of England and the lack of direction in terms of central macro-economic policy. We are therefore sometimes between a rock and a hard place. However, we will discuss how we can help small businesses.

Darren Millar: Minister, one issue that businesses often face is the challenge of marketing themselves on the internet. You have previously indicated your support for a top-level domain in Wales; can you provide

gwag ar hyn o bryd mewn parciau busnes ledled Cymru. Pa gymorth ystyrion a chynlluniau go iawn rydych wedi'u rhoi ar waith i fynd ati o ddifrif i annog busnesau newydd a busnesau ifanc i ymgymryd ag un o'r nifer o adeiladau gwag hyn i'w rentu neu ei brydlesu?

Edwina Hart: Nid yw llawer o'r adeiladau gwag hyn o dan fy rheolaeth i, er bod gennyf bortffolio eiddo, ac rwyf yn sicrhau ei fod yn cael ei farchnata'n dda. Mae'r pwyntiau rydych wedi'u gwneud yn ddiddorol iawn, yn enwedig o ran unedau llywodraeth leol ac eraill. Byddaf yn bendant yn cael gair gyda'm swyddogion eiddo i weld a oes unrhyw beth y gallem ei drafod gyda'n partneriaid.

Simon Thomas: Weinidog, mae busnesau yn fy rhanbarth i yn dweud mai'r prif fater sy'n eu hwynebu dros y chwe mis nesaf yw mynediad at y seilwaith cyllid—yn enwedig benthycia. Gan ein bod, erbyn hyn, wedi gweld y Prosiect Merlin yn methu cyflawni o ran busnesau bach a chanolig yn benodol, a chan fod y Llywodraeth yn San Steffan wedi'i roi i'r naill ochr ac nad oes ganddi gynlluniau pendant am brosiect tebyg arall, pa gamau rydych yn eu cymryd i drafod gyda San Steffan ffyrdd o sicrhau bod modd i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru gael benthyciad ar gyfradd resymol? A ydych yn ystyried sefydliadau benthycia amgen, megis banc busnesau ar gyfer Cymru?

Edwina Hart: Ydw, rwyf yn ystyried trefniadau amgen ar gyfer Cymru. Rwyf yn siomedig iawn ag ymateb rhai o'r prif fanciau o ran rhoi benthycia i fusnesau. A siarad yn blwmp ac yn blaen gyda chi, credaf fod hyn yn ganlyniad i ddiffyg cyfeiriad gan Fanc Lloegr a'r diffyg cyfeiriad o ran polisi macro-economaidd canolog. Felly, rydym rhwng dwy stôl weithiau. Fodd bynnag, byddwn yn trafod sut y gallwn helpu busnesau bach.

Darren Millar: Weinidog, un mater y mae busnesau yn ei wynebu'n aml yw'r her o farchnata eu hunain ar y rhyngwrdd. Rydych wedi datgan yn flaenorol eich cefnogaeth ar gyfer parth lefel uchaf yng Nghymru; a

an update to the Chamber on that situation today?

Edwina Hart: Yes. We invited potential applicants to submit an application to the Internet Corporation for Assigned Names and Numbers through our website some time ago. One submission was received by the deadline from the UK-based registry service, Nominet. The submissions were assessed by an independent panel, including the head of digital communications from the Scottish Government. The panel advised that the applications for the top-level domains in Wales should proceed to ICANN without objection from the Government. I have accepted the panel's advice and Nominet will take forward applications to ICANN for both Wales and Cymru domain names.

Rhoi Cymorth i Fusnesau yn Abertawe

11. Julie James: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei chynlluniau i roi cymorth i fusnesau yn Abertawe. OAQ(4)0101(BET)

Edwina Hart: Our plans for supporting business in all parts of Wales are set out in our programme for government.

Julie James: Minister, I congratulate you for your work on the microbusiness strategy for Wales. In welcoming the strategy document recently, you demonstrated that the Welsh Government is standing up for business in Swansea and Wales, given that 94.5% of those businesses are microbusinesses. Minister, what plans do you have to encourage microbusinesses to act together in consortia where that would improve their ability to bid for and win public sector contracts in Wales, and the Swansea area in particular?

Edwina Hart: That is one of the issues that we will have to look at across the piece in terms of how we develop our microbusiness strategy.

allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr am y sefyllfa honno heddiw?

Edwina Hart: Gallaf. Dro'n ôl, rhoesom wahoddiad i ymgeiswyr posibl gyflwyno cais i Gorfforaeth y Rhynggrwyd ar gyfer Enwau a Rhifau a Neilltuir drwy ein gwefan. Cafwyd un cais erbyn y dyddiad cau gan Nominet, gwasanaeth cofrestru'r DU. Cafodd y cyflwyniadau eu hasesu gan banel annibynnol, gan gynnwys pennaeth cyfathrebu digidol Llywodraeth yr Alban. Dywedodd y panel y dylai'r ceisiadau ar gyfer y parthau lefel uchaf yng Nghymru fynd ymlaen i ICANN heb wrthwynebiad gan y Llywodraeth. Rwyf wedi derbyn cyngor y panel, a bydd Nominet yn symud ceisiadau yn eu blaen i ICANN ar enwau parth Cymru a Wales.

Supporting Business in Swansea

11. Julie James: Will the Minister outline her plans to support business in Swansea. OAQ(4)0101(BET)

Edwina Hart: Mae ein cynlluniau ar gyfer rhoi cymorth i fusnesau ym mhob rhan o Gymru wedi eu nodi yn ein rhaglen lywodraethu.

Julie James: Weinidog, hoffwn eich llongyfarchaf ar eich gwaith ar y strategaeth microfusnesau i Gymru. Wrth groesawu'r ddogfen strategaeth yn ddiweddar, dangosoch fod Llywodraeth Cymru yn sefyll yn gadarn dros fusnesau yn Abertawe a Chymru, o gofio bod 94.5 y cant o'r busnesau hynny yn microfusnesau. Weinidog, pa gynlluniau sydd gennych i annog microfusnesau i weithredu gyda'i gilydd mewn consortia pan fyddai hynny'n gwella eu gallu i wneud cais ac ennill contractau sector cyhoeddus yng Nghymru, ac yn ardal Abertawe yn benodol?

Edwina Hart: Dyna un o'r materion y bydd yn rhaid inni edrych arno yn gyffredinol o ran sut rydym yn datblygu ein strategaeth microfusnesau.

Suzy Davies: Minister, in excluding South Wales West from your enterprise zone plans yet again, you said that there were aspects of the Swansea bid that had caught your eye. Are you considering any ideas to further the future of technology development and the creative industries in my region?

Edwina Hart: I have had discussions with the leader and senior economic development officials from the City and County of Swansea, and we hope to make some announcements regarding Swansea in particular in the next few weeks.

Peter Black: Minister, you will know that traders in Swansea city centre are particularly concerned about the high costs that they face and they are anxious that some action is taken with regard to business rates. I know that the current business rate discount has been extended, but can you give an indication of when your review of business rates is likely to report, so that we can give some comfort to those traders?

Edwina Hart: Yes, it will report in March.

Adroddiad ar Ficrofusnesau

12. Bethan Jenkins: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r camau nesaf y mae'n eu cymryd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar Ficrofusnesau. OAQ(4)0094(BET)*

Edwina Hart: The implementation plan is being drawn up and will be published early in March.

Bethan Jenkins: I know that we have already discussed procurement today, but I wanted to highlight a point made to me by Welsh SMEs that have come to me following their failure to win Sell2Wales bids. They

Suzy Davies: Weinidog, wrth eithrio Gorllewin De Cymru o'ch cynlluniau ardaloedd menter unwaith eto, dywedasocho fod elfennau o gais Abertawe wedi dal eich llygad. A ydych yn ystyried unrhyw syniadau i hybu dyfodol datblygu technoleg a'r diwydiannau creadigol yn fy rhanbarth i?

Edwina Hart: Rwyf wedi cael trafodaethau gyda'r arweinydd ac uwch swyddogion datblygu economaidd Dinas a Sir Abertawe, ac rydym yn gobeithio gwneud rhai cyhoeddiadau ynghylch Abertawe yn benodol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Peter Black: Weinidog, mae'n siŵr y gwyddoch fod masnachwyr yng nghanol dinas Abertawe yn hynod bryderus am y costau uchel sy'n eu hwynebu a'u bod yn awyddus i gamau gael eu cymryd mewn perthynas ag ardrethi busnes. Gwn fod y gostyngiad ardrethi busnes presennol wedi cael ei ymestyn, ond a allwch roi syniad o pryd y gellir disgwyl adroddiad gan eich adolygiad o ardrethi busnes, er mwyn inni allu rhoi rhywfaint o gysur i'r masnachwyr hynny?

Edwina Hart: Gallaf, bydd yn adrodd fis Mawrth.

Microbusiness Report

12. Bethan Jenkins: *Will the Minister outline the next steps she is taking following the publication of the Microbusiness report. OAQ(4)0094(BET)*

Edwina Hart: Mae'r cynllun gweithredu wrthi'n cael ei lunio, a bydd yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Mawrth.

Bethan Jenkins: Gwn ein bod eisoes wedi trafod caffael heddiw, ond roeddwn am dynnu sylw at bwynt a godwyd gyda mi gan fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sydd wedi dod ataf ar ôl methu ennill ceisiadau

have been subcontracted by bigger English firms to do the same work for more money. This means that the Welsh public sector is putting money outside Wales, initially, to companies whose only contribution is form filling, as this work is subsequently subcontracted to Welsh businesses. As part of this microbusiness strategy, would it be possible for you to look at this particular issue in order to cut out the middle man in these contracts to small businesses?

Edwina Hart: Thank you for those comments, which reflect the comments that I have received elsewhere from small businesses. I am discussing the issues around procurement with my colleague Jane Hutt, the Minister for Finance, because we have a mutual interest in simplifying procurement and also for ensuring that Welsh companies can compete on an even playing field.

Mark Isherwood: A year ago, following criticism by the Federation of Small Businesses that the then Welsh Government did not consult with small businesses before deciding on the key sectors that became the focus of business support, the Government established a new SME group to permanently advise it on the voice of the sector and on expertise from the front line. Why was this watered down after the election into a task and finish group? Yes, it is carrying out vital work in the development of a microbusiness strategy, but presumably it will not continue afterwards—or does the Minister have plans to maintain it as an advisory group when the strategy is in place?

Edwina Hart: I am sure that the Member cannot be referring to the microbusiness strategy group, which is excellently chaired and has independent membership. I have asked it to see through my microbusiness strategy and to give me advice as I proceed. I am not quite clear about the context of your question.

Gwerthwchi Gymru. Maent wedi cael eu hisgcontractio gan gwmnïau mwy yn Lloegr i wneud yr un gwaith am ragor o arian. Mae hyn yn golygu bod sector cyhoeddus Cymru yn rhoi arian y tu allan i Gymru, i ddechrau, i gwmnïau lle mai llenwi ffurflenni yw eu hunig gyfraniad, gan fod y gwaith hwn wedyn yn cael ei is-gontractio i fusnesau yng Nghymru. Fel rhan o'r strategaeth microfusnesau hon, a fyddai'n bosibl ichi edrych ar y mater penodol hwn er mwyn i'r contractau hyn fynd yn uniongyrchol i fusnesau bach fel nad oes angen neb yn y canol?

Edwina Hart: Diolch ichi am y sylwadau hynny, sy'n adlewyrchu'r sylwadau rwyf wedi'u cael mewn lleoedd eraill gan fusnesau bach. Rwyf yn trafod y materion caffael gyda fy nghyd-Weinidog, Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid, gan fod y ddwy ohonom yn awyddus i symleiddio'r broses caffael ac i sicrhau bod cwmnïau o Gymru'n gallu cystadlu ar faes chwarae cyfartal.

Mark Isherwood: Flwyddyn yn ôl, yn dilyn beirniadaeth gan y Ffederasiwn Busnesau Bach na wnaeth Llywodraeth Cymru ar y pryd ymgynghori â busnesau bach cyn penderfynu ar y sectorau allweddol a fyddai'n dod yn ganolbwynt o ran cymorth i fusnesau, sefydlodd y Llywodraeth grŵp newydd ar gyfer busnesau bach a chanolig er mwyn rhoi cyngor parhaol i'r Llywodraeth ar lais y sector ac ar arbenigedd o'r rheng flaen. Pam y cafodd hyn ei leihau ar ôl yr etholiad i fod yn grŵp gorchwyl a gorffen? Ydy, mae'n gwneud gwaith hanfodol o ran datblygu strategaeth microfusnesau, ond yn ôl pob tebyg, ni fydd yn parhau wedyn—neu a oes gan y Gweinidog gynlluniau i'w gynnal fel grŵp cynghori pan fydd y strategaeth wedi'i sefydlu?

Edwina Hart: Rwyf yn siŵr na all yr Aelod fod yn cyfeirio at y grŵp strategaeth microfusnesau, sy'n cael ei gadeiryddio'n rhagorol ac sy'n cynnwys aelodau annibynnol. Rwyf wedi gofyn iddo ofalu am fy strategaeth microfusnesau ac i roi cyngor imi wrth imi fwrw ymlaen â hyn. Nid wyf yn siŵr o gyd-destun eich cwestiwn.

Cymorth i Fusnesau Bach**Support for Small Businesses**

13. Leanne Wood: *Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i fusnesau bach. OAQ(4)0097(BET)*

13. Leanne Wood: *What support is the Welsh Government providing for small businesses. OAQ(4)0097(BET)*

Edwina Hart: We provide a variety of support for small business, including support through the regional centre service and the supplier development service.

Edwina Hart: Rydym yn darparu amrywiol fathau o gymorth i fusnesau bach, gan gynnwys cymorth drwy'r gwasanaeth canolfannau rhanbarthol a'r gwasanaeth datblygu cyflenwr.

Leanne Wood: Minister, the survey results released today by the FSB in Wales show some positive signs for small businesses, but a lot more clearly needs to be done. One of the biggest obstacles has been the unchecked growth of supermarkets—a point made by a number of those giving evidence to the recent committee inquiry on town centres. Research by my office showed that more than 400 shops and retail units closed between 2000 and 2008, during which time the four biggest supermarkets opened 157 new outlets. Minister, as is being proposed in the north of Ireland, would you be open to consider supporting an increase in business rates for bigger stores, such as supermarkets, so that rate relief could be provided to smaller businesses?

Leanne Wood: Weinidog, mae canlyniadau'r arolwg a gyhoeddwyd heddiw gan y Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru yn dangos arwyddion cadarnhaol ar gyfer busnesau bach, ond mae'n amlwg bod llawer mwy i'w wneud. Un o'r rhwystrau mwyaf fu twf dirwystr archfarchnadoedd—pwynt a wnaed gan nifer o'r rheini a fu'n rhoi tystiolaeth i ymchwiliad diweddar y pwyllgor i ganol trefi. Dangosodd ymchwil gan fy swyddfa fod mwy na 400 o siopau ac unedau manwerthu wedi cau rhwng 2000 a 2008, a bod y pedair archfarchnad fwyaf wedi agor 157 o siopau newydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Weinidog, fel sy'n cael ei gynnig yng Ngogledd Iwerddon, a fydddech yn agored i ystyried cefnogi cynyddu ardrethi busnes ar gyfer siopau mwy, fel archfarchnadoedd, er mwyn gallu darparu rhyddhad ardrethi i fusnesau llai?

Edwina Hart: As you have raised that point, I will look at it as a matter of interest. Other colleagues will be interested in your comments, and I will come back to you.

Edwina Hart: Gan eich bod wedi codi'r pwynt hwnnw, byddaf yn ei ystyried fel mater o ddiddordeb. Bydd gan gyd-Aelodau eraill ddiddordeb yn eich sylwadau, a dof yn ôl atoch.

Darren Millar: Minister, many small businesses are located on Wales's high streets, but statistics published earlier this month show that Wales has a higher than average shop vacancy rate—18% compared with 14% in England and 15% in Scotland. Minister, what will you do to address the problem on our high streets? Will you give urgent consideration to providing additional business rate relief, in line with some of the suggestions in our party's manifesto for the Assembly elections?

Darren Millar: Weinidog, mae llawer o fusnesau bach wedi'u lleoli ar y stryd fawr yng Nghymru, ond mae ystadegau a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn yn dangos bod cyfradd siopau gwag Cymru yn uwch na'r cyfartaledd—18 y cant o'i gymharu â 14 y cant yn Lloegr a 15 y cant yn yr Alban. Weinidog, beth rydych am ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem ar y stryd fawr? A roddwch ystyriaeth frys i ddarparu rhyddhad ardrethi busnes ychwanegol, yn unol â rhai o'r awgrymiadau ym maniffesto ein plaid ar gyfer etholiadau'r Cynulliad?

Edwina Hart: I await my report from Professor Morgan on business rates, which is an independent report. In terms of high streets, I very much hope that the local zones that I have introduced for discussion in Powys will start to bring up ways of tackling some of the empty properties issues within those towns, and make some innovative suggestions. If they are good suggestions, they can be passed on to be utilised in other communities.

Edwina Hart: Rwyf yn aros am adroddiad gan yr Athro Morgan am ardrethi busnes, sy'n adroddiad annibynnol. O ran y stryd fawr, rwyf yn gobeithio'n fawr y bydd yr ardaloedd lleol rwyf wedi'u cyflwyno ar gyfer trafodaeth ym Mhowys yn dechrau meddwl am ffyrdd o fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud ag eiddo gwag yn y trefi hynny, ac yn cynnig rhai awgrymiadau creadigol. Os ydynt yn awgrymiadau da, gellir eu rhannu i'w defnyddio mewn cymunedau eraill.

Twf Economaidd yng Nghanol De Cymru

Economic Growth in South Wales Central

14. Andrew RT Davies: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer cyflawni twf economaidd yn rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0092(BET)

14. Andrew RT Davies: Will the Minister outline her priorities for delivering economic growth in the South Wales Central region. OAQ(4)0092(BET)

Edwina Hart: Our priorities for economic growth are set out in the programme for Government.

Edwina Hart: Mae ein blaenoriaethau ar gyfer twf amgylcheddol wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): Thank you, Minister; I have heard that answer before. [*Laughter.*] I draw the Minister's attention to a recent Welsh Government report on the feasibility of a north Atlantic air link from Cardiff Airport and the possible dividends to the Welsh economy for every £1 spent—it would mean a significant return. The Welsh Government has spent considerable sums of money in north America promoting Welsh business. Is there a drive within the Government at the moment to revisit this opportunity, as I understand from the private sector that there is considerable demand for such an air link? As the report says that the air link would be viable, is the Welsh Government in a position to support such a venture?

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Diolch, Weinidog; rwyf wedi clywed yr ateb hwnnw o'r blaen. [*Chwerthin.*] Tynnaf sylw'r Gweinidog at adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru am ymarferoldeb cyswllt awyr ar gyfer gogledd yr Iwerydd o Faes Awyr Caerdydd, a'r difidendau posibl i economi Cymru am bob £1 a gaiff ei gwario—byddai'n golygu elw sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwario symiau sylweddol o arian yng ngogledd America i hyrwyddo busnesau Cymru. A yw'n fwriad gan y Llywodraeth ar hyn o bryd i ailedrych ar y cyfle hwn gan fod, ôl yr hyn a ddeallaf, llawer o alw yn y sector preifat am gysylltiad awyr o'r fath? Gan fod yr adroddiad yn dweud y byddai'r cyswllt awyr yn hyfyw, a yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gefnogi menter o'r fath?

Edwina Hart: We are having discussions with a wide variety of organisations concerning air links into Cardiff Airport. You make an interesting point about north America, as a number of companies have made the point to me about regular freight and cargo flights into Cardiff Airport that might be facilitated by a north American link. These issues are all on the table currently in the discussions that we have with the airport,

Edwina Hart: Rydym yn cael trafodaethau gydag amrywiaeth eang o sefydliadau ynghylch cysylltiadau awyr i Faes Awyr Caerdydd. Rydych yn gwneud pwynt diddorol am ogledd America, gan fod nifer o gwmnïau wedi gwneud y pwynt wrthyf am deithiau awyr rheolaidd i gludo nwyddau a chargo i Faes Awyr Caerdydd, y gellid eu hwyluso gyda chysylltiad â gogledd America. Mae'r materion hyn i gyd yn cael eu

airlines and interested parties.

hystyried ar hyn o bryd yn ein trafodaethau gyda'r maes awyr, cwmnïau awyrennau a phartion â diddordeb.

**Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar
Aflonyddu ar sail Anabledd yng Nghymru
The Communities, Equality and Local Government Committee's Report on
Disability Related Harassment in Wales**

Cynnig NDM4918 Ann Jones

Motion NDM4918 Ann Jones

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Aflonyddu ar sail Anabledd yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Rhagfyr 2011.

Notes the Report of the Communities, Equality and Local Government Committee: Disability related harassment in Wales which was laid in the Table Office on 19 December 2011.

Ann Jones: I move the motion in my name.
3.00 p.m.

Ann Jones: Cynigiau y cynnig yn fy enw i.
3.00 p.m.

I am pleased to open this debate today on the Communities, Equality and Local Government Committee's report on disability harassment in Wales. For many disabled people, harassment is a daily experience. It can include name calling, physical violence, bullying, sexual harassment, financial exploitation or a number of those at any one time. Some disabled people feel that they have no choice but to accept it and to try to live with it. However, sometimes what starts out as harassment can escalate and lead to tragedy.

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon heddiw ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar aflonyddu ar sail anabledd yng Nghymru. Mae aflonyddu'n rhywbeth sy'n digwydd bob dydd i lawer o bobl anabl. Gall gynnwys galw enwau, trais corfforol, bwlio, aflonyddu rhywiol, ecsbloetio ariannol neu nifer o'r rheini ar unrhyw un adeg. Mae rhai pobl anabl yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond derbyn a cheisio byw gyda hyn. Weithiau, fodd bynnag, gall yr hyn sy'n dechrau fel aflonyddu waethygu ac arwain at drasiedi.

Many Assembly Members will know the names of Fiona Pilkington and her daughter, Francecca Hardwicke, who died, having suffered harassment for seven years. Members will also know the name of Christopher Foulkes, a constituent of mine, who, in March 2007, was found dead in his flat by his care worker following an attack by a teenage boy. These are tragic cases that have had much media attention, but we should not underestimate the problem: harassment is a daily occurrence for many disabled people. I am sure that Members will agree that vulnerable people in our society deserve to be treated with dignity and respect. Anything less is unacceptable.

Bydd llawer o Aelodau'r Cynulliad yn adnabod enwau Fiona Pilkington a'i merch, Francecca Hardwicke, a fu farw ar ôl i rywrai aflonyddu arnynt am saith mlynedd. Bydd Aelodau hefyd yn adnabod yr enw Christopher Foulkes, un o'm hetholwyr. Ym mis Mawrth 2007, cafodd ei ganfod yn farw yn ei fflat gan ei weithiwr gofal ar ôl i fachgen yn ei ardegau ymosod arno. Mae'r rhain yn achosion trasig y rhoddwyd llawer o sylw iddynt yn y cyfryngau, ond ni ddylem danystyried y broblem: mae aflonyddu'n rhywbeth sy'n digwydd bob dydd i lawer o bobl anabl. Rwyf yn siŵr y bydd Aelodau'n cytuno bod pobl agored i niwed yn ein cymdeithas yn haeddu cael eu trin ag urddas a pharch. Mae'n annerbyniol eu trin fel arall.

The committee's inquiry was prompted by the Mencap breakfast event and also by the Equality and Human Rights Commission's inquiry into disability-related harassment, 'Hidden in plain sight', published in September 2011. That report provided a thorough basis for the committee's inquiry, and I thank the EHRC for its efforts in bringing this important issue to the attention of the wider public.

There are 10 recommendations in our report, which cover five main areas. Those areas are leadership and partnership, the specific equality duties, rights-based safeguarding, increasing reporting, and changing cultural attitudes towards disabled people. As a committee, we hope that these recommendations will lead to changes that people can see on the ground, so that disabled people can live without fear of being harassed. I am pleased that the Minister has accepted all of the recommendations and I welcome the positive response that she has given to the report.

On leadership and partnership, the committee heard evidence from a number of witnesses about the importance of strong leadership from the Welsh Government and others, including the committee. We acknowledge the role that we can play as a committee, and have given a commitment that we will keep under review progress in addressing disability-related harassment. We have therefore recommended that the Welsh Government should bring forward a disability-related harassment framework, drawing together all of the work currently being done in Wales and setting a strategic direction for it.

In terms of partnership working, the evidence that we heard was that good work was being done, but there is still a lot to do. Given the importance of effective partnership working, we have recommended that the framework should establish accountability across ministerial portfolios, and further encourage partnership working between Government departments, local authorities, health boards, voluntary organisations and others, including the police. We have also recommended that multi-agency risk assessment conferences

Ysgogwyd ymchwiliad y pwyllgor gan ddigwyddiad brecwast Mencap a hefyd gan ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i aflonyddu ar sail anabledd, 'O'r golwg yng ngolwg pawb', a gyhoeddwyd ym mis Medi 2011. Roedd yr adroddiad hwnnw yn sail drylwyr i ymchwiliad y pwyllgor, a hoffwn ddiolch i'r Comisiwn am ei ymdrechion wrth ddod â'r mater pwysig hwn i sylw'r cyhoedd.

Ceir 10 argymhelliad yn ein hadroddiad, sy'n trafod pum prif faes, sef arweinyddiaeth a phartneriaeth, y dyletswyddau cydraddoldeb penodol, diogelu ar sail hawliau, cynyddu'r achosion o adrodd a newid agweddau diwylliannol tuag at bobl anabl. Fel pwyllgor, rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion hyn yn arwain at newidiadau y gall pobl eu gweld ar lawr gwlad, er mwyn i bobl anabl allu byw heb ofni y bydd rhywun yn aflonyddu arnynt. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr holl argymhellion ac yn croesawu ei hymateb cadarnhaol i'r adroddiad.

O ran arweinyddiaeth a phartneriaeth, clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion ynglŷn â phwysigrwydd arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru ac eraill, gan gynnwys y pwyllgor. Rydym yn cydnabod y rôl y gallwn ei chwarae fel pwyllgor, ac wedi ymrwmo i adolygu'n gyson y cynnydd wrth fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd. Rydym wedi argymell, felly, y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno fframwaith aflonyddu ar sail anabledd, gan dynnu ynghyd yr holl waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yng Nghymru, a gosod cyfeiriad strategol ar ei gyfer.

O ran gweithio mewn partneriaeth, clywsom dystiolaeth bod gwaith da yn cael ei wneud, ond bod llawer i'w wneud o hyd. O ystyried pwysigrwydd gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, rydym wedi argymell y dylai'r fframwaith sefydlu atebolrwydd ar draws y portffolios gweinidogion, ac annog adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, mudiadau gwirfoddol ac eraill, gan gynnwys yr heddlu, i weithio mewn partneriaeth. Rydym wedi argymell hefyd y dylid treialu cynadleddau asesu risg

should be piloted for disability-related harassment, as there is evidence that they are an effective way to bring people together to share good practice.

Another issue that was raised, both by witnesses and in the EHRC report, was the importance of the public sector equality duties. There was a strong view that these will provide an opportunity to drive forward change, particularly to address disability-related harassment. As a committee, we share that view. We feel that this is an opportunity for public authorities to give disability-related harassment a higher priority and to encourage partnership working. We intend to keep under review the impact of the equality duties, when they are implemented, to ensure that they are effective. On this issue, we recommend that the Welsh Government should monitor how many public authorities have established disability-related harassment as an equality objective under the specific equality duties. These objectives should be evaluated on their outcomes and good practice should be shared.

I am pleased that the Minister has accepted this recommendation, and has given a commitment to working closely with the EHRC to, in the first instance, scope what objectives have been set by organisations throughout Wales. I am also pleased that the EHRC will be involved in evaluating outcomes, and that the Government is committed to putting in place mechanisms to share good practice throughout Wales.

On rights-based safeguarding, the EHRC report states that the forthcoming social services Bill is an opportunity to introduce an effective safeguarding system that also protects the human rights of disabled people. We recognise that some witnesses have concerns around these issues and that they should not result in measures that limit disabled people's independence while leaving hostile attitudes unchallenged and criminal behaviour unprosecuted. As a committee, we think that the development of the social services Bill should include discussions about

aml-asiantaeth ynghylch aflonyddu ar sail anabledd, gan fod tystiolaeth yn dangos eu bod yn ffordd effeithiol o ddod â phobl ynghyd i rannu arfer da.

Mater arall a godwyd, gan dystion ac yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, oedd pwysigrwydd dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Cafwyd barn bendant y bydd y rhain yn rhoi cyfle i sicrhau newid, yn enwedig wrth fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd. Fel pwyllgor, rydym yn rhannu'r farn honno. Teimlwn fod hyn yn gyfle i awdurdodau cyhoeddus roi blaenoriaeth uwch i aflonyddu ar sail anabledd ac i annog gweithio mewn partneriaeth. Ar ôl i'r dyletswyddau cydraddoldeb gael eu gweithredu, rydym yn bwriadu adolygu'n gyson yr effaith y maent yn ei chael er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. O ran y mater hwn, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fonitro sawl awdurdod cyhoeddus sydd wedi pennu aflonyddu ar sail anabledd yn amcan cydraddoldeb o dan y dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Dylid gwerthuso'r amcanion hyn ar sail eu canlyniadau, a dylid rhannu arfer da.

Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr argymhelliad hwn ac wedi ymrwmo i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i weld, i ddechrau, pa amcanion mae sefydliadau ledled Cymru wedi eu pennu. Rwyf hefyd yn falch y bydd y Comisiwn yn cael ei gynnwys wrth werthuso'r canlyniadau, a bod y Llywodraeth wedi ymrwmo i roi mecanweithiau ar waith i rannu arfer da drwy Gymru gyfan.

O ran diogelu ar sail hawliau, dywed adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bod y Bil gwasanaethau cymdeithasol sydd ar y gweill yn gyfle i gyflwyno system ddiogelu effeithiol sydd hefyd yn amddiffyn hawliau dynol pobl anabl. Rydym yn cydnabod bod gan rai tystion bryderon ynglŷn â'r materion hyn ac na ddylent arwain at fesurau sy'n cyfyngu ar annibyniaeth pobl anabl, heb herio agweddau gelyniaethus nac erlyn ymddygiad troseddol. Fel pwyllgor, rydym yn credu y dylai datblygu'r Bil gwasanaethau cymdeithasol

how human rights can be included in safeguarding measures without restricting disabled people's independence. We also feel that it is important that disabled people are consulted on any such approach. I am pleased that the Minister is committed to building on initial discussions of this issue and that her officials will be working across portfolios during the development of the social services Bill.

With regard to increasing reporting, another area raised by many witnesses in our committee was the under-reporting of disability-related harassment. We heard that this could be because of feelings of embarrassment, shame, lack of confidence, stress or, sadly, because people thought it just was not worth the effort of reporting it. Encouraging the reporting of harassment is vital. Early intervention can prevent incidents from becoming even more serious. Third-party reporting will play a central part in addressing this problem and increasing levels of reporting.

We heard a lot of evidence that disabled people and their families seemed more comfortable talking to independent third-party organisations. As a result, we have recommended that third-party reporting mechanisms should be co-ordinated to ensure that disabled people have consistent access to this important service across Wales. We also heard that recognising that behaviour is inappropriate and that something can be done is sometimes a problem for disabled people or their families. We think that the Welsh Government should address this issue and seek to raise awareness among disabled people and their families about disability-related harassment and the options available to them. We hope that this will help to increase levels of reporting. We recommend that the Welsh Government should issue guidance to local authorities and relevant agencies on data sharing, so that authorities can work together to recognise patterns of low-level harassment as early as possible. We hope that this will also feed in to the early intervention agenda.

Changing cultural attitudes towards disabled

gynnwys trafodaethau am sut y gall hawliau dynol gael eu cynnwys mewn mesurau diogelu heb gyfyngu ar annibyniaeth pobl anabl. Rydym hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig yr ymgynghorir â phobl anabl ynglŷn ag unrhyw ddull gwaith o'r fath. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi ymrwymo i adeiladu ar y trafodaethau cychwynnol ar y mater hwn ac y bydd ei swyddogion yn gweithio ar draws portffolios yn ystod cyfnod datblygu'r Bil gwasanaethau cymdeithasol.

O ran cynyddu'r achosion o adrodd, maes arall a godwyd gan lawer o dystion yn ein pwyllgor oedd y ffaith nad oes digon yn riportio aflonyddu ar sail anabled. Clywsom y gallai'r rhesymau am hyn gynnwys teimlo embaras, cywilydd, diffyg hyder, straen neu, yn anffodus, credu nad yw riportio aflonyddu yn werth yr ymdrech. Mae annog pobl i riportio aflonyddu yn hollbwysig. Gall ymyrraeth gynnar atal digwyddiadau rhag mynd hyd yn oed yn fwy difrifol. Bydd riportio i drydydd parti yn chwarae rhan ganolog wrth fynd i'r afael â'r broblem hon a chynyddu lefelau riportio.

Clywsom lawer o dystiolaeth fod pobl anabl a'u teuluoedd yn ymddangos yn fwy cyfforddus wrth siarad â sefydliadau trydydd parti annibynnol. O ganlyniad, rydym wedi argymhell y dylid cydlynu mecanweithiau riportio i drydydd parti, er mwyn sicrhau bod gan bobl anabl fynediad cyson at y gwasanaeth pwysig hwn ledled Cymru. Clywsom hefyd ei bod weithiau'n broblem i bobl anabl neu eu teuluoedd sylweddoli bod ymddygiad yn amhriodol a bod rhywbeth y gellir ei wneud amdano. Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn a cheisio codi ymwybyddiaeth ymysg pobl anabl a'u teuluoedd am aflonyddu ar sail anabled a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i gynyddu lefelau riportio. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ac asiantaethau perthnasol ynghylch rhannu data, fel y gall awdurdodau weithio gyda'i gilydd i adnabod patrymau o aflonyddu lefel isel cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cyfrannu hefyd at yr agenda ymyrraeth gynnar.

Newid agweddau diwylliannol tuag at bobl

people was the final area that we looked at. This is probably the area that could deliver the most benefits but it is also probably the most difficult to tackle. We heard a great deal of evidence about the negative depiction of disabled people in the media and the effects that this can have. Members will also be aware of reports from Mencap and others that disabled people have felt more threatened recently, as a result of negative coverage in the media of so-called benefits cheats. We know that the EHRC and others are engaging with the media on this issue and we would encourage them to continue to do so in order to educate members of the media about the impact of their coverage of disabled people.

That is not to say that there has not been progress. The third sector—charities such as the Royal British Legion, Combat Stress, Help for Heroes, the Soldiers, Sailors, Airmen and Families Association and others—are doing great work in communities across Wales. We also welcomed the announcement by the previous Minister for health of the creation by the Welsh Government of the all-Wales mental health and wellbeing service for veterans, and we applaud its purpose. We are also pleased with the UK Government's announcement to establish and fund the armed forces community covenant scheme to the tune of £30 million. Local government is now beginning to play its part, with the Vale of Glamorgan Council leading the way in Wales by appointing an armed forces champion, and taking advantage of the community covenant scheme to improve access to services for veterans and their families.

However, in spite of these developments, issues remain. Only last month, the British Medical Association told the Welsh Affairs Committee that mental health services for veterans across Wales are at best patchy, and that significant variations exist—echoing directly the words of the previous Minister for health. The Royal College of Nursing said that many veterans are not being signposted or referred to appropriate services, when they exist. The all-Wales mental health service for veterans has only recently been established in north Wales, for example, and the many agencies involved in supporting veterans in the region have been doing so independently of one another. This work has not been coordinated by the Welsh Government.

yn anghyson. Flwyddyn yn ddiweddarach, derbyniodd pob un o argymhellion y pwyllgor. Rhoddwyd gobaith i gyn-filwyr ac i aelodau'r lluoedd arfog a'u teuluoedd yng Nghymru y byddai gwasanaethau trin anhwylder straen wedi trawma yng Nghymru yn gwella yn gyflym. Ond, yn anffodus, er bod llawer wedi digwydd ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, mae angen gwelliannau o hyd.

Nid yw hynny'n golygu na fu datblygiadau. Mae'r trydydd sector—elusennau megis y Llang Brydeinig Frenhinol, Combat Stress, Help for Heroes, y Gymdeithas ar gyfer Milwyr, Morwyr, yr Awyrlu a'u Teuluoedd ac eraill—yn gwneud gwaith gwych mewn cymunedau ledled Cymru. Roeddem hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad gan y cyn Weinidog Iechyd y byddai Llywodraeth Cymru yn creu gwasanaeth iechyd meddwl a lles Cymru gyfan ar gyfer cyn-filwyr, ac rydym yn cymeradwyo ei bwrpas. Rydym hefyd yn falch bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod am sefydlu a darparu £30 miliwn o arian ar gyfer cynllun cyfamod cymunedol y lluoedd arfog. Mae llywodraeth leol yn awr yn dechrau chwarae ei rhan. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn arwain y ffordd yng Nghymru drwy benodi hyrwyddwr lluoedd arfog, ac yn manteisio ar y cynllun cyfamod cymunedol er mwyn gwella mynediad at wasanaethau ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Fodd bynnag, er gwaethaf y datblygiadau hyn, ceir problemau o hyd. Y mis diwethaf, dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain wrth y Pwyllgor Materion Cymreig fod gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cyn-filwyr ledled Cymru yn anghyson ar y gorau, a'u bod yn amrywio'n sylweddol—gan adleisio'n uniongyrchol eiriau'r cyn Weinidog Iechyd. Dywedodd Coleg Brenhinol y Nyrsys nad yw llawer o gyn-filwyr yn cael eu cyfeirio at wasanaethau priodol, pan fyddant yn bodoli. Dim ond yn ddiweddar y mae gwasanaeth iechyd meddwl Cymru gyfan ar gyfer cyn-filwyr wedi cael ei sefydlu yn y gogledd, er enghraifft, ac mae'r asiantaethau lu sy'n ymwneud â'r gwaith o gefnogi cyn-filwyr yn y rhanbarth wedi bod yn gwneud hynny'n annibynnol ar ei gilydd. Nid yw'r gwaith hwn wedi cael ei gydgyssylltu gan Llywodraeth Cymru.

There are also concerns about the capacity of the veterans mental health service to meet the rising demand that it will face in the future, and the financial challenge that this presents to the NHS at a time when it is facing the biggest cuts in its history, with over £0.5 billion being slashed from its budgets between now and 2015. Military activity in Iraq and Afghanistan has included roadside bombs, sniping and horrific suicide missions. It has been suggested that this activity could mean that Wales is sitting on a ticking time bomb of people who will emerge from these conflicts with PTSD. Indeed, Combat Stress has reported a 72% rise in support sought from it as a charity since 2005.

The committee report also indicated that communication and integration between voluntary groups and the NHS in particular was poor. That is why we believe that there is a need for more focused co-ordination by the Welsh Government on bringing organisations together to avoid duplication.

4.00 p.m.

I have attended recent multi-agency meetings in north Wales, for example, where individuals have made it clear that they have not been brought together by the Welsh Government to ensure that there are comprehensive services available for local veterans. However, I am pleased that the Minister for Communities and Local Government has recently recognised this and that he will be convening a meeting in the near future.

We also need to ensure that there is maximum awareness of services among those working on the front line. I have already mentioned the fact that the RCN has indicated that services are not being signposted or referred to because people are not aware that they exist. It is clear that health professionals and sufferers and their families are not always aware of the services that are available. The armed forces community covenant scheme could play a part in raising awareness and promoting these services, as could the armed forces

Ceir pryderon hefyd ynghylch gallu'r gwasanaeth iechyd meddwl i gyn-filwyr i gwrdd â'r galw cynyddol y bydd yn ei wynebu yn y dyfodol, a'r her ariannol y mae hyn yn ei roi i'r GIG ar adeg pan mae'n wynebu'r toriadau mwyaf yn ei hanes, gyda dros £0.5 biliwn yn cael ei dorri o'i gyllidebau rhwng nawr a 2015. Mae gweithgarwch milwrol yn Irac ac yn Affganistan wedi cynnwys bomiau ar ochr y ffordd, saethu ac ymgyrchoedd hunanladdiad erchyll. Awgrymwyd y gallai'r gweithgaredd hwn olygu bod Cymru yn eistedd ar fom sy'n tician, ac y bydd pobl yn dioddef anhwylder straen wedi trawma pan fyddant yn gadael y brwydrau hyn. Yn wir, yn ôl yr elusen Combat Stress, mae 72 y cant yn rhagor wedi ceisio cymorth ganddi er 2005.

Roedd adroddiad y pwyllgor hefyd yn dangos bod y lefelau cyfathrebu ac integreiddio rhwng grwpiau gwirfoddol a'r GIG yn arbennig yn wael. Dyna pam rydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru roi mwy o ffocws ar gydlyn i ddod â sefydliadau at ei gilydd er mwyn osgoi dyblygu.

Yn ddiweddar, rwyf wedi mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth yn y gogledd, er enghraifft, lle mae unigolion wedi dangos yn glir nad yw Llywodraeth Cymru wedi eu dwyn ynghyd i sicrhau bod gwasanaethau cynhwysfawr ar gael ar gyfer cyn-filwyr lleol. Fodd bynnag, rwyf yn falch bod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cydnabod hyn yn ddiweddar ac y bydd yn galw cyfarfod yn y dyfodol agos.

Mae angen inni sicrhau hefyd bod y rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael gymaint ag y bo modd. Rwyf eisoes wedi crybwyll y ffaith bod y Coleg Nyrsio Brenhinol wedi nodi nad yw pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau gan nad yw pobl yn ymwybodol eu bod yn bodoli. Mae'n amlwg nad yw gweithwyr iechyd proffesiynol a dioddefwyr a'u teuluoedd bob amser yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael. Gallai'r cynllun cyfamod cymunedol ar gyfer y lluoedd arfog chwarae rhan yn y gwaith o godi

champions in local government, but regrettably some of these so called 'champions' are nothing more than a title and are not taking seriously their role in trying to advance this cause. The role of local government, particularly in terms of housing and social service delivery, is important.

The British Medical Association has also acknowledged that

'many practitioners are still unaware of veterans' eligibility for NHS priority treatment'.

We know that the BMA has written to local medical committees to remind them of this priority treatment. We also know that the Welsh Government's medical director has similarly written to GPs in Wales asking them to flag up veterans on their systems so that they can be aware of the fact that priority treatment is available. The Minister and others in this Chamber will recall that in the recent Assembly election we fought for the introduction of an armed forces card, which would have raised awareness of the NHS priority treatment available for veterans, among other things. We believe, Minister, that you should give serious consideration to this simple, but effective proposal, which could help you to meet your policy objectives in terms of awareness.

Unfortunately, tragic stories in the news also produce a spike in awareness levels. However, it is clear that you cannot rely on those to ensure that those working in the NHS and social services are able to properly identify those at risk and signpost them in the direction of support.

The third sector has a huge role to play in the delivery of support and this should be strengthened and expanded. Combat Stress, for example, is doing some great work in establishing veteran-to-veteran support groups in some parts of Wales, but these are not available everywhere. Without financial support from the Welsh Government, Combat

ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r gwasanaethau hyn, yn yr un modd â hyrwyddwyr y lluoedd arfog mewn llywodraeth leol, ond yn anffodus nid yw rhai o'r 'hyrwyddwyr' hyn fel y'u gelwir yn ddim byd mwy na theitl ac nid ydynt yn cymryd eu swyddogaeth o ddifrif i geisio hybu'r achos hwn. Mae rôl llywodraeth leol yn bwysig, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau cymdeithasol a thai.

Mae Cymdeithas Feddygol Prydain wedi cydnabod hefyd bod

nifer o ymarferwyr nad ydynt yn ymwybodol o hyd bod cyn-filwyr yn gymwys i gael triniaeth flaenoriaethol gan y GIG.

Gwyddom fod Cymdeithas Feddygol Prydain wedi ysgrifennu at bwyllgorau meddygol lleol i'w hatgoffa am y driniaeth flaenoriaethol hon. Yn yr un modd, gwyddom fod cyfarwyddwr meddygol Llywodraeth Cymru hefyd wedi ysgrifennu at feddygon teulu yng Nghymru yn gofyn iddynt dynnu sylw cyn-filwyr sydd ar eu systemau er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r ffaith bod triniaeth flaenoriaethol ar gael. Bydd y Gweinidog ac eraill yn y Siambr hon yn cofio inni ymladd dros gyflwyno cerdyn lluoedd arfog yn etholiad diweddar y Cynulliad. Byddai hyn wedi codi ymwybyddiaeth o'r driniaeth flaenoriaethol sydd ar gael gan y GIG ar gyfer cyn-filwyr, ymhlith pethau eraill. Rydym yn credu, Weinidog, y dylech roi ystyriaeth ddyrys i'r cynnig syml ond effeithiol hwn, a allai eich helpu i gwrdd â'ch amcanion polisi o safbwynt ymwybyddiaeth.

Yn anffodus, mae straeon digalon yn y newyddion hefyd yn arwain at gynnydd sydyn yn y lefelau ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae'n amlwg na ellir dibynnu ar y rheini i sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol yn gallu adnabod yn briodol y rheini sydd mewn perygl a'u cyfeirio at gymorth.

Mae gan y trydydd sector rôl enfawr i'w chwarae o ran darparu cymorth, a dylai hyn gael ei gryfhau a'i ehangu. Mae Combat Stress, er enghraifft, yn gwneud gwaith gwyach i sefydlu grwpiau cymorth cyn-filwyr ar gyfer cyn-filwyr mewn rhai rhannau o Gymru, ond nid yw'r rhain ar gael ym mhob man. Heb gymorth ariannol gan Lywodraeth

Stress and other charities, such as Healing the Wounds, will not be able to continue the excellent work that they are doing. The Minister will be aware that Healing the Wounds, for example, is using new therapies, such as neurolinguistic programming, for veterans with PTSD and that has shown some promising results thus far. However, we need a fully funded pilot study and evaluation of these new therapies to see what they can offer more widely to veterans in Wales.

We also need to see proper consideration given to calls for a veteran-specific residential service in Wales. Help the Heroes and other charities have offered to come together to fund that if it gets the proper support from the Welsh Government. Perhaps you could give us an indication as to whether you support such a centre in your remarks in this debate, Minister.

In conclusion, I welcome the fact, Minister, that you instigated a review late last year by Healthcare Inspectorate Wales into armed forces healthcare in Wales, under the stewardship of Lieutenant Colonel John Skipper. However, this review is not specific to PTSD services and is not the definitive piece of follow-up work that we want to see as a result of the follow-up work on the Assembly report in 2007. We believe that we need to see a thorough review of these services, that there needs to be much wider awareness, and that you have to monitor progress more effectively and report back to this Chamber on a more regular basis about these services to ensure that people get them when they need them.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Ychwanegu is-bwynt 1c newydd: 'pwysigrwydd gwasanaethau arbenigol ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma'.

Gwelliant 2 Jane Hutt

Cymru, ni fydd Combat Stress nac elusennau eraill, megis Healing the Wounds, yn gallu parhau â'r gwaith rhagorol y maent yn ei wneud. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod yr elusen Healing the Wounds, er enghraifft, yn defnyddio therapïau newydd, megis rhaglennu niwroieithyddol, gyda chyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma, a bod hynny wedi dangos canlyniadau addawol hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae angen cynnal astudiaeth beilot wedi'i hariannu'n llawn a gwerthusiad o'r therapïau newydd hyn er mwyn gweld beth y gallant ei gynnig yn fwy eang i gyn-filwyr yng Nghymru.

Mae angen inni hefyd weld ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i alwadau am wasanaeth preswyl yn benodol ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru. Mae Help the Heroes ac elusennau eraill wedi cynnig dod at ei gilydd i ariannu hynny os bydd yn cael y gefnogaeth briodol gan Lywodraeth Cymru. Efallai y gallech roi syniad inni a ydych yn cefnogi canolfan o'r fath yn eich sylwadau yn y ddadl hon, Weinidog.

I gloi, rwyf yn croesawu'r ffaith, Weinidog, eich bod wedi dechrau adolygiad ddiweddd y llynedd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i ofal iechyd y lluoedd arfog yng Nghymru, o dan stiwardiaeth yr Is-gyrnol John Skipper. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiad hwn yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau anhwylder straen wedi trawma ac nid hwn yw'r darn terfynol o waith dilynol rydym am ei weld o ganlyniad i'r gwaith dilynol ar adroddiad y Cynulliad yn 2007. Rydym yn credu bod angen cynnal adolygiad trylwyr o'r gwasanaethau hyn, bod angen sicrhau ymwybyddiaeth llawer ehangach, a bod yn rhaid ichi fonitro datblygiadau yn fwy effeithiol ac adrodd yn ôl i'r Siambr hon yn fwy rheolaidd am y gwasanaethau hyn i sicrhau bod pobl yn eu cael pan mae eu hangen arnynt.

Amendment 1 Jane Hutt

Insert a new sub-point 1c 'the importance of specialist services for ex-service personnel suffering with post-traumatic stress disorder'.

Amendment 2 Jane Hutt

Dileu is-bwynt 2a.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move amendments 1 and 2 in the name of Jane Hutt.

Gwelliant 3 Peter Black

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod mwy o achosion o anhwylder straen wedi trawma ymysg cyn-bersonél y lluoedd arfog ac yn mynegi pryder ar ôl deng mlynedd o weithredu milwrol yn Affganistan a chwe blynedd o weithredu milwrol yn Irac bod nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma yn debyg o godi yn y dyfodol ac yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau mwy o gefnogaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma yn y dyfodol.

Eluned Parrott: I move amendment 3 in the name of Peter Black.

I thank the Welsh Conservatives for bringing this debate before us today. We all value the great sacrifices that our troops make in combat scenarios around the globe, and particularly currently in Afghanistan. The British armed forces rely very heavily on Welsh personnel, so it is right and proper that we in this Chamber put on record our thanks to them for those sacrifices. However, what is perhaps far more important is that we recognise the duty of care that we have for those individuals when they return home. For that reason in particular, I am very grateful to be able to contribute to this debate. I would also like to take the opportunity today to recognise the equally valued role of others who, through working to protect and care for the public, are also exposed to traumatic situations. Our emergency services also risk their lives for our society, so if we are looking at the treatment of post-traumatic stress disorder in Wales I do not believe it is right to single out one group of personnel as more deserving than another.

Darren Millar: I accept that very important

Delete sub-point 2a.

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigiaf welliannau 1 a 2 yn enw Jane Hutt.

Amendment 3 Peter Black

Add as new point at end of motion:

Notes the higher incidence of PTSD amongst ex-service personnel and expresses concern that after ten years of military operations in Afghanistan and six years of military operation in Iraq that incidences of PTSD are likely to rise in the future and calls on the government to ensure greater support for PTSD in future years.

Eluned Parrott: Cynigiaf welliant 3 yn enw Peter Black.

Diolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am ddod â'r ddatl hon ger ein bron heddiw. Mae pob un ohonom yn gwerthfawrogi aberth hynod ein milwyr mewn sefyllfaoedd o ymladd o amgylch y byd, ac yn enwedig ar hyn o bryd yn Affganistan. Mae lluoedd arfog Prydain yn dibynnu'n fawr iawn ar aelodau o Gymru, felly mae'n iawn ac yn briodol ein bod ni yn y Siambr hon yn cofnodi ein diolch iddynt am eu haberth. Fodd bynnag, yr hyn sydd efallai'n bwysicach o lawer yw ein bod yn cydnabod y ddyletswydd gofal sydd gennym tuag at yr unigolion hynny pan fyddant yn dychwelyd adref. Am y rheswm hwnnw yn benodol, rwyf yn ddiolchgar iawn fy mod yn gallu cyfrannu at y ddatl hon. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle heddiw i gydnabod rôl yr un mor werthfawr pobl eraill sydd, drwy weithio i warchod a gofalu am y cyhoedd, hefyd yn gorfod wynebu sefyllfaoedd trawmatig. Mae ein gwasanaethau brys hefyd yn peryglu eu bywydau er budd ein cymdeithas, felly os ydym yn edrych ar drin anhwylder straen wedi trawma yng Nghymru nid wyf yn credu ei bod yn iawn dweud bod un grŵp o aelodau'r lluoedd arfog yn fwy teilwng nag un arall.

Darren Millar: Rwyf yn derbyn y pwynt

point. Other people suffer from post-traumatic stress disorder. However, one thing that was absolutely clear when the Health, Wellbeing and Local Government Committee looked at this issue in the previous Assembly was that veterans often feel that they are unable to co-operate with services that are non-veteran-specific. That is why the focus of our debate is on ex-services personnel.

Eluned Parrott: Thank you, I am glad that you recognise that this is a problem that affects people in many walks of life. However, I think that it is important that we recognise that people in the emergency services are under the same sorts of pressure at times as those in our military services and that we need to ensure that all of those individuals have timely access to effective treatment and rehabilitation.

It is true that, due to the prolonged military activity that there has been over the past 10 years, there is a very strong likelihood that the incidence of PTSD and other mental health disorders associated with military service will increase. Figures from the Ministry of Defence indicate that cases of mental health disorders among services personnel have rocketed by nearly a third in the past year. Figures for the army also revealed that those who have been to Afghanistan were more than six times more likely to suffer from PTSD and more than three times more likely to report depression than services personnel working in other areas. That gives us all pause for thought.

After 10 years of Welsh troops being in continuous operations in Afghanistan, we are going to see an increase in the number of services personnel in Wales suffering from PTSD in the next decade. Part of the issue is that the disorder can take up to 10 years to manifest itself, so this is a time bomb for the future, not only an issue for the present. I am also very concerned that Wales does not currently have a residential facility for those

pwysig iawn hwnnw. Mae pobl eraill yn dioddef anhwylder straen wedi trawma. Fodd bynnag, un peth a oedd yn gwbl glir pan edrychodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar y mater hwn yn y Cynulliad blaenorol, oedd bod cyn-filwyr yn aml yn teimlo nad ydynt yn gallu cydweithio â gwasanaethau nad ydynt yn benodol ar gyfer cyn-filwyr. Dyna pam y mae ein dadl yn canolbwyntio ar gyn-aelodau'r lluoedd arfog.

Eluned Parrott: Diolch yn fawr, rwyf yn falch eich bod yn cydnabod bod hon yn broblem sy'n effeithio ar bobl o sawl gwahanol gefndir. Fodd bynnag, credaf ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod bod pobl yn y gwasanaethau brys o dan yr un math o bwysau ar adegau â'r rheini yn ein gwasanaethau milwrol a bod angen inni sicrhau bod yr holl unigolion hynny yn cael mynediad prydlon at driniaethau a gwasanaethau adsefydlu effeithiol.

Oherwydd y gweithgarwch milwrol hirfaith dros y 10 mlynedd diwethaf, mae'n wir ei bod yn debygol iawn y bydd nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma ac anhwylderau iechyd meddwl eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaeth milwrol yn cynyddu. Mae ffigurau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn dangos bod nifer yr achosion o anhwylderau iechyd meddwl ymhlith aelodau'r lluoedd arfog wedi neidio bron i draean yn ystod y flwyddyn diwethaf. Roedd ffigurau ar gyfer y fyddin hefyd yn dangos bod y rheini sydd wedi bod yn Affganistan yn fwy na chwe gwaith yn fwy tebygol o ddioddef anhwylder straen wedi trawma ac yn fwy na thair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef iselder nag aelodau o'r lluoedd sy'n gweithio mewn lleoedd eraill. Mae hynny'n rhoi rhywbeth i bob un ohonom feddwl amdano.

Ar ôl i luoedd Cymru fod yn Affganistan am 10 mlynedd yn ddi-dor, rydym yn mynd i weld cynnydd yn nifer aelodau'r lluoedd arfog yng Nghymru sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma yn ystod y degawd nesaf. Rhan o'r broblem yw y gall yr anhwylder gymryd hyd at 10 mlynedd i amlygu ei hun, felly mae hon yn fwm a fydd yn ffrwydro yn y dyfodol, ac nid mater ar gyfer y presennol yn unig ydyw. Rwyf hefyd yn bryderus iawn

suffering from the most extreme forms of post-traumatic stress disorder. Although I recognise that the clinical evidence shows that the majority of cases are very much better managed at home with support from specialist services, it is the case that some people will need residential care and that respite care will be needed to help families support those individuals. Currently, that cannot be provided in Wales. Therefore, I was very pleased to hear Darren Millar talk about Healing the Wounds, a charity based in Bridgend that, as I am sure the Minister knows, is hoping to establish such a residential centre in the Vale of Glamorgan, in my region.

Minister, I hope that you will agree to meet the charity to discuss positive ways in which the health service in Wales can work in partnership with the third sector to give our veterans, emergency services and, in fact, anyone in our society who needs it, a more flexible and comprehensive service than is currently available. It already happens in other areas, such as cancer care, through organisations such as Macmillan, and I hope that we can look at this in a positive way in future.

Finally, I would like to note the launch yesterday of the Time to Change Wales campaign by Mind Cymru, Hafal and Gofal. The campaign aims to end the stigmatisation of those with mental health problems, including post-traumatic stress disorder, and it is another important example of how the third sector can make a real impact on our society when it gets the support that it needs from the Welsh Government. I thank the Minister for her support for that project. We need to remember that it is a great source of additional pain to people who are suffering—really suffering—from mental health problems when they face a society that treats them with suspicion, hostility and even aggression. This is yet another example of ways in which we can all help to make our society a better place to care for people with mental health problems.

nad oes gan Gymru, ar hyn o bryd, gyfleuster preswyl ar gyfer y rheini sy'n dioddef o'r mathau mwyaf eithafol o anhwylder straen wedi trawma. Er fy mod yn cydnabod bod y dystiolaeth glinigol yn dangos bod y rhan fwyaf o achosion yn cael eu rheoli'n well o lawer yn y cartref gyda chymorth gan wasanaethau arbenigol, mae'n wir y bydd angen gofal preswyl ar ambell un ac y bydd angen gofal seibiant er mwyn helpu teuluoedd i gefnogi'r unigolion hynny. Ar hyn o bryd, nid oes modd darparu hyn yng Nghymru. Felly, roeddwn yn falch iawn o glywed Darren Millar yn sôn am Healing the Wounds, sef elusen ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r elusen hon, fel yr wyf yn siŵr y gŵyr y Gweinidog, yn gobeithio sefydlu canolfan breswyl o'r fath ym Mro Morgannwg, yn fy rhanbarth.

Weinidog, rwyf yn gobeithio y byddwch yn cytuno i gwrdd â'r elusen i drafod ffyrdd cadarnhaol y gall y gwasanaeth iechyd yng Nghymru weithio ar y cyd â'r trydydd sector i gynnig gwasanaeth mwy hyblyg a chynhwysfawr na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i'n cyn-filwyr, i'n gwasanaethau brys ac, yn wir, i unrhyw un yn ein cymdeithas sydd angen y gwasanaeth hwnnw. Mae hynny eisoes yn digwydd mewn meysydd eraill, megis gofal canser, drwy sefydliadau fel Macmillan, ac rwyf yn gobeithio y gallwn edrych ar hyn mewn ffordd gadarnhaol yn y dyfodol.

Yn olaf, hoffwn sôn am yr ymgyrch Amser i Newid Cymru gan Mind Cymru, Hafal a Gofal a lansiwyd ddoe. Nod yr ymgyrch yw rhoi terfyn ar stigmatiddio'r rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys pobl sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma, ac mae'n enghraifft bwysig arall o sut y gall y trydydd sector gael effaith wirioneddol ar ein cymdeithas pan fydd yn cael y cymorth angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru. Diolch i'r Gweinidog am gefnogi'r prosiect hwnnw. Mae angen inni gofio ei bod yn boen ychwanegol i bobl sy'n dioddef—yn dioddef go iawn—o broblemau iechyd meddwl, pan fyddant yn wynebu cymdeithas sy'n ymddwyn yn ddrwgdybus, yn elyniaethus neu'n ymosodol hyd yn oed tuag atynt. Mae hon yn enghraifft arall eto o ffyrdd y gall pob un ohonom helpu i wneud ein cymdeithas yn lle gwell i ofalu am bobl â

phroblemau iechyd meddwl.

Mark Isherwood: The Welsh Government's failure to recognise the inadequacy of services for ex-services personnel suffering from post-traumatic stress disorder is, I fear, an act of betrayal. Last week, I was copied third-hand into an e-mail sent to the probation service by Betsi Cadwaladr University Local Health Board, announcing the launch of the All Wales Veterans Health and Wellbeing Service in north Wales, adding that the service is funded by the Welsh Government following the finding that veterans are susceptible to PTSD, depression and substance misuse. Therefore, why did the Minister for Health and Social Services reply last week to my written question on what assessment the Minister has made of the physical or mental health needs of armed forces personnel returning from duty by stating that:

'This is a non-devolved matter. The MOD provides physical and mental health care for all Armed Forces personnel, including those returning from active duty'?

Why did the Minister for Local Government and Communities reply on Monday to my written question on what details the Welsh Government has on the numbers of ex-forces personnel returning home or coming to Wales by stating that:

'The Welsh Government does not hold that information'?

Without information on the increasing number of ex-forces personnel returning home to Wales and on the sort of ongoing physical and mental health needs that they have, the Welsh Government is planning services for ex-forces personnel in a vacuum.

Further, as Steven Hughes, regimental medical officer of the second battalion of the parachute regiment, veteran of the battles of

Mark Isherwood: Rwyf yn ofni bod methiant Llywodraeth Cymru i gydnabod annigonolrwydd y gwasanaethau ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma yn frad. Yr wythnos diwethaf, cefais gopi o neges e-bost a anfonwyd i'r gwasanaeth prawf gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cyhoeddi lansio'r Gwasanaeth Iechyd a Lles Cymru gyfan ar gyfer Cyn-filwyr yn y gogledd, gan ychwanegu bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ar ôl canfod bod cyn-filwyr yn agored i anhwylder straen wedi trawma, iselder a chamddefnyddio sylweddau. Felly, pam y gwnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yr wythnos diwethaf, ateb fy nghwestiwn ysgrifenedig ynglŷn â pha asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud ynghylch anghenion iechyd corfforol neu feddyliol aelodau'r lluoedd arfog sy'n dychwelyd o ddyletswydd drwy ddweud:

Mae hwn yn fater nad yw wedi'i ddatganoli. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn darparu gofal iechyd corfforol a meddyliol ar gyfer holl aelodau'r Lluoedd Arfog, gan gynnwys y rheini sy'n dychwelyd o ddyletswydd weithredol?

Pam y gwnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ateb fy nghwestiwn ysgrifenedig ddydd Llun ynghylch pa fanylion sydd gan Lywodraeth Cymru ar nifer cyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dychwelyd adref neu'n dod i Gymru drwy ddweud:

Nid yw Llywodraeth Cymru yn meddu ar y wybodaeth honno?

Heb wybodaeth am y nifer cynyddol o gyn-aelodau'r lluoedd arfog sy'n dychwelyd adref i Gymru ac am y mathau o anghenion iechyd corfforol a meddyliol parhaus sydd ganddynt, nid oes gan Lywodraeth Cymru sail ar gyfer cynllunio gwasanaethau ar gyfer cyn-aelodau'r lluoedd arfog.

Ar ben hynny, mae Steven Hughes, swyddog meddygol catrodol ail fataliwn y catrawd parasiwtio, cyn-filwr a fu'n rhan o frwydrau

Goose Green and Wireless Ridge in the Falkland islands in 1982 and director of front-line resuscitation at the Bluff Cove disaster, has said:

‘If conventional Mental Health Services were so comprehensive there would not be such a high veteran rate of suicide, high prison population, and large number of veterans sleeping rough.’

As the Welsh Government has failed to listen, the growing gaps in provision have to be filled by others, with inadequate recognition and resource. As the Welsh charity, Healing the Wounds, states:

‘We have received many referrals from GPs, social services and probation officers and have also treated a large number of Veterans who have already visited Combat Stress on a number of occasions, who have either received treatment that was unsuccessful or have received no treatment whatsoever during their stay.’

Healing the Wounds adds that Welsh Guardsman, Lance Sergeant Dan Collins, tragically and unnecessarily took his own life on new year’s day. He desperately sought help for his post-traumatic stress, first through the MOD’s medical assessment programme and, afterwards, through being referred to an NHS mental health ward, where he spent four weeks without being treated with anything other than various medications. That is just one tragic incident resulting from the inadequate services within Wales, the charity told me this week.

Operation Recovery is delivering residential treatment in Leicester after every previous attempt to secure Welsh Government help for residential treatment for complex PTSD failed. Operation Recovery and Healing the Wounds have now agreed to support each other to offer a full biopsychosocial model of care. They are surprised that the Welsh NHS is continuing to promote a narrow window of treatment through limited interventions across Wales.

Goose Green a Wireless Ridge yn nynysoedd Falkland ym 1982, a chyfarwyddwr dadebru'r rheng flaen yn nhrychineb Bluff Cove, wedi dweud:

Pe bai'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl confensiynol yn ddigon cynhwysfawr, ni fyddai'r gyfradd hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr mor uchel, ni fyddai poblogaeth y carchardai mor uchel, ac ni fyddai nifer mawr o gyn-filwyr yn cysgu ar y stryd.

Gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwrandao, rhaid i eraill lenwi'r bylchau cynyddol mewn darpariaeth, a hynny heb ddigon o adnoddau na chydabyddiaeth. Fel y mae Healing the Wounds, yr elusen o Gymru, yn datgan:

Rydym wedi derbyn nifer o atgyfeiriadau gan feddygon teulu, gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion prawf, a hefyd wedi trin nifer helaeth o gyn-filwyr sydd eisoes wedi ymweld â Combat Stress ar sawl achlysur, sydd naill ai wedi cael triniaeth aflwyddiannus neu heb gael triniaeth o gwbl yn ystod eu harhosiad.

Mae Healing the Wounds yn ychwanegu bod yr Is-ringyll Dan Collins, aelod o'r Gwarchodlu Cymreig, wedi lladd ei hun ddydd calan, mewn sefyllfa drasig a diangen. Bu'n gofyn yn daer am gymorth ar gyfer ei anhwylder straen wedi trawma, yn gyntaf drwy raglen asesiadau meddygol y Weinyddiaeth Amddiffyn ac yna ar ôl cael ei gyfeirio at ward iechyd meddwl dan ofal y GIG, lle y treuliodd bedair wythnos heb gael ei drin â dim heblaw gwahanol feddyginiaethau. Dywedodd yr elusen wrthyf yr wythnos hon mai dim ond un digwyddiad trasig yw hwnnw sy'n deillio o'r gwasanaethau annigonol yng Nghymru.

Mae Operation Recovery yn darparu triniaeth breswyl yng Nghaerlŷr ar ôl methiant pob ymgais flaenorol i sicrhau cymorth Llywodraeth Cymru i gynnig triniaeth breswyl ar gyfer anhwylder straen cymhleth wedi trawma. Erbyn hyn, mae Operation Recovery a Healing the Wounds wedi cytuno i gefnogi ei gilydd i gynnig model gofal bioseicogymdeithasol llawn. Maent yn synnu bod GIG Cymru yn parhau i hyrwyddo nifer bach o driniaethau drwy ymyriadau

cyfyngedig ar draws Cymru.

Why are veterans' organisations on the ground not being supported or recognised by the Welsh Government for their excellent work, which can demonstrate results? Control stays with the NHS. The recommendations of the PTSD inquiry have not been followed through. Funding and control remains at the top, with strict criteria, leaving a lot of veterans unable to gain treatment. Clients with co-morbid substance misuse are denied access. It is scandalous that the most unwell do not get the treatment they need, unless picked up by other providers. As Operation Recovery states:

'It is too easy to say that current services meet their needs. It is clear from the people that are referred to us or that we find in crisis that there is a need.'

National Institute for Health and Clinical Excellence guidelines state that, in order to treat PTSD, a person-centred approach is needed that fits the client, and it recommends cognitive behavioural therapy or eye movement desensitisation and reprocessing only as options. No one therapy fits all, given the complexity of treating PTSD. Treatment must meet the complex needs of each individual. Although not approved by NICE, neurolinguistic programming therapy is used within the NHS as an effective treatment for its healthcare professionals.

The Welsh Government should therefore be assessing the outcomes of treatment provided by the likes of Healing the Wounds, Operation Recovery and Quantum Performance's change programme to build up an evidence base on the effectiveness of the treatments that need to be provided. Only then will justice be served.

Pam nad yw sefydliadau cyn-filwyr ar lawr gwlad yn cael cefnogaeth na chydabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru am eu gwaith rhagorol, sy'n gallu dangos canlyniadau? Mae'r broses reoli yn aros yn nwylo'r GIG. Nid yw argymhellion yr ymchwiliad i anhwylder straen wedi trawma wedi cael eu dilyn i'r pen. Mae'r prosesau ariannu a rheoli yn parhau ar y pen uchaf, gyda meini prawf llym, sy'n golygu nad yw llawer o gyn-filwyr yn gallu cael triniaeth. Gwrthodir mynediad i gleientiaid pan mae problemau camddefnyddio sylweddau yn cyd-ddigwydd â hyn. Mae'n warthus nad yw'r rhai gwaelaf yn cael y driniaeth y mae ei hangen arnynt, oni bai mai darparwyr eraill sy'n gweld yr angen am hynny. Fel y dywed Operation Recovery:

Mae'n rhy hawdd dweud bod y gwasanaethau presennol yn diwallu eu hanghenion. O edrych ar y bobl sy'n cael eu cyfeirio atom neu'r rhai y byddwn yn eu canfod mewn argyfwng, mae'n amlwg bod angen yn bodoli.

Yn ôl canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, er mwyn trin anhwylder straen wedi trawma, mae angen sicrhau ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n addas ar gyfer y cleient. Mae'n argymhell therapi gwybyddol ymddygiadol neu ddadsensiteiddio ac ailbroseu symudiad llygad fel opsiynau'n unig. Nid oes un therapi sy'n addas i bawb, o ystyried pa mor gymhleth yw trin anhwylder straen wedi trawma. Rhaid i'r driniaeth fodloni anghenion cymhleth pob unigolyn. Er nad yw'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yn cymeradwyo hynny, mae therapi rhaglennu niwoieithyddol yn cael ei defnyddio yn y GIG fel triniaeth effeithiol ar gyfer ei weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Dylai Llywodraeth Cymru felly fod yn asesu canlyniadau'r driniaeth a ddarperir gan elusennau fel Healing the Wounds, Operation Recovery a rhaglen newidiadau Quantum Performance er mwyn datblygu sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd y triniaethau y mae angen eu darparu. Dim ond wedyn y ceir cyfiawnder.

Lindsay Whittle: I am proud to speak in this debate on behalf of Plaid Cymru. We support amendments 1 and 3, but not amendment 2. We should acknowledge that there are some inadequacies in the services for those suffering from PTSD; that is glaringly obvious. However, if the amendment is agreed, we will certainly monitor it.

4.15 p.m.

I feel qualified to speak in this debate because, as Members know, I was one of the few Welsh politicians to spend five days in Afghanistan with our full-time troops and reservists—I am not sure whether I am the only Welsh politician to have done so, but that is not important. I was able to experience at first hand some of the issues that affect our troops. If you have ever travelled in a convoy that is threatened by a suicide car bomber, trust me, you will know the meaning of fear. That is the stress. While I experienced that, the heat and the cold, and lived in the same conditions as our service personnel, I never experienced the living hell that is the front line. Again, that is the stress. One of the saddest moments was attending a memorial service for a young Scotsman who had lost his life the day before and listening to the emotional tributes paid to him by his friends. They then had to leave on a dangerous patrol, not knowing whether they would be the next to be killed. Sitting here comfortably, we will never know what affect that will have on people's minds. That is the stress.

We know that 0.25 million veterans live in Wales, and the health service will have to deal with this for the next 20 years or more. It can take 13 to 14 years for PTSD to materialise. We at least need a short-term residential treatment centre now. There is one in Northern Ireland, one in Scotland and two in England, which will soon rise to three. There is no justification for Wales having none. These centres are successful in many cases and that view is endorsed by the Ministry of Defence. A group on veterans in the criminal justice system has been established by the London Parliament; I

Lindsay Whittle: Rwyf yn falch o siarad yn y ddadl hon ar ran Plaid Cymru. Rydym yn cefnogi gwelliannau 1 a 3, ond nid gwelliant 2. Dylem gydnabod y ceir rhai diffygion yn y gwasanaethau ar gyfer y rheini sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma; mae hynny'n gwbl amlwg. Fodd bynnag, os cytunir ar y gwelliant, byddwn yn sicr yn ei fonitro.

Rwyf yn teimlo'n gymwys i siarad yn y ddadl hon oherwydd, fel y gŵyr yr Aelodau, roeddwn yn un o'r ychydig wleidyddion o Gymru a dreuliodd bum niwrnod yn Affganistan gyda'n lluoedd amser llawn ac wrth gefn—nid wyf yn siŵr ai fi yw'r unig wleidydd o Gymru i wneud hynny, ond nid yw hynny'n bwysig. Cefais gyfle i gael gweld â'm llygaid fy hun rai o'r materion sy'n effeithio ar ein lluoedd. Os ydych chi erioed wedi teithio mewn confoi sy'n cael ei fygwth gan hunanfomiwr mewn car, credwch chi fi, byddwch yn gwybod beth yw ystyr ofn. Dyna yw straen. Er fy mod wedi cael profiad o hynny, y gwres a'r oerni, a byw yn yr un amodau ag aelodau ein lluoedd arfog, ni brofais yr uffern ar y ddaear ar y rheng flaen. Unwaith eto, dyna yw'r straen. Un o'r adegau mwyaf trist oedd mynd i wasanaeth coffa Albanwr ifanc a oedd wedi colli ei fywyd y diwrnod cynt, a gwrando ar y teyrngedau emosiynol a roddwyd iddo gan ei ffrindiau. Roedd yn rhaid iddynt wedyn fynd ar batrôl peryglus, heb wybod ai hwy fyddai'r nesaf i gael eu lladd. Wrth inni eistedd yma'n gyfforddus, ni fyddwn byth yn gwybod pa effaith a gaiff hynny ar feddyliau pobl. Dyna yw straen.

Rydym yn gwybod bod 0.25 miliwn o gyn-filwyr yn byw yng Nghymru, a bydd y gwasanaeth iechyd yn gorfod ymdopi â hyn am yr 20 mlynedd nesaf neu ragor. Gall gymryd 13 i 14 mlynedd i anhwylder straen wedi trawma ymddangos. Mae angen inni gael canolfan driniaeth breswyl yn y tymor byr o leiaf, a hynny'n awr. Ceir un ganolfan yng Ngogledd Iwerddon, un yn yr Alban a dwy yn Lloegr, a bydd y ffigur hwnnw'n newid yn dri yn fuan. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros beidio â chael canolfan yng Nghymru. Mae'r canolfannau hyn yn llwyddiannus mewn llawer o achosion, ac

would like to see something similar in Wales.

Plaid Cymru supports those initiatives and offers these: a mandatory mental health assessment as part of the discharge procedure; specialist support officers undertaking regular check-ups to offer advice and support; initiatives to further tackle substance misuse and the drinking culture; and, surprisingly, although it is not a devolved matter, a Minister who takes responsibility for the armed forces in Wales. I was lobbied this week by the College of Occupational Therapists in Wales, which spoke of progressive training, learning new strategies—

Andrew R.T. Davies: Will you take an intervention?

Lindsay Whittle: No, I am sorry, Andrew; I have too much that I want to say. It also spoke of stabilising the symptoms of PTSD and modified care strategies so as not to inadvertently trigger hypersensitivity patterns, disassociation, flooding and, most importantly, flashbacks. There is much more, but I do not have the time to discuss it, sadly.

I have had one example from a constituent this week of a loving, loyal father and husband who returned on leave from Afghanistan. He had changed totally and refused to live with his family, and the Ministry of Defence's response was to send him back to Afghanistan for a further six months. We know that the Welsh health budgets are struggling, but public opinion is on the side of these servicepeople. Most people agree that they deserve our money. If you were present at the Wales-Scotland rugby match last week, you will have witnessed the ovation for the troops when they did a lap of honour. It was far greater than for any of the Welsh tries. I am pleased, to be fair to Lesley Griffiths, our Minister, that she has responded positively to my

mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cefnogi'r farn honno. Mae grŵp ar gyn-filwyr yn y system cyfiawnder troseddol wedi cael ei sefydlu gan Senedd Llundain; hoffwn weld rhywbeth tebyg yng Nghymru.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r cynlluniau hynny ac yn cynnig y rhain: asesiad iechyd meddwl gorfodol fel rhan o'r weithdrefn rhyddhau; swyddogion cymorth arbenigol i gynnal archwiliadau rheolaidd ac i gynnig cyngor a chefnogaeth; cynlluniau i fynd i'r afael eto â chamddefnyddio sylweddau a'r diwylliant yfed; ac, er syndod, er nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, Gweinidog sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y lluoedd arfog yng Nghymru. Cefais fy lobio yr wythnos hon gan Goleg y Therapyddion Galwedigaethol yng Nghymru, a oedd yn sôn am hyfforddiant blaengar, dysgu strategaethau newydd—

Andrew R.T. Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Lindsay Whittle: Na, mae'n flin gennyf, Andrew; mae gennyf ormod i'w ddweud. Soniodd hefyd am sefydlogi symptomau anhwylder straen wedi trawma a strategaethau gofal wedi'u haddasu fel nad ydynt yn anfwriadol yn sbarduno patrymau gorsensitifrwydd, datgysylltiad, ailgreu pryderon ac, yn bwysicaf oll, ôl-fflachiadau. Mae llawer mwy i'w ddweud, ond nid oes gennyf amser i drafod y materion, yn anffodus.

Yr wythnos hon, rwyf wedi cael enghraifft gan etholwr o dad a gŵr cariadus a ffyddlon a oedd wedi dychwelyd adref am gyfnod o Affganistan. Roedd wedi newid yn llwyr ac yn gwrthod byw gyda'i deulu. Ymateb y Weinyddiaeth Amddiffyn oedd ei anfon yn ôl i Affganistan am chwe mis arall. Rydym yn gwybod bod cyllidebau iechyd Cymru o dan straen, ond mae'r cyhoedd ar ochr y rheini sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno eu bod yn haeddu ein harian. Os oeddech yn bresennol yn y gêm rygbi rhwng Cymru a'r Alban yr wythnos diwethaf, byddech wedi gweld y gymeradwyaeth a gafodd y milwyr wrth iddynt gerdded o amgylch y cae pan oedd hi'n hanner amser. Roedd y gymeradwyaeth yn uwch o lawer na'r gymeradwyaeth a

previous questions in the Chamber about working closely with voluntary organisations, but, more importantly, she responded positively about pressing the MOD to start honouring its duty of care to veterans and to start putting its budget into action. Fair play, Minister, you are doing things.

Whether you approve of war or not, and I do not, we have a public duty to care for these veterans and troops. They are our people and our families. They are from our towns, villages, cities and communities. They are from our country. It is about time, with respect, that the talking stopped. More importantly, it is about time that we started to spend our money on bringing our people back into our communities, out of the jails, hospitals, hostels and their living hell and back home, back where they belong. That is our duty as politicians. I finished sooner than I thought I would.

Byron Davies: I very much wanted to take part in today's debate, and I am very proud that it is on a Welsh Conservative-tabled motion. I am also very proud of being a parent who has a son who is a serving army officer who has served on the front line in Afghanistan. As parents, we know at first hand of the worries, concerns and stress caused by being part of a military family, let alone serving on active duty. We saw a young man leave and come back with much anecdotal evidence about PTSD, which, fortunately, he managed to avoid, but I feel that that was perhaps because he came from a very close family and was catered for by a very close family environment.

Post-traumatic stress disorder is a psychological and physical condition that can be caused by extremely frightening or distressing events. It can occur after exposure

roddwyd ar gyfer unrhyw un o geisiau tîm Cymru. A bod yn deg â Lesley Griffiths, ein Gweinidog, rwyf yn falch ei bod wedi ymateb yn gadarnhaol i'm cwestiynau blaenorol yn y Siambr ynglŷn â gweithio'n agos gyda mudiadau gwirfoddol. Fodd bynnag, yn bwysicach na hynny, ymatebodd yn gadarnhaol ynghylch pwysu ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i ddechrau anrhydeddu ei ddyletswydd gofal i gyn-filwyr a dechrau rhoi ei chyllideb ar waith. Chwarae teg, Weinidog, rydych yn gwneud pethau.

P'un ai a ydych yn cymeradwyo rhyfel ai peidio, ac nid wyf fi'n gwneud hynny, mae gennym ddyletswydd gyhoeddus i ofalu am y cyn-filwyr a'r lluoedd hyn. Ein pobl a'n teuluoedd ydynt. Maent yn dod o'n trefi, ein pentrefi, ein dinasoedd a'n cymunedau. Maent yn dod o'n gwlad. Gyda phob dyledus barch, mae'n hen bryd i'r siarad ddod i ben. Yn bwysicach byth, mae'n hen bryd inni ddechrau gwario ein harian ar ddod â'n pobl yn ôl i'n cymunedau, allan o'r carchardai, yr ysbytai a'r hosteli a'u huffern ar y ddaear, ac yn ôl adref, yn ôl i lle y maent yn perthyn. Dyna yw ein dyletswydd fel gwleidyddion. Rwyf wedi gorffen yn gynt nag yr oeddwn wedi'i feddwl.

Ym mis Tachwedd 2011, cawsom ganlyniadau prosiect ymchwil a oedd yn asesu anghenion cyn-filwyr. Nod hyn yw bod yn sail i'r gwasanaeth a ddarperir drwy ymchwilio i anghenion iechyd, anghenion

veterans by drawing comparisons between them and the general population. The findings suggest that veterans themselves have issues in recognising their mental health problems, that there is a need for enhancement of informal support networks, and that specific community mental health services need to be fully integrated with other veteran and non-veteran-focused services. I also want to pay tribute to our LHB armed forces and veterans champions. These committed individuals have an important role in advocating for the healthcare needs of this community.

Turning to the motion, I accept points 1(a) and 1(b). Our commitment is evident in our actions and our commitments for veterans in our programme for government. I accept point 2(a), although I propose amending it to recognise that our groundbreaking, evidence-based, all-Wales, mental health and wellbeing service is unique in the UK, that it is headed by an internationally renowned expert and that it has grown out of a pilot scheme that has demonstrated its worth. This also links to the Welsh Government's second proposed amendment. I accept point 2(b), although I point out that Healthcare Inspectorate Wales is already undertaking a review of provision to serving personnel, their families, and veterans. That includes PTSD services. I will consider the results when its report is published. I have written to Mark Drakeford, as the current Chair of the Health and Social Care Committee, outlining the progress in implementing the recommendations of the 2011 PTSD report of the previous Assembly's Health, Wellbeing and Local Government Committee.

4.45 p.m.

I am content to accept Peter Black's amendment noting that review and evaluation is central to our work. We expect the first such review of provision to occur during 2013-14.

canfyddedig, a'r modd y mae cyn-filwyr yn defnyddio gwasanaethau iechyd drwy eu cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cyn-filwyr eu hunain yn ei chael yn anodd adnabod eu problemau iechyd meddwl, fod angen gwella'r rhwydweithiau cefnogi anffurfiol, a bod angen integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl penodol yn y gymuned yn llawn â gwasanaethau eraill sy'n canolbwyntio ar gyn-filwyr neu nad ydynt yn canolbwyntio ar gyn-filwyr. Hoffwn hefyd roi teyrnged i hyrwyddwyr cyn-filwyr a'r lluoedd arfog yn ein Byrddau Iechyd Lleol. Mae gan yr unigolion ymroddedig hyn rôl bwysig yn eiriol ar gyfer anghenion gofal iechyd y gymuned hon.

Gan droi at y cynnig, rwyf yn derbyn pwyntiau 1 (a) ac 1(b). Mae ein hymrwymiad yn amlwg yn ein gweithredoedd ac y neid hymrwymiaidau i gyn-filwyr yn ein rhaglen lywodraethu. Rwyf yn derbyn pwynt 2(a), er fy mod yn cynnig ei ddiwygio er mwyn cydnabod bod ein gwasanaeth iechyd meddwl a lles Cymru gyfan, sy'n arloesol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn unigryw yn y DU, yn cael ei arwain gan arbenigwr o fri rhyngwladol ac wedi tyfu o gynllun peilot sydd wedi dangos ei werth. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r ail welliant sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. Rwyf yn derbyn pwynt 2 (b), er fy mod am nodi bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru eisoes yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog, eu teuluoedd, a chyn-filwyr. Mae hynny'n cynnwys gwasanaethau anhwylder straen wedi trawma. Byddaf yn ystyried y canlyniadau pan fydd ei adroddiad wedi ei gyhoeddi. Rwyf wedi ysgrifennu at Mark Drakeford, Cadeirydd presennol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan amlinellu'r datblygiadau o ran gweithredu argymhellion adroddiad anhwylder straen wedi trawma 2011 Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad blaenorol.

Rwyf yn fodlon derbyn gwelliant Peter Black gan nodi bod adolygu a gwerthuso yn ganolog i'n gwaith. Rydym yn disgwyl y bydd yr adolygiad o ddarpariaeth cyntaf o'i fath yn digwydd yn ystod 2013-14.

I am proud of what this Government has done to support our veterans, although, as I have said, we need to do more. That is why I have written to local health boards asking them to confirm their commitment to our veterans and to demonstrate to me what action they have taken. I have asked them to report back to me by the end of next month.

Over the coming year my priorities will be to address the findings of the veterans needs assessment research, put in place a pathway to care for veterans suffering mental health problems and who find themselves in the criminal justice system, and strengthen the role and remit of the LHB armed forces and veterans' champions.

Suzy Davies: First, I thank everyone who has taken part in this debate. We would all like to acknowledge the great service of all of our servicemen and servicewomen—not just now, but over many years. Byron Davies and Lindsay Whittle talked about their close experience of people working in the arena of warfare, and some of us here have friends who remember the Falklands with less than happy memories.

Minister, you said that the system is not perfect but that things have improved, and I think that we would all like to acknowledge the existence of the all-Wales veterans mental health service. Mick Antoniw was right to say that proper support can be very complex. The fact that we now have mental health specialists is to be welcomed, but the fact that it took 18 months for them to be introduced following the announcement of the service is perhaps a little disappointing. It has been said today, of course, that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board's launch was perhaps a little later than many of us would have liked. However, we acknowledge that there have been steps forward.

We also acknowledge that servicemen and

Rwyf yn falch o'r hyn y mae'r Llywodraeth hon wedi ei wneud i gefnogi ein cyn-filwyr, er, fel y dywedais, mae angen inni wneud mwy. Dyna pam yr wyf wedi ysgrifennu i fyrddau iechyd lleol yn gofyn iddynt gadarnhau eu hymrwymiad i'n cyn-filwyr ac i ddangos imi pa gamau y maent wedi'u cymryd. Rwyf wedi gofyn iddynt adrodd yn ôl imi erbyn diwedd y mis nesaf.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, fy mlaenoriaethau fydd mynd i'r afael â chanfyddiadau'r gwaith ymchwil i asesu anghenion cyn-filwyr, sefydlu llwybr gofal ar gyfer cyn-filwyr sy'n dioddef problemau iechyd meddwl ac sy'n canfod eu hunain yn y system cyfiawnder troseddol, a chryfhau rôl a chylch gwaith hyrwyddwyr lluoedd arfog a chyn-filwyr y Byrddau Iechyd Lleol.

Suzy Davies: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl hon. Byddai pob un ohonom yn hoffi cydnabod gwasanaeth gwych yr holl ddynion a menywod sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog heddiw a'r rhai sydd wedi gwneud hynny dros flynyddoedd lawer. Soniodd Byron Davies a Lindsay Whittle am eu profiadau agos o bobl sy'n gweithio yn y maes rhyfela, ac mae gan rai ohonom yma ffrindiau sy'n cofio'r Falklands gydag atgofion sy'n bell o fod yn rhai hapus.

Weinidog, dywedasoeh nad yw'r system yn berffaith, ond fod pethau wedi gwella, a chredaf y byddai pob un ohonom yn hoffi cydnabod bodolaeth gwasanaeth iechyd meddwl Cymru gyfan ar gyfer cyn-filwyr. Roedd Mick Antoniw yn gywir wrth ddweud y gall cymorth go iawn fod yn gymhleth tu hwnt. Mae'r ffaith bod gennym bellach arbenigwyr iechyd meddwl yn rhywbeth i'w groesawu, ond mae'r ffaith ei bod wedi cymryd 18 mis iddynt gael eu cyflwyno yn dilyn cyhoeddiad y gwasanaeth braidd yn siomedig efallai. Dywedwyd heddiw, wrth gwrs, fod lansiad Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi digwydd ychydig yn hwyrach efallai na'r hyn y byddai nifer ohonom wedi ei hoffi. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod camau wedi cael eu cymryd.

Rydym hefyd yn cydnabod bod gan ddynion

servicewomen are entitled to priority treatment, but we must recognise that that has to be imaginatively funded. A number of Members, including Antoinette Sandbach, have mentioned the role of the third sector—and perhaps even the private sector—in ensuring priority treatment for our servicemen and servicewomen, our veterans, and those in service who are not serving at the moment because of illness; they deserve a level of treatment that can be provided by all sectors. As Mark Isherwood said, the levers for that money being spent lie with the Minister. I hope that she will accommodate the third and private sectors in ensuring that as many opportunities as possible are presented to our servicemen and servicewomen.

Eluned Parrott raised the same point, and a couple of other contributors mentioned the need for residential accommodation. While I accept, to a degree, that some people are better treated at home, it is beyond belief that Wales does not have, nor does it have plans for, a centrally provided residential centre for PTSD sufferers. I hope that Eluned will also be pleased to hear that Healing the Wounds is treating people with PTSD from arenas outside warfare. I can see that an e-mail has just been sent through from the Fire Fighters Charity, which notes that it has been referring people to Healing the Wounds. That is good news for everyone.

Inconsistency seems to be the theme in relation to what is happening today, rather than any worries about the good intention. One of the main themes that has come through is the inconsistency in relation to information. We have talked about inconsistency in provision; the Minister has tried to explain her position regarding who is responsible in an answer to Mark Isherwood, but the lack of clarity does not help with the broader picture. There are still many GPs out there who are not quite sure what on earth they are supposed to be doing as a result of this. In my request to my local health board

a menywod sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog hawl i gael triniaeth flaenoriaethol, ond mae'n rhaid inni sylweddoli bod angen canfod ffyrdd llawn dychymyg o ariannu hynny. Mae nifer o Aelodau, gan gynnwys Antoinette Sandbach, wedi sôn am rôl y trydydd sector—a'r sector preifat hyd yn oed—o ran sicrhau triniaeth flaenoriaethol ar gyfer dynion a menywod sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd, ein cyn-filwyr, a'r rheini sy'n aelodau o'r lluoedd ond nad ydynt yn gwasanaethu ar hyn o bryd oherwydd salwch; maent yn haeddu lefel o driniaeth y gellir ei darparu gan bob sector. Fel y dywedodd Mark Isherwood, y Gweinidog sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwario'r arian hwnnw. Rwyf yn gobeithio y bydd yn cynnwys y trydydd sector a'r sector preifat i sicrhau bod cynifer o gyfleoedd â phosibl yn cael eu cyflwyno i'r dynion a'r menywod sy'n gwasanaethu yn ein lluoedd arfog.

Cododd Eluned Parrott yr un pwynt, a soniodd am bell gyfrannwr arall am yr angen am lety preswyl. Er fy mod yn derbyn, i raddau, y byddai triniaeth yn y cartref yn well ar gyfer ambell un, mae'r ffaith nad oes gan Gymru ganolfan breswyl sy'n cael ei darparu'n ganolog ar gyfer pobl sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma, na bwriad ar gyfer hynny, y tu hwnt i bob rheswm. Rwyf yn gobeithio y bydd Eluned hefyd yn falch o glywed bod Healing the Wounds yn trin pobl sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma o feysydd y tu hwnt i ryfel. Gallaf weld bod neges e-bost newydd gael ei hanfon gan Elusen y Diffoddwyr Tân, sy'n nodi iddi fod yn cyfeirio pobl at Healing the Wounds. Mae hynny'n newyddion da i bawb.

Anghysondeb yw'r thema i bob golwg o ran beth sy'n digwydd heddiw, yn hytrach nag unrhyw bryderon ynghylch y bwriadau da. Un o'r prif themâu sydd wedi dod i'r amlwg yw'r anghysondeb yng nghyswllt gwybodaeth. Rydym wedi sôn am anghysondeb yn y ddarpariaeth; mae'r Gweinidog wedi ceisio esbonio ei sefyllfa o ran pwy sy'n gyfrifol wrth ateb Mark Isherwood, ond nid yw'r diffyg eglurder yn helpu gyda'r darlun ehangach. Ceir llawer o feddygon teulu o hyd nad ydynt yn siŵr beth ar y ddaear y maent i fod yn ei wneud o ganlyniad i hyn. Ar ôl gwneud cais i fy

back in March to find out what information had been disseminated to GPs, I got the answer that we would all, perhaps, expect. They had received a circular, but I have had absolutely no response as to the level of monitoring and assessment of uptake for the services being offered. I do not know whether the Minister can let us know about that now. I am happy to take an intervention on that point.

Lesley Griffiths: Mark Isherwood asked me why I specifically answered a written Assembly question, and that is the question that I was answering, not the question that you have just raised.

Suzy Davies: Okay. I hope that you will give us an answer to the question that I have raised—if not now, perhaps at some other point in time.

We are all concerned that information is patchy. The fact that the gaps are filled by the third and private sectors is not always made apparent to those seeking help. Are we absolutely happy that all GPs are 100% sure how someone with PTSD will present to them?

I see that I am running out of time; I apologise to speakers that I have not mentioned. I will finish by repeating the request that Darren Millar made in his speech about the frequency of reports by the Minister to the Chamber on how plans for improving PTSD support are progressing.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections. Therefore, I defer all voting under this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

mwrdd iechyd lleol yn ôl ym mis Mawrth i ddarganfod pa wybodaeth a oedd wedi cael ei dosbarthu i feddygon teulu, cefais yr ateb y byddai pob un ohonom efallai'n ei ddisgwyl. Roeddent wedi cael cylchlythyr, ond nid wyf wedi cael unrhyw fath o ymateb ynghylch lefelau monitro nac o ran asesu'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Nid wyf yn gwybod a all y Gweinidog roi gwybod i ni am hynny yn awr. Rwyf yn hapus i dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw.

Lesley Griffiths: Gofynnodd Mark Isherwood imi pam y gwnes i'n benodol ateb cwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad, a dyna'r cwestiwn yr oeddwn yn ei ateb, nid y cwestiwn yr ydych newydd ei godi.

Suzy Davies: Iawn. Gobeithio y byddwch yn rhoi ateb i'r cwestiwn rydw i wedi ei godi—os nad yn awr, efallai ar ryw adeg arall.

Mae'n destun pryder i bob un ohonom fod y wybodaeth yn anghyson. Nid yw'r ffaith bod y bylchau'n cael eu llenwi gan y trydydd sector a'r sector preifat bob amser yn cael ei wneud yn amlwg i'r rheini sy'n chwilio am help. A ydym yn gwbl fodlon bod pob meddyg teulu gant y cant yn siŵr y byddai'n gallu adnabod anhwylder straen wedi trawma pe byddai rhywun a oedd yn dioddef hynny yn dod i'w weld?

Gwelaf fod amser yn brin; rwyf yn ymddiheuro i'r siaradwyr nad wyf wedi sôn amdanynt. Yr wyf am orffen drwy ailadrodd y cais a wnaeth Darren Millar yn ei araith ynghylch pa mor aml y mae'r Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Siambr am ddatblygiad y cynlluniau gwella cefnogaeth ar gyfer anhwylder straen wedi trawma.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, rwyf yn gohirio'r bleidlais ar y cynnig hwn tan y cyfnod pleidleisio.

**Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Welsh Liberal Democrats Debate**

**Y Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
The All-Wales Ethnic Minority Association**

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 2 a 3 yn enw William Graham.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jocelyn Davies and amendments 2 and 3 in the name of William Graham.

Cynnig NDM4920 Peter Black

Motion NDM4920 Peter Black

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) adroddiad 'All Wales Ethnic Minority Association—AWEMA' yn 2002;

a) the 2002 'All Wales Ethnic Minority Association—AWEMA' report;

b) adroddiad 'All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects' yn 2004;

b) the 2004 report 'All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects';

c) yn nodi bod cadeirydd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn 2007 yn mynegi pryderon difrifol am drefn lywodraethu'r mudiad; a

c) that in 2007 the chair of the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA) wrote to the Welsh Government expressing serious concerns about the organisation's governance; and

d) adroddiad 'A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA)' yn 2012; a

d) the 2012 report 'A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA)'; and

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

2. Calls for the Welsh Government to:

a) cyhoeddi datganiad yn amlinellu'n fanwl eu rhesymau dros barhau i gyllido AWEMA er bod pryderon cychwynnol wedi'u mynegi yn 2002, 2004 a 2007; a

a) publish a statement setting out in detail their reasons for maintaining funding for AWEMA despite initial concerns being raised in 2002, 2004 and 2007; and

b) datblygu a chyhoeddi protocol er mwyn sicrhau y caiff pryderon tebyg eu trin yn effeithiol yn y dyfodol.

b) develop and publish a protocol for ensuring similar concerns are effectively handled in the future.

Peter Black: I move the motion.

Peter Black: Cynigiaf y cynnig.

I wish to refer in particular to the numbers of reports that have come out on AWEMA and the issues arising from them. Since 2002, concerns have been raised about AWEMA's

Hoffwn gyfeirio'n benodol at y nifer o adroddiadau sydd wedi dod i'r fei am AWEMA a'r materion sy'n deillio ohonynt. Er 2002, codwyd pryderon am allu AWEMA

ability to keep control of its own finances and to monitor how moneys are spent. Significant weaknesses were already present—nearly 10 years ago.

The 2004 report, which is now in the public domain, went so far as to recommend that funding to AWEMA be terminated until weaknesses identified in the report had been rectified. However, the Welsh Government continued to fund AWEMA, and as yet we have had no explanation as to what action was taken as a result of that report or whether those weaknesses were addressed in the appropriate manner. Despite the questioning of Ministers, they have refused to respond to those questions, hiding behind the investigations that have been under way ever since this matter broke.

In the first four years of operation, until 2004, AWEMA had received £325,000 of Welsh Government money. In the eight years since, it has received £8.4 million of mostly European money. Although I understand that the projects resulting from that money appear to be okay, it is of particular concern that the 2004 report made a number of recommendations about project management. The recommendations included only providing funding to organisations if SMART targets and milestones had been established, establishing inspection procedures before grants are awarded, reviewing project objectives regularly and scrutinising annual or quarterly reports more thoroughly. I do not know whether those recommendations have been followed since that European money was given to AWEMA. I do not know whether that European money is only now being properly scrutinised because of what has come to light, or whether there has been rigorous analysis and scrutiny of how it has been spent and managed since. The fact that those questions remain unanswered is of huge concern to everyone in the Chamber and to many others with an interest in this issue—including the taxpayers of Wales, whose money is being used to fund this organisation.

We must ask serious questions of ourselves and the Welsh Government. Why, despite many concerns being raised over a significant period of time, did the Welsh Government

i reoli ei gyllid ei hun ac i fonitro sut y mae arian yn cael ei wario. Roedd gwendidau sylweddol eisoes yn bodoli—bron i 10 mlynedd yn ôl.

Roedd adroddiad 2004, sydd bellach ar gael i'r cyhoedd, wedi mynd mor bell ag argymhell rhoi'r gorau i gyllido AWEMA nes iddo gywiro'r gwendidau a nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, daliodd Llywodraeth Cymru ati i gyllido AWEMA. Nid ydym wedi cael eglurhad hyd yn hyn ynghylch pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r adroddiad hwnnw neu a roddwyd sylw i'r gwendidau hynny yn y ffordd briodol. Er bod Gweinidogion wedi cael eu holi, maent wedi gwrthod ateb y cwestiynau hynny, gan guddio tu ôl i'r ymchwiliadau sydd wedi bod ar waith ers i'r mater hwn ddod i'r amlwg.

Yn ystod pedair blynedd gyntaf AWEMA, tan 2004, derbyniodd £325,000 o arian Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr wyth mlynedd ers hynny, derbyniodd £8.4 miliwn o arian Ewropeaidd yn bennaf. Er fy mod yn deall ei bod yn ymddangos bod y prosiectau sy'n deillio o'r arian hwnnw'n iawn, mae'n peri pryder penodol bod adroddiad 2004 wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch rheoli prosiectau. Roedd yr argymhellion yn cynnwys dim ond darparu cyllid i sefydliadau os oedd targedau a cherrig milltir CAMPUS wedi'u sefydlu, sefydlu gweithdrefnau arolygu cyn dyfarnu grantiau, adolygu amcanion prosiectau'n rheolaidd a chraffu ar adroddiadau blynyddol neu chwarterol yn fwy trylwyr. Nid wyf yn gwybod a gafodd yr argymhellion hynny eu dilyn ers rhoi'r arian Ewropeaidd hwnnw i AWEMA. Nid wyf yn gwybod ai dim ond nawr y creffir yn briodol ar yr arian Ewropeaidd hwnnw oherwydd yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg, neu a fu dadansoddiad trylwyr a chraffu ar sut y cafodd ei wario a'i reoli ers hynny. Mae'r ffaith nad yw'r cwestiynau hynny yn dal wedi cael eu hateb yn peri pryder mawr i bawb yn y Siambr a llawer o bobl eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn—gan gynnwys trethdalwyr Cymru, y mae eu harian yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r sefydliad hwn.

Rhaid i ni ofyn cwestiynau difrifol i'n hunain ac i Lywodraeth Cymru. Pam, er gwaethaf y ffaith bod nifer o bryderon wedi cael eu codi dros gyfnod hir, nad oedd Llywodraeth

not suspend its funding to AWEMA? Why has it received additional money despite those concerns? Everyone who receives public money must be scrutinised under the same criteria. Much has been made of why AWEMA did not come under the same scrutiny as other bodies. Again, we do not know the answers to those questions, because Ministers have not responded to them.

The Government has serious questions to ask of its own links with AWEMA. Key individuals in AWEMA have been suspended from the Labour Party as a result of the latest investigation. However, throughout the past 10 years, key figures from AWEMA have been appointed by Welsh Ministers to other significant posts. The Government's equalities policy unit is criticised in the 2004 report, and accused of systemic failure in its lack of management of all the projects for which it was responsible. The Government's flexible approach to scrutiny not only failed to help AWEMA, but actively hindered its approach to project management.

The 2004 report went on to say that the Welsh Assembly Government had a role in ensuring AWEMA's future and ultimate success on an all-Wales level. The Welsh Government clearly failed in this role. It failed to help AWEMA, it failed to scrutinise it, it failed to stop funding and it failed to spend Welsh public moneys wisely. Government Ministers received warning after warning from people inside and outside the organisation of misconduct within AWEMA. Can the Minister stand here today and assure us that she and her colleagues, who we believe have repeatedly failed in their approach to AWEMA, acted appropriately at all stages? Can she assure us that individual relationships with AWEMA members did not compromise the scrutiny of that body, and that blind eyes were not turned to awkward conversations?

In 2006 I asked the current Minister, in a previous role, what meetings she had had with AWEMA officials over the previous year. The answer was 'none'. Between April 2005 and April 2006, the Minister did not

Cymru wedi atal ei chyllid i AWEMA? Pam gafodd arian ychwanegol er gwaethaf y pryderon hynny? Rhaid defnyddio'r un meini prawf i graffu ar bawb sy'n derbyn arian cyhoeddus. Bu llawer o sôn ynghylch pam na chraffwyd ar AWEMA yn yr un modd â chyrff eraill. Unwaith eto, nid ydym yn gwybod yr atebion i'r cwestiynau hynny, am nad yw'r Gweinidogion wedi'u hateb.

Mae angen i'r Llywodraeth ofyn cwestiynau difrifol ynghylch ei chysylltiadau hun ag AWEMA. Mae unigolion allweddol yn AWEMA wedi cael eu gwahardd o'r Blaidd Lafur o ganlyniad i'r ymchwiliad diweddaraf. Fodd bynnag, drwy gydol y 10 mlynedd diwethaf, mae ffigyrau allweddol o AWEMA wedi cael eu penodi gan Weinidogion Cymru i swyddi eraill o bwys. Mae adroddiad 2004 yn beirniadu uned polisi cydraddoldeb y Llywodraeth, ac yn ei chyhuddo o fethiant systematig oherwydd ei diffygion rheoli yng nghyswllt yr holl brosiectau roedd yn gyfrifol amdanynt. Nid yn unig oedd agwedd hyblyg y Llywodraeth at graffu wedi methu â helpu AWEMA, ond llwyddodd hefyd i lesteirio ei agwedd at reoli prosiectau.

Aeth adroddiad 2004 ymlaen i ddweud bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru swyddogaeth o ran sicrhau dyfodol AWEMA a'i lwyddiant yn y pen draw ar lefel Cymruffyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn amlwg wedi methu yn y swyddogaeth hon. Methodd â helpu AWEMA, methodd â chraffu arno, methodd ag atal cyllid a methodd â gwario arian cyhoeddus Cymru yn ddoeth. Cafodd Weinidogion y Llywodraeth rybudd ar ôl rhybudd gan bobl y tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad am gamymddwyn yn AWEMA. A all y Gweinidog sefyll yma heddiw a'n sicrhau ni ei bod hi a'i chydweithwyr, yr ydym yn credu sydd wedi methu droeon yn eu hagwedd at AWEMA, wedi gweithredu'n briodol yn ystod pob cam? A all ein sicrhau nad oedd cysylltiadau unigol ag aelodau AWEMA wedi amharu ar graffu ar y corff hwnnw, ac na anwybyddwyd sgrysiâu lletchwith?

Yn 2006 gofynnais i'r Gweinidog presennol, mewn swyddogaeth flaenorol, pa gyfarfodydd yr oedd wedi'u cael gyda swyddogion AWEMA yn ystod y flwyddyn flaenorol. 'Dim' oedd yr ateb. Rhwng mis

meet once with AWEMA, according to the written answer that she gave.

The fact that the First Minister could not tell us two weeks ago what had happened to the 2004 report suggests that it was not given the prominence that it should have been given. The fact that the Welsh Government was not prepared to publish the report, despite the concerns, raises questions of accountability and transparency on this issue. Can the Minister tell us today what happened with that report in 2004? What steps did the Government take when the report came back with such serious concerns? What steps will be taken in the future to ensure that, when concerns are raised with this Government, they are acted upon swiftly?

Our motion calls for a protocol to be put in place on third sector funding, to ensure that similar concerns are effectively dealt with in the future. Irrespective of the reports being prepared by the Wales Audit Office and others, that needs to be implemented with urgency. We need assurances that the funding of other third-party organisations is being properly scrutinised and that the lapses with regard to AWEMA are not repeated with other organisations.

We also deserve answers from Ministers to the many questions in front of us. Time and again, the Minister has stood up in the Chamber to say that she is not able to answer our questions because the Wales Audit Office is investigating this issue. Yet, recent guidance issued by the Independent Police Complaints Commission—this is the parallel example, if you like—says that the police should not use the fact that an incident has been referred to the independent police watchdog as an excuse for not commenting on a case. That is new guidance. Why is the Welsh Government any different to the police in not being able to comment on legitimate matters of concern?

This motion has been tabled because we

Ebrill 2005 a mis Ebrill 2006, nid oedd y Gweinidog wedi cwrdd unwaith ag AWEMA, yn ôl yr ateb ysgrifenedig a roddodd.

Mae'r ffaith nad oedd y Prif Weinidog yn gallu dweud wrthym bythefnos yn ôl beth oedd wedi digwydd i adroddiad 2004 yn awgrymu na chafodd yr adroddiad y sylw y dylai fod wedi'i gael. Mae'r ffaith nad oedd Llywodraeth Cymru yn fodlon cyhoeddi'r adroddiad, er gwaethaf y pryderon, yn codi cwestiynau ynghylch atebolrwydd a thryloywder gyda'r mater hwn. A all y Gweinidog ddweud wrthym heddiw beth ddigwyddodd gyda'r adroddiad hwnnw yn 2004? Pa gamau gymerodd y Llywodraeth pan ddaeth yr adroddiad yn ôl gyda'r fath bryderon difrifol? Pa gamau a gymerir yn y dyfodol i sicrhau, pan fydd pryderon yn cael eu codi gyda'r Llywodraeth hon, y gweithredir arnynt yn ddiymdroi?

Mae ein cynnig yn galw am roi protocol ar waith ar gyllid trydydd sector, er mwyn sicrhau bod pryderon tebyg yn cael eu trin yn effeithiol yn y dyfodol. Ni waeth beth yw'r adroddiadau sy'n cael eu paratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill, mae angen rhoi hynny ar waith ar frys. Mae angen sicrwydd arnom y craffir yn briodol ar gyllid sefydliadau trydydd parti eraill ac na chaiff y methiannau o ran AWEMA eu hailadrodd gyda sefydliadau eraill.

Rydym hefyd yn haeddu atebion gan y Gweinidogion i'r cwestiynau lu sydd o'n blaenau. Dro ar ôl tro, mae'r Gweinidog wedi sefyll yn y Siambr i ddweud nad yw'n gallu ateb ein cwestiynau oherwydd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymchwilio i'r mater hwn. Eto i gyd, mae cyfarwyddyd a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu—dyma'r enghraifft gyfochrog, os mynnwch—yn dweud na ddylai'r heddlu ddefnyddio'r ffaith bod digwyddiad wedi cael ei gyfeirio at gorff gwarchod annibynnol yr heddlu fel esgus dros beidio â gwneud sylwadau ar achos. Mae hynny'n gyfarwyddyd newydd. Pam mae Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r heddlu gan nad yw'n gallu rhoi sylwadau ar faterion dilys sy'n peri pryder?

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei gyflwyno

believe that we need accountability, scrutiny and transparency with regard to the questions about AWEMA. We need answers to those questions, and we need that to be in the public domain. Many questions are being asked, but we are not getting the answers. I ask the Minister today to start giving us the answers, so that the public can feel assured that the Welsh Government is acting properly and promptly on this, and so that we can understand what has happened over the eight years since the first report came out. We need assurance that the Government is moving forward in a spirit of dealing with these problems, despite the many links that it has with AWEMA and the individuals within AWEMA.

Gwelliant 1 Jocelyn Davies

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

'1. Yn nodi methiant Gweinidogion i fynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd gan:

a) adroddiad 2002 'All Wales Ethnic Minority Association—AWEMA';

b) adroddiad 2004 'All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects';

c) Cadeirydd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) a ysgrifennodd at Lywodraeth Cymru yn 2007 i fynegi pryderon difrifol am drefn lywodraethu'r sefydliad; a

2. Yn nodi ymhellach adroddiad 2012 'A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA); ac

ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiau welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Mae'r gwelliant hwn yn cryfhau'r cynnig hwn. Wrth gyflwyno'r cynnig, ni ddywedodd

oherwydd ein bod yn credu bod angen atebolrwydd, craffu a thryloywder arnom mewn perthynas â'r cwestiynau am AWEMA. Mae angen atebion i'r cwestiynau hynny arnom, ac mae angen iddynt fod ar gael i'r cyhoedd. Mae llawer o gwestiynau'n cael eu gofyn, ond nid ydym yn cael yr atebion. Gofynnaf heddiw i'r Gweinidog ddechrau drwy roi'r atebion i ni, er mwyn i'r cyhoedd allu teimlo'n siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n briodol ac yn brydlon ar hyn, ac er mwyn i ni ddeall beth sydd wedi digwydd dros yr wyth mlynedd ers cyhoeddi'r adroddiad cyntaf. Mae angen sicrwydd arnom fod y Llywodraeth yn symud ymlaen mewn ysbryd o ddelio â'r problemau hyn, er gwaethaf y nifer o gysylltiadau sydd ganddi ag AWEMA a'r unigolion yn AWEMA.

Amendment 1 Jocelyn Davies

Delete point 1 and replace with:

'1. Notes the failure of Ministers to adequately address the concerns raised by:

a) the 2002 'All Wales Ethnic Minority Association—AWEMA' report;

b) the 2004 report 'All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects';

c) the Chair of the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA) who wrote to the Welsh Government in 2007 expressing serious concerns about the organisation's governance; and

2. Further notes the 2012 report 'A Review of the Effectiveness of Governance and Financial Management within the All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA)'; and'

and renumber accordingly.

Rhodri Glyn Thomas: I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

This amendment strengthens this motion. When opening the debate, Peter Black did not

Peter Black a oedd yn derbyn y gwelliannau neu beidio. Rwy'n mawr obeithio y bydd yn derbyn gwelliant 1—mae'n arwyddo y bydd yn gwneud hynny—oherwydd ei fod yn sôn am atebolrwydd Llywodraeth Cymru. Fel y dywedodd Peter, mae cyfres o adroddiadau beirniadol wedi nodi'r un math o wendidau yn rheolaeth fewnol AWEMA, ac mae o leiaf un achos o gyn-gadeirydd yr ymddiriedolwyr yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i fynegi pryderon difrifol, nid yn unig am y weinyddiaeth fewnol ond am ymddygiad rhai o uwch swyddogion AWEMA, ac eto ni chafwyd ymateb gweladwy. Hyd y gwyddom, ni chymerodd y Llywodraeth unrhyw gamau yn ystod y cyfnod hwn, ac ni ddigwyddodd dim nes i'r Llywodraeth benderfynu, ar 11 Chwefror, rhewi'r arian a oedd yn mynd i AWEMA.

Nid ydym yn chwilio am fwch dihangol nac am unigolyn i bwyntio bys ato, boed yn Weinidog neu fel arall. Y cwestiwn yw: o ystyried ein bod yn sôn am gyfnod o wyth mlynedd, a oedd gwendidau systematig yn y modd roedd Llywodraeth Cymru yn goruchwyllo'r broses o ddyrannu arian cyhoeddus?

5.00 p.m.

Os oedd gwendidau systematig yno, beth mae'r Llywodraeth wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r gwendidau hynny? A ydy'r gwendidau hynny yn adlewyrchu hefyd ar y modd y mae arian yn cael ei ddyrannu i gyrff eraill gan Lywodraeth Cymru? A oes gwersi wedi'u dysgu? A ydy'r gwersi hynny wedi'u gweithredu hyd yn hyn? Rwy'n derbyn, i raddau, yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud, sef nad oes modd iddi ymateb ar hyn o bryd nes bod yr ymchwiliad diweddaraf wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, nid cwestiynau penodol am gysylltiad Llywodraeth Cymru gydag AWEMA rwy'n eu codi yn y fan hon, ond cwestiynau cyffredinol am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian cyhoeddus, a rwy'n credu y gallwn ddisgwyl atebion ar hynny gan y Gweinidog.

Mae ail bwynt hefyd rwy'n credu sy'n eithriadol o bwysig. O ran sicrhau bod y sefyllfa yn gwbl dryloyw—rwy wedi gofyn i chi am hyn eisoes, Weinidog—dylech

say whether he accepted the amendments or not. I very much hope that he will accept amendment 1—I see that he is indicating that he will do so—because it emphasises the accountability of the Welsh Government. As Peter said, a series of critical reports have noted the same kinds of deficiencies in AWEMA's internal management, and there is at least one instance of a former chair of the trustees contacting the Welsh Government to express grave concerns, not only about the internal administration, but the conduct of some of AWEMA's senior officials, and yet there was no visible response. As far as we know, the Government did not take any steps during that period, and nothing happened until the Government decided, on 11 February, to freeze the payments that were being made to AWEMA.

We are not looking for a scapegoat or for an individual at whom we can point the finger of blame, be it a Minister or someone else. The question is: bearing in mind that we are talking about a period of eight years, were there systematic failings in the way in which the Welsh Government oversaw the allocation of public money?

If there have been systematic weaknesses, what has the Government done to address those? Are those weaknesses a reflection of the way in which funding is allocated to other bodies by the Welsh Government? Have lessons been learned? Have those lessons been implemented thus far? To a certain extent, I accept what the Minister is saying, in that she cannot respond at the moment until the latest inquiry has been completed. However, I am not raising specific questions about the Welsh Government's relationship with AWEMA, but general questions about the way in which the Welsh Government allocates public funds, and I believe that we should expect answers from the Minister to those questions.

There is a second point that I think is exceptionally important. In terms of ensuring that the situation is entirely transparent—and I have asked you about this already,

rhyddhau'r holl ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac AWEMA a sicrhau ei bod ar gael yn gyhoeddus fel ein bod yn gallu gweld beth yn union oedd yr ohebiaeth honno. Rwy hefyd yn gofyn i chi rhyddhau'r cofnodion o unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac AWEMA, oherwydd mae'n bwysig ein bod yn gallu gweld yn glir beth ddigwyddodd dros y cyfnod hwnnw o wyth mlynedd. Os ydych chi, fel Llywodraeth, yn credu mewn bod yn dryloyw, mae sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael yn eithriadol o bwysig.

It is very important, Minister, that you are able to assure us this afternoon that, if there were systematic weaknesses in the way that the Government of Wales, the Welsh Government, distributed public money to various organisations in Wales, you have learned those lessons and implemented measures to ensure that those weaknesses have been addressed. With regard to transparency, it is very important that you are prepared to ensure that you put in the public domain all communication between the Welsh Government and AWEMA and minutes of any meetings held between 2003 and 11 February of this year, when the money going to AWEMA was frozen. I am very glad, Minister, that you have put in place measures to ensure that money is still available for those partner organisations that worked with AWEMA and that the Government of Wales, the Welsh Government, has given a guarantee that it will continue the important work carried out by those partner organisations and by AWEMA. The feelings of individuals should not stop that very important work within our communities in Wales.

Gwelliant 2 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oedd amseru cyhoeddi adroddiad 2012:

a) wedi rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad allu craffu arno ar unwaith mewn Cyfarfod Llawn; a

Minister—you should release all correspondence between the Welsh Government and AWEMA and ensure that it is publicly available so that we can see exactly what it was. I also ask you to release the minutes of any meetings that were held between the Welsh Government and AWEMA, because it is important that we can see clearly what happened over those eight years. If you, as a Government, believe in being transparent, ensuring that that information is publicly available is extremely important.

Weinidog, mae'n bwysig iawn eich bod yn gallu ein sicrhau ni'r prynhawn yma, os oedd gwendidau systematig yn y ffordd roedd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu arian cyhoeddus i sefydliadau amrywiol yng Nghymru, eich bod wedi dysgu'r gwersi hynny ac wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y gwendidau hynny wedi cael eu datrys. Gan ystyried tryloywder, mae'n bwysig iawn eich bod yn fodlon sicrhau bod yr holl ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac AWEMA ar gael i'r cyhoedd ynghyd â chofnodion unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 2003 ac 11 Chwefror eleni, pan gafodd yr arian i AWEMA ei atal. Rwyf yn falch iawn, Weinidog, eich bod wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod arian yn dal ar gael i'r sefydliadau partner hynny a oedd yn gweithio gydag AWEMA a bod Llywodraeth Cymru wedi gwarantu y bydd yn parhau â'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan y sefydliadau partner hynny ac AWEMA. Ni ddylai teimladau unigolion atal y gwaith pwysig iawn sy'n cael ei wneud yn ein cymunedau yng Nghymru.

Amendment 2 William Graham

Add as new point at end of motion:

Regrets that the timing of the 2012 report's publication:

a) did not provide an opportunity for immediate scrutiny by Assembly Members in plenary; and

b) wedi rhoi cyfle i'r Gweinidog sy'n gyfrifol roi datganiad llafar brys.

b) did not provide an opportunity for an urgent oral statement from the Minister responsible.

Gwelliant 3 William Graham

Amendment 3 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi adroddiadau 2002 a 2004 ar-lein.

Calls on the Minister to publish the 2002 and 2004 reports online.

Andrew R.T. Davies: I move amendments 2 and 3 in the name of William Graham.

Andrew R.T. Davies: Cynigiau welliannau 2 a 3 yn enw William Graham.

I endorse Rhodri Glyn's closing comments that we must not lose sight of the fact that there was a genuine commitment and aspiration to achieve certain goals, which various reports have highlighted have not been achieved. We should not lose sight of those goals, despite the furore to do with the actions around AWEMA. It is regrettable that the Government has chosen to stonewall so much in this regard and that, each time, it has addressed the issue via a written statement rather than an oral statement and that the Minister has been unable to answer questions here. Despite my tabling an urgent question two weeks ago, I achieved very little insight into the actions of the Government on the 2004 report and the various correspondence up to 2007, leaving the 2012 report aside.

Rwyf yn cymeradwyo sylwadau clo Rhodri Glyn bod yn rhaid inni beidio â cholli golwg ar y ffaith yr oedd gwir ymrwymiad a dyhead i gyrraedd nodau penodol, y mae amrywiol adroddiadau wedi dangos na chawsant eu cyrraedd. Ni ddylem golli golwg ar y nodau hynny, er gwaethaf yr helynt sydd wedi codi gydag AWEMA. Mae'n anffodus bod y Llywodraeth wedi dewis gwrthod ymateb cymaint yn hyn o beth a'i bod wedi mynd i'r afael â'r mater drwy gyfrwng datganiad ysgrifenedig bob tro yn hytrach na datganiad llafar ac nid yw'r Gweinidog wedi gallu ateb cwestiynau yma. Er gwaethaf y ffaith i mi gyflwyno cwestiwn brys bythefnos yn ôl, nid wyf wedi cael gwybod prin dim ynghylch beth wnaeth y Llywodraeth ynghylch adroddiad 2004 a'r ohebiaeth amrywiol hyd at 2007, gan roi adroddiad 2012 i'r naill ochr.

I fail to see why the Government is unable to engage with the opposition parties and interested parties on what actions previous Governments and Ministers have taken. I was very interested to note today the representations made by a previous Assembly Member for South Wales West, Dr Dai Lloyd, who highlighted this through the formal process of coalition in the meetings that the coalition partners had. He identified this point as having been raised at a formal meeting back in 2009. He raised concerns with the then Minister with responsibility for this, Carl Sargeant, and it would be interesting to hear from the Minister, or certainly from the Government at some point, what action was taken at that juncture. Was that another opportunity missed by the Government to respond to allegations and evidence provided through a formal

Ni allaf weld pam na all y Llywodraeth ymgysylltu â'r gwrthbleidiau a'r partïon sydd â diddordeb ynghylch y camau y mae Llywodraethau a Gweinidogion blaenorol wedi'u cymryd. Roedd y sylwadau a wnaed gan Aelod Cynulliad blaenorol Gorllewin De Cymru, Dr Dai Lloyd, yn ddiddorol iawn i mi heddiw, gan iddo dynnu sylw at hyn drwy'r broses glymblaid ffurfiol yn y cyfarfodydd a gafodd partneriaid y glymblaid. Nododd fod y pwynt hwn wedi cael ei godi mewn cyfarfod ffurfiol yn ôl yn 2009. Cododd bryderon gyda'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am hyn bryd hynny, Carl Sargeant, a byddai'n ddiddorol clywed gan y Gweinidog, neu yn bendant gan y Llywodraeth rywbryd, pa gamau a gymerwyd ar yr adeg honno. A oedd hwnnw'n gyfle arall a gollwyd gan y Llywodraeth i ymateb i honiadau a thystiolaeth a ddarparwyd drwy fecanwaith

mechanism? The 2012 report highlights that:

‘we cannot provide any assurance that there are appropriate arrangements in place to safeguard and make proper use of the Welsh Government, WEFO and the Big Lottery Funds’.

If you turn to the 2004 report, you find almost exactly the same wording and the recommendation that funding should cease until safeguards had been put in place that could give confidence that the money was being spent wisely and correctly. We have already heard this afternoon of the significant increase in the public money that went into AWEMA. That money was for very worthy causes and, had the outcomes been secured for those causes, it would have achieved real gains in the communities in which those gains were sought.

I would also really like to find out from the Minister, with regard to her responsibility, what action she has been taking to address these serious concerns. It is concerning that, in responding to Members, she has indicated that she held no meetings whatsoever with AWEMA for 12 months, despite AWEMA being on the critical list, as it were, given the previous reports, the recommendations from those reports, and the observations submitted to the Welsh Government. I have written letters to the First Minister to which I am still awaiting an answer. Those letters have been with the First Minister for some three weeks. That goes to the heart of the Government’s stonewalling in relation to responding to genuine and evidenced concerns about AWEMA.

We must also not forget the human element. Many of the workers at AWEMA have talked about the culture of bullying and harassment that existed within the organisation. They have been able to make those concerns known on camera, in the media and in written representations to Assembly Members. While there is a serious financial matter to address here, there are also these human concerns that people have raised in relation to the abuse that they felt that they experienced at the hands of senior management. I hope that the Minister, in using today’s debate to respond,

ffurfiol? Mae adroddiad 2012 yn nodi:

‘ni allwn roi unrhyw sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a gwneud defnydd priodol o’r cyllid y mae Llywodraeth Cymru, WEFO a’r Gronfa Loteri Fawr wedi’i roi’.

Os edrychwch ar adroddiad 2004, byddwch yn gweld bron i union yr un geiriau a’r argymhelliad y dylai’r cyllido ddod i ben nes bod mesurau diogelu wedi cael eu rhoi ar waith a allai roi hyder bod yr arian yn cael ei wario’n ddoeth ac yn gywir. Rydym eisoes wedi clywed y prynhawn yma am y cynnydd sylweddol yn yr arian cyhoeddus a roddwyd i AWEMA. Roedd yr arian hwnnw ar gyfer achosion teilwng iawn. Petai’r canlyniadau wedi cael eu sicrhau ar gyfer yr achosion hynny, byddai wedi cyflawni enillion go iawn yn y cymunedau a oedd yn chwilio am yr enillion hynny.

Hoffwn hefyd gael gwybod gan y Gweinidog, o ran ei chyfrifoldeb, pa gamau y mae wedi bod yn eu cymryd i fynd i’r afael â’r pryderon difrifol hyn. Mae’n peri pryder ei bod wedi dweud, wrth ateb Aelodau, na chynhaliodd ddim cyfarfodydd o gwbl gydag AWEMA am 12 mis, er gwaethaf y pryderon ynghylch AWEMA, gan ystyried yr adroddiadau blaenorol, yr argymhellion o’r adroddiadau hynny, a’r sylwadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi ysgrifennu llythyrau at y Prif Weinidog ac rwyf yn dal i aros am ateb. Mae’r Prif Weinidog wedi cael y llythyrau hynny ers rhyw dair wythnos. Mae hynny’n mynd at galon diffyg ymateb y Llywodraeth mewn perthynas ag ymateb i bryderon gwirioneddol sy’n seiliedig ar dystiolaeth am AWEMA.

Rhaid i ni beidio ag anghofio’r elfen ddynol chwaith. Mae nifer o’r gweithwyr yn AWEMA wedi sôn am y diwylliant o fwlio ac aflonyddu a oedd yn bodoli yn y sefydliad. Maent wedi gallu rhannu’r pryderon hynny ar gamera, yn y cyfryngau ac mewn sylwadau ysgrifenedig i Aelodau’r Cynulliad. Er bod gofyn mynd i’r afael â mater ariannol difrifol yma, ceir pryderon dynol hefyd y mae pobl wedi’u codi mewn perthynas â’r cam-drin maent yn teimlo eu bod wedi’i wynebu dan law uwch reolwyr. Gobeithio bydd y Gweinidog, wrth ddefnyddio dadl heddiw i

will address the serious concerns raised in relation to the allegations of inaction levelled at Ministers and the Labour Party with regard to why, after eight years, there is still no response from the Government in relation to these very serious accusations. When you look at all the allegations that have made—in 2002, 2004 and 2007—surely the various red traffic lights that were gone through should have flagged up warnings. The Permanent Secretary highlighted in evidence to the Public Accounts Committee that there should have been greater scrutiny of AWEMA and greater interaction with it by the Welsh Government. That was not forthcoming. Why, Minister, was that not forthcoming?

Aled Roberts: The purpose of the debate this afternoon is to highlight our concerns as Assembly Members with regard to the inaction in this case. It is likely to be the case, as we heard in the Public Accounts Committee, that, in relation to much of the discussion, we will have to wait for the Wales Audit Office report into the particular circumstances of this case.

However, given the explanation of the Permanent Secretary at the same meeting, that the position in Wales with regard to public finances is very different from that in Scotland, in particular, but also from that in England, in that the Government places greater reliance on specific grants to organisations as opposed to other methods of funding, I think that there may be inherent weaknesses in the current system that lead us to question the effectiveness or otherwise of the monitoring processes that the Government has with regard to operation of those funds.

It is interesting that the only reason that the Permanent Secretary could give for why grant funding is used much more widely in Wales than in other jurisdictions was the need for Ministers to retain control over the manner in which funds were spent. Yet, it is clear, as far as this investigation is concerned, that there was very little control over the way in which money was spent.

I hope that the Government this afternoon

ymateb, yn mynd i'r afael â'r pryderon difrifol a godwyd mewn perthynas â'r honiadau o ddiffyg gweithredu gan y Gweinidogion a'r Blaid Lafur o ran pam, ar ôl wyth mlynedd, nad ydym yn dal wedi cael unrhyw ymateb gan y Llywodraeth mewn perthynas â'r cyhuddiadau difrifol iawn hyn. Wrth edrych ar yr holl honiadau a wnaed—yn 2002, 2004 a 2007—siawns na fyddai mynd drwy'r amrywiol oleuadau traffig coch wedi codi rhybuddion. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y dylid bod wedi craffu mwy ar AWEMA ac y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi rhyngweithio mwy ag ef. Nid oedd hynny'n digwydd. Pam, Weinidog, nad oedd hynny'n digwydd?

Aled Roberts: Diben y ddadl y prynhawn yma yw tynnu sylw at ein pryderon fel Aelodau'r Cynulliad o ran y diffyg gweithredu yn yr achos hwn. Mae'n debyg ei bod yn wir y bydd yn rhaid inni aros am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar amgylchiadau arbennig yr achos hwn mewn perthynas â llawer o'r drafodaeth, fel y clywsom yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Fodd bynnag, o ystyried esboniad yr Ysgrifennydd Parhaol yn yr un cyfarfod, bod y sefyllfa yng Nghymru o ran arian cyhoeddus yn wahanol iawn i'r sefyllfa yn yr Alban, yn benodol, ond hefyd yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, oherwydd bod y Llywodraeth yn dibynnu mwy ar roi grantiau penodol i sefydliadau yn hytrach na dulliau eraill o gyllido, rwyf yn meddwl efallai fod gwendidau cynhenid yn y system bresennol sy'n ein harwain i gwestiynu effeithiolrwydd neu ddiffyg effeithiolrwydd y prosesau monitro sydd gan y Llywodraeth o ran gweithredu'r cronfeydd hynny.

Mae'n ddiddorol mai'r unig reswm y gallai'r Ysgrifennydd Parhaol ei roi dros pam mae cyllid grant yn cael ei ddefnyddio lawer mwy yng Nghymru nag mewn awdurdodaethau eraill oedd bod angen i Weinidogion gadw rheolaeth dros y modd mae arian yn cael ei wario. Eto i gyd, mae'n amlwg wrth edrych ar yr ymchwiliad hwn, na fu llawer iawn o reolaeth dros y ffordd y cafodd yr arian ei wario.

Gobeithio y bydd y Llywodraeth yn

will use this opportunity to provide us with some reassurance about the continuity of services. In the region that I represent, North Wales, where the concentration of ethnic minority communities is perhaps not as great as it is in other areas, it is a sad fact that AWEMA officers who have been working hard at the coalface have been placed in a situation of great uncertainty as a result of this episode. There are also issues with regard to vulnerable individuals in ethnic minority communities, who may be even more vulnerable as a result of their isolation in regions such as North Wales, who are unsure as to the extent of the services that they will be afforded over the coming months. We need a statement from the Minister on how the Government will ensure that those services are continued and whether it has been able to ensure that AWEMA will release documents and files to those organisations that will be asked to carry the responsibility in coming months. What has surprised me in discussions in north Wales is that even organisations that are referred to as co-sponsors in WEFO documentation have, to all intents and purposes, been sidelined by AWEMA over the past 12 months and yet they have not been contacted by the Government's equalities unit during that period.

I hope that the case of AWEMA will ensure that the opportunity is taken in the Wales Audit Office report and by the Government, in particular, to recast the way in which we manage and administer grants in Wales. We need to question whether the policy of having one organisation providing services on an all-Wales basis, when it has little or no presence or infrastructure in certain regions, is a reasonable way forward. I note, for example, that, of the four regional equality councils in Wales, only the Valleys Regional Equality Council is listed as a partner of AWEMA. None of the other regional equality councils are listed as partners. We need organisations to operate on an all-Wales basis, but whether that is the right approach in the particular circumstances of this case is a matter to consider in future.

defnyddio'r cyfle hwn y prynhawn yma i'n sicrhau ynghylch parhad gwasanaethau. Yn y rhanbarth rwyf yn ei gynrychioli, Gogledd Cymru, lle nad yw'r crynhoad o gymunedau lleiafrifoedd ethnig efallai mor fawr ag ydyw mewn ardaloedd eraill, mae'n ffaith drist bod swyddogion AWEMA sydd wedi bod yn gweithio'n galed ar lawr gwlad wedi cael eu rhoi mewn sefyllfa o gryn ansicrwydd o ganlyniad i'r bennod hon. Ceir hefyd faterion sy'n ymwneud ag unigolion agored i niwed mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, a all fod hyd yn oed yn fwy agored i niwed o ganlyniad i'w hunigedd mewn rhanbarthau megis Gogledd Cymru, sy'n ansicr ynghylch pa wasanaethau a gânt dros y misoedd nesaf. Mae arnom angen datganiad gan y Gweinidog am sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n parhau ac a yw wedi llwyddo i sicrhau y bydd AWEMA yn rhyddhau dogfennau a ffeiliau i'r sefydliadau hynny y gofynnir iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y misoedd nesaf. Yr hyn sydd wedi fy synnu mewn trafodaethau yng ngogledd Cymru yw bod hyd yn oed sefydliadau y cyfeirir atynt fel cyd-noddwyr yn nogfennau WEFO, i bob pwrpas, wedi cael eu gwthio o'r neilltu gan AWEMA yn ystod y 12 mis diwethaf ac eto nid yw uned cydraddoldeb y Llywodraeth wedi cysylltu â nhw yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rwyf yn gobeithio y bydd achos AWEMA yn sicrhau y defnyddir y cyfle yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gan y Llywodraeth, yn benodol, i ail-lunio'r ffordd rydym yn rheoli ac yn gweinyddu grantiau yng Nghymru. Mae arnom angen holi a yw'r polisi o gael un sefydliad sy'n darparu gwasanaethau ar sail Cymru-gyfan, ac yntau â phrin dim neu ddim presenoldeb neu seilwaith mewn rhanbarthau penodol, yn ffordd resymol ymlaen. Nodaf, er enghraifft, o'r pedwar cyngor cydraddoldeb rhanbarthol yng Nghymru, mai dim ond Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd sydd wedi'i restru fel un o bartneriaid AWEMA. Nid oes dim un o'r cynghorau cydraddoldeb rhanbarthol eraill wedi'u rhestru felartneriaid. Mae arnom angen i sefydliadau weithredu ar sail Cymru-gyfan, ond mae'r cwestiwn ai dyma'r dull cywir yn amgylchiadau penodol yr achos hwn yn fater i'w ystyried yn y dyfodol.

I would also hope, given the scale of the employment concerns that have been raised with the Government over a number of years, that it would consider whether employment protocols or whether there are instances of bullying of individuals in bodies in receipt of grant from the Government should form part of its monitoring process in future. Clearly, many of AWEMA's employees feel badly let down by the whole process. I find it astonishing that although, in its grant submission for European funding, AWEMA claimed that it would employ two full-time staff members in north Wales on each of the two priorities for which it was given European funding, no-one seems to have picked up on the fact that it ended up employing two part-time staff members to cover both priorities. Clearly, there are issues there as to whether it was in a position to deliver services in regions outside of its natural base. I hope that the Minister will provide us with answers in response to some of those issues today.

Vaughan Gething: In this debate, I speak with real sadness and some apprehension about both the fact and the manner of the collapse of AWEMA. None of us should celebrate AWEMA's impending passing, but there are lessons for many people to take on board. I will say something about recent events, the Welsh Government response and the impact that this could all still have on the voluntary sector and the ongoing responsibility of all of us in the Chamber.

The manifest failings in governance and accountability at AWEMA were laid bare in the recent report by Paul Dunn and the subsequent Welsh Government and Big Lottery review. No-one should try to justify the failings that have been identified. The trustees of AWEMA and its former senior staff will no doubt have much soul-searching to do as well as some awkward questions to answer in the Charity Commission's statutory inquiry and the Welsh Audit Office investigation.

I welcome the Welsh Government's response to the Paul Dunn report. Paul Dunn is a man of integrity and the powerful concerns raised

Byddwn hefyd yn gobeithio, o ystyried graddfa'r pryderon cyflogaeth a godwyd gyda'r Llywodraeth dros nifer o flynyddoedd, y byddai'n ystyried a ddylai protocolau cyflogaeth neu a oes enghreifftiau o fwlio unigolion mewn cyrff sy'n derbyn grantiau gan y Llywodraeth fod yn rhan o'i phroses fonitro yn y dyfodol. Yn amlwg, mae llawer o weithwyr AWEMA yn teimlo iddynt gael eu siomi'n fawr gan y broses gyfan. Rwyf yn rhyfeddu, er bod AWEMA wedi honni yn ei gais am grant ar gyfer arian Ewropeaidd y byddai'n cyflogi dau aelod o staff llawn-amser yng ngogledd Cymru ar bob un o'r ddwy flaenoriaeth y cafodd arian Ewropeaidd ar eu cyfer, nad yw'n ymddangos bod neb wedi sylwi ar y ffaith ei fod wedi cyflogi dau aelod o staff rhan-amser i weithio ar y naill flaenoriaeth a'r llall. Yn amlwg, mae materion yno ynghylch a oedd mewn sefyllfa i gyflenwi gwasanaethau mewn ardaloedd y tu allan i'w ganolfan naturiol. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi atebion i ni i ymateb i rai o'r materion hynny heddiw.

Vaughan Gething: Yn y ddadl hon, rwyf yn hynod ddigalon a braidd yn bryderus oherwydd bod AWEMA wedi methu ac oherwydd y ffordd a fethodd. Ni ddylai'r un ohonom ddathlu bod AWEMA wedi dod i ben, ond mae yma wersi i nifer o bobl. Rwyf am ddweud rhywbeth am y digwyddiadau diweddar, ymateb Llywodraeth Cymru a'r effaith y gallai hyn i gyd ei chael ar y sector gwirfoddol a chyfrifoldeb parhaus pob un ohonom yn y Siambr.

Roedd adroddiad diweddar Paul Dunn ac adolygiad dilynol Llywodraeth Cymru a'r Loteri Fawr wedi datgelu diffygion amlwg mewn llywodraethu ac atebolrwydd yn AWEMA. Ni ddylai neb geisio cyfiawnhau'r diffygion a nodwyd. Yn ddiaw, bydd ymddiriedolwyr AWEMA a'i gyn uwch staff yn holi eu hunain ac mae rhai cwestiynau lletchwith i'w hateb yn ymchwiliad statudol y Comisiwn Elusennau ac yn ymchwiliad Swyddfa Archwilio Cymru.

Rwyf yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Paul Dunn. Mae Paul Dunn yn ddyn gonest a rhaid cymryd y

in his report had to be taken seriously. However, the Welsh Government cannot and should not take an investigative role in pursuing the staff treatment concerns raised in his report.

5.15 p.m.

I know from my previous working life that if the Welsh Government were to involve itself in these matters because it is a funder of that body, as some have urged—foolishly, in my view—the Welsh Government would become embroiled interminably in staff disputes in a number of organisations. That is not appropriate. It was, however, entirely appropriate that funding was suspended and withdrawn after the joint report with the Big Lottery. I also welcome the Welsh Government's decision to ask the Wales Audit Office to undertake an independent review of Welsh Government and AWEMA relationships over time.

AWEMA has certainly changed significantly as an organisation since it came into being. There has been widespread concern about the products that AWEMA won funding for. These products are needed to improve the prospects and opportunities of some of our most vulnerable communities across Wales. It is important to recognise that AWEMA did not directly deliver all of the services that it secured funding for. Most of that delivery work was done by five strategic partners that were affected, of course, by the suspension of funds. I have raised matters relating to these issues, and the continuity of these projects, with the relevant Ministers. This is about the need to ensure that these organisations continue to function and that the money was being spent on the purpose for which it was awarded. It is an important part of the immediate Welsh Government response that these bodies continue to function, and that WEFO continues to discuss how those moneys are being spent and how projects are to be managed post AWEMA. My understanding is that these projects are continuing and that money has been properly used by those partner bodies, with nearly 1,500 people receiving support from partner bodies, and about 200 being directly served by AWEMA. I would be grateful if the

pryderon grymus a godwyd yn ei adroddiad o ddifrif. Fodd bynnag, ni all ac ni ddylai Llywodraeth Cymru ysgwyddo swyddogaeth ymchwiliadol i fynd ar drywydd y pryderon a godwyd yn ei adroddiad ynghylch sut y cafodd staff eu trin.

Rwy'n gwybod o'm bywyd gwaith blaenorol, petai Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y materion hyn oherwydd ei bod yn cyllido'r corff hwnnw, fel y mae rhai wedi pwysu—yn annoeth yn fy marn i—byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu anghydfodau staff diddiwedd mewn nifer o sefydliadau i'w phen. Nid yw hynny'n briodol. Fodd bynnag, roedd yn gwbl briodol atal y cyllid a'i dynnu'n ôl ar ôl yr adroddiad ar y cyd â'r Loteri Fawr. Rwyf hefyd yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ofyn i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad annibynnol o'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac AWEMA dros amser.

Mae AWEMA yn sicr wedi newid yn sylweddol fel sefydliad ers ei sefydlu. Bu pryder cyffredinol ynghylch y gwasanaethau roedd AWEMA wedi ennill cyllid ar ei gyfer. Mae angen y gwasanaethau hyn i wella rhagolygon a chyfleoedd rhai o'n cymunedau mwyaf agored i niwed ledled Cymru. Mae'n bwysig cydnabod nad oedd AWEMA ei hun yn cyflenwi pob un o'r gwasanaethau y cafodd gyllid ar eu cyfer yn uniongyrchol. Cafodd y rhan fwyaf o'r gwaith cyflenwi hwnnw ei wneud gan bum partner strategol ac mae atal y cyllid wrth gwrs wedi effeithio arnynt. Rwyf wedi codi materion sy'n ymwneud â'r problemau hyn, a pharhad y prosiectau hyn, gyda'r Gweinidogion perthnasol. Mae hyn yn ymwneud â'r angen i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn parhau i weithredu a bod yr arian yn cael ei wario ar y diben y cafodd ei ddyfarnu ar ei gyfer. Mae'n rhan bwysig o ymateb di-oed Llywodraeth Cymru bod y cyrff hyn yn parhau i weithredu, a bod WEFO yn parhau i drafod sut y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario a sut y mae prosiectau'n cael eu rheoli ar ôl AWEMA. Fy nealltwriaeth i yw bod y prosiectau hyn yn parhau a bod arian wedi cael ei ddefnyddio'n briodol gan y cyrff partner hynny, gyda bron i 1,500 o bobl yn cael cefnogaeth gan gyrff sy'n bartneriaid, a

Minister could confirm the position, as she understands it, in her response today, paying particular regard to those 200 people who were being serviced directly by AWEMA, but who will obviously not be serviced directly in the future.

I have had a range of contact from concerned members of the wider black and Asian voluntary sector over how the downfall of AWEMA is affecting them and the work that they do. The publicity has been a cause of reputational damage and anxiety that is quite unwarranted as far as the good work of the wider sector is concerned. One of the most difficult challenges has been the cavalier attitude and language that has been used at times to describe what has been happening at AWEMA. Of course, the Welsh Government must be scrutinised. However, it is incumbent on all Members to consider the impact of the language used in the statements that they make. The suggestion that has been made loudly and frequently by some Members that £8 million in public funds has been wasted is not true and does unjustified damage to the voluntary and charitable sector. I would be grateful if the Minister could confirm that the Welsh Government will continue to engage with this sector, to ensure that the voices in this sector are heard and are not marginalised because of the manifest governance failings of one particular body.

I am not afraid of scrutiny and I look forward to the Wales Audit Office report and the Charity Commission report. I look forward to having those published. Undoubtedly, there will then be a much more informed debate about what happened, why it happened and what we should do in the future, once those reports are published. I also look forward to a positive future for the voluntary and charitable sector. I will continue to support and challenge this sector appropriately, as we have a common desire to serve and improve the prospects of our most marginalised communities in Wales.

Eluned Parrott: Problems with AWEMA

thua 200 yn cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol gan AWEMA. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gadarnhau'r sefyllfa, o'i dealltwriaeth hi, yn ei hymateb heddiw, gan roi sylw penodol i'r 200 o bobl hynny a oedd yn cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol gan AWEMA, ond na fyddant yn amlwg yn cael eu gwasanaethu'n uniongyrchol yn y dyfodol.

Mae nifer o aelodau pryderus o'r sector gwirfoddol du ac Asiaidd ehangach wedi cysylltu â mi ynghylch sut y mae cwmp AWEMA yn effeithio arnynt a'r gwaith maent yn ei wneud. Mae'r cyhoeddusrwydd wedi difrodi enw da ac wedi achosi pryder diangen wrth ystyried gwaith da'r sector ehangach. Un o'r sialensiau anoddaf fu'r agwedd a'r iaith ddi-hid a ddefnyddiwyd ar adegau i ddisgrifio'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn AWEMA. Wrth gwrs, rhaid craffu ar Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar yr holl Aelodau i ystyried effaith yr iaith a ddefnyddir yn y datganiadau a wnânt. Nid yw'r awgrym sydd wedi cael ei glywed yn groch ac yn fynych gan rai Aelodau bod £8 miliwn o arian cyhoeddus wedi cael ei wastraffu yn wir ac mae'n achosi difrod anghyfiawn i'r sector gwirfoddol ac elusennol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r sector hwn, i sicrhau bod y lleisiau yn y sector hwn yn cael eu clywed a ddim yn cael eu gwthio i'r cyrion oherwydd y methiannau llywodraethu amlwg gan un corff penodol.

Nid oes arnaf ofn craffu ac edrychaf ymlaen at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiad y Comisiwn Elusennau. Edrychaf ymlaen at weld y rheini wedi'u cyhoeddi. Heb os, cawn ddadl wedyn ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau hynny a fydd wedi'i seilio ar wybodaeth ynghylch yr hyn a ddigwyddodd, pam ei fod wedi digwydd a'r hyn y dylem ei wneud yn y dyfodol. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at ddyfodol cadarnhaol ar gyfer y sector gwirfoddol ac elusennol. Byddaf yn parhau i gefnogi a herio'r sector hwn yn briodol, gan fod gennym awydd cyffredin i wasanaethu a gwella rhagolygon ein cymunedau mwyaf ymylol yng Nghymru.

Eluned Parrott: Ni ddylai problemau ag

should not have come as a surprise to the Government. As far back as 2002, the Government received notice of allegations about the way in which the organisation conducted its business. The Government at the time commissioned a report that, on the whole, identifies only some relatively minor weaknesses. However, the 2004 report painted a very different picture of the way in which this organisation was being run. The review identified that three projects conducted by AWEMA were failing to deliver the intended results. In one instance, a project funded with public money was only partially undertaken, and not to the extent to which the project submission had specified. The report also noted a failure of the equality policy unit of the Welsh Government to properly scrutinise the organisation. There were no signs of correspondence between that branch of the Government and AWEMA about performance indicators, project planning or financial reporting. Other projects run by AWEMA at the time had only partial impacts on the black and minority ethnic community and had 'very limited impacts' in terms of the number of organisations affected.

The 2004 report included numerous recommendations for both AWEMA and the Government's equality policy unit. It said that the Government should only fund organisations where SMART objectives and a detailed timetable with appropriate milestones had been established. It also said that there should be regular monitoring and inspection procedures in place. However, despite these recommendations in a Government-commissioned report, there is little evidence that the Government has followed through on these recommendations. If these recommendations have been implemented, they cannot have been enforced rigorously enough or the current situation with AWEMA just would not have happened.

I note that Rita Austin was appointed chair of AWEMA after the 2004 report, perhaps specifically to address these management failings. I was therefore surprised that she was retained as chair after these new allegations came out. I am frankly astonished

AWEMA fod wedi peri syndod i'r Llywodraeth. Cyn belled yn ôl â 2002, cafodd y Llywodraeth wybod am honiadau am y ffordd roedd y sefydliad yn cynnal ei fusnes. Comisiynodd y Llywodraeth ar y pryd adroddiad sydd, ar y cyfan, yn dod o hyd i ddim ond rhai gwendidau cymharol fach. Fodd bynnag, mae adroddiad 2004 yn rhoi darlun gwahanol iawn o'r ffordd roedd y sefydliad hwn yn cael ei redeg. Daeth yr adolygiad o hyd i dri phrosiect a oedd yn cael eu cynnal gan AWEMA a oedd yn methu â chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Mewn un achos, dim ond yn rhannol cafodd prosiect a gyllidwyd ag arian cyhoeddus ei gynnal, ac nid i'r graddau a bennwyd yn y cais ar gyfer y prosiect. Canfu'r adroddiad hefyd fod uned polisi cydraddoldeb Llywodraeth Cymru wedi methu â chraffu'n briodol ar y sefydliad. Nid oedd dim arwyddion o ohebiaeth rhwng y gangen honno o'r Llywodraeth ac AWEMA am ddangosyddion perfformiad, cynllunio prosiect nac adrodd ariannol. Roedd prosiectau eraill a oedd yn cael eu rhedeg gan AWEMA ar y pryd yn cyflawni effeithiau rhannol yn unig ar y gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dim ond 'effeithiau cyfyngedig iawn' oeddent yn eu cyflawni o ran nifer y sefydliadau yr effeithiwyd arnynt.

Roedd adroddiad 2004 yn cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer AWEMA ac uned polisi cydraddoldeb y Llywodraeth. Dywedodd mai dim ond sefydliadau a oedd wedi sefydlu amcanion CAMPUS ac amserlen fanwl gyda cherrig milltir priodol y dylai'r Llywodraeth eu cyllido. Dywedodd hefyd y dylid sefydlu gweithdrefnau arolygu a monitro rheolaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf yr argymhellion hyn mewn adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, prin yw'r dystiolaeth bod y Llywodraeth wedi mynd ar drywydd yr argymhellion hyn. Os yw'r argymhellion hyn wedi cael eu gweithredu, mae'n rhaid na chawsant eu gorfodi'n ddigon llym neu ni fyddai'r sefyllfa bresennol gydag AWEMA wedi digwydd.

Sylwaf i Rita Austin gael ei phenodi yn gadeirydd AWEMA ôl adroddiad 2004, efallai er mwyn mynd i'r afael â'r methiannau rheoli hyn yn benodol. Cefais fy synnu, felly, ei bod wedi cadw ei swyddogaeth fel cadeirydd ar ôl i'r honiadau newydd hyn ddod

that after this second damning report, she is still in the chair and has been given the job of winding it up and burying the proverbial bodies. I am also extremely concerned about the timeline for the action taken in this matter. Putting aside the fact that the Government slipped out its report at 4 p.m. on the last day of term, depriving this Chamber of the opportunity to scrutinise the situation effectively, and forcing the opposition benches to bring forward a debate, there are other issues of timing that seem at best unfortunate. For example, I might ask why Naz Malik was suspended from the Labour Party more than a week before he was sacked from his post at AWEMA. It gives the impression that action was taken to protect the Labour Party before action was taken to protect the public purse. At the very best, it seems—[*Interruption.*] It is not factually incorrect: 9 February to 17 February is the timeline; please feel free to check it. It appears to the public to be, at the very least, a very strange way of delivering priorities.

Finally, I would underscore the hidden impact of this scandal, as described by Vaughan Gething, namely the catastrophic damage that this situation has the potential to cause to the reputation of our hard-working third sector organisations in Wales. Phil Jarrold of the WCVA has said:

‘We also need to make sure that the vital contribution the third sector makes in Wales is not damaged by this individual case.’

Individually, however, I have been approached by those working on race equality projects in my region who are personally absolutely devastated by the impact of what has happened on their personal and professional reputations and the reputations of the companies and organisations that they work for. They are absolutely devastated by what has happened, because they fear that it will make it harder for them to be taken seriously. It will make it harder for them to raise funds. It will make it harder for them to find volunteers. It will make it harder for them to engage with the public. It will make it harder for them to

i'r amlwg. A dweud y gwir rwyf yn rhyfeddu ei bod yn dal yn y gadair ar ôl yr ail adroddiad damniol hwn, a'i bod yn gyfrifol am ddod ag ef i ben a chladdu'r cyrff. Mae'r amserlen o ran gweithredu ar y mater hwn hefyd yn achosi cryn bryder i mi. Gan roi o'r neilltu'r ffaith i'r Llywodraeth ddatgelu ei hadroddiad am 4 p.m. ar ddiwrnod olaf y tymor, gan amddifadu'r Siambwr hon o'r cyfle i graffu ar y sefyllfa'n effeithiol, a gan orfodi meinciau'r wrthblaid i gyflwyno dadl. Ceir materion eraill sy'n ymwneud ag amseru sy'n ymddangos ar y gorau'n anffodus. Er enghraifft, efallai byddwn yn gofyn pam gafodd Naz Malik ei wahardd dros dro o'r Blaid Lafur dros wythnos cyn iddo gael ei ddiswyddo o'i swydd yn AWEMA. Mae'n rhoi'r argraff bod camau wedi cael eu cymryd i amddiffyn y Blaid Lafur cyn cymryd camau i amddiffyn y pwrs cyhoeddus. Ar y gorau, mae'n ymddangos yn—[*Torri ar draws.*] Nid yw'n ffeithiol anghywir: 9 Chwefror a 17 Chwefror yw'r dyddiadau; mae croeso i chi wirio hynny. Mae'n ymddangos i'r cyhoedd, o leiaf, yn ffordd ryfedd iawn o gyflawni blaenoriaethau.

Yn olaf, byddwn yn tanlinellu effaith gudd y sgandal hwn, fel y'i disgrifiwyd gan Vaughan Gething, sef y difrod trychinebus y gallai'r sefyllfa hon ei achosi i enw da ein sefydliadau trydydd sector gweithgar yng Nghymru. Mae Phil Jarrold o WCVA wedi dweud:

Mae angen inni hefyd sicrhau nad yw cyfraniad hanfodol y trydydd sector yng Nghymru yn cael ei ddifrodi gan yr un achos hwn.

Yn unigol, fodd bynnag, mae'r rheini sy'n gweithio ar brosiectau cydraddoldeb hiliol yn fy rhanbarth wedi cysylltu â mi oherwydd eu bod wedi torri eu calonnau yn sgîl effaith yr hyn sydd wedi digwydd ar eu henw da personol a phroffesiynol ac enw da'r cwmnïau a'r sefydliadau maent yn gweithio iddynt. Mae'r hyn sydd wedi digwydd wedi torri eu calonnau oherwydd mae arnynt ofn y bydd yn ei gwneud yn anoddach iddynt gael eu cymryd o ddifrif. Bydd yn ei gwneud yn anoddach iddynt godi arian. Bydd yn ei gwneud yn anoddach iddynt ddod o hyd i wirfoddolwyr. Bydd yn ei gwneud yn anoddach iddynt ymgysylltu â'r cyhoedd.

demonstrate to the public of Wales the value of the work that they do, because they fear that they have been tainted by this frankly rather dirty brush. I would therefore ask the Minister, if she is going to respond fully to the debate, to tell the Chamber what she will do now to ensure that the dignity and respect of Wales's third sector, and the regard that we have for it, can be restored after this fiasco.

Darren Millar: I wish to make it clear that I am speaking in this debate in my capacity as Chair of the Public Accounts Committee, which I believe has a very important role going forward in ensuring that public money is protected and that lessons are indeed learned from the situation at AWEMA. We are in a time of pretty difficult economic hardship, and it is critical that taxpayers' money is spent properly.

I first became aware of the problems at AWEMA when a constituent of mine, who had been a member of the organisation's board of trustees, gave me a set of documents that were, frankly, alarming. Of course, I referred the matter straight to the Auditor General for Wales.

It is important to remember that a number of people are investigating the situation at AWEMA at the moment. It is unfair to expect the Welsh Government to take a role in actively looking in detail at the governance arrangements of any charity that it works with on a daily basis. I am therefore pleased that the Charity Commission has launched a statutory inquiry into the governance arrangements at AWEMA. It is absolutely right that it has done that. I am also pleased that South Wales Police has confirmed in correspondence that it is working with the Government on its investigation, and is liaising with the Crown Prosecution Service regarding any elements of criminality that may emerge as a result of that particular investigation.

Members may or may not be aware that the Public Accounts Committee is considering a report from the Wales Audit Office that was published late last year, as Aled has

Bydd yn ei gwneud yn anoddach iddynt ddangos gwerth y gwaith maent yn ei wneud i gyhoedd Cymru, oherwydd eu bod yn ofni eu bod wedi cael eu llygru gan y brwsh hwn sydd braidd yn fudr a dweud y gwir. Byddwn felly'n gofyn i'r Gweinidog, os yw am ymateb yn llawn i'r ddadl, ddweud wrth y Siambr beth fydd yn ei wneud yn awr i sicrhau bod modd adfer urddas a pharch trydydd sector Cymru, a'r parch sydd gennym ato, ar ôl y llanast hwn.

Darren Millar: Carwn egluro fy mod yn siarad yn y ddadl hon yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Credaf fod gan y pwyllgor hwnnw swyddogaeth bwysig iawn wrth fynd ymlaen i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod gwersi'n cael eu dysgu o'r sefyllfa yn AWEMA. Rydym mewn cyfnod o galedi economaidd eithaf anodd, ac mae'n hanfodol bod arian trethdalwyr yn cael ei wario'n briodol.

Cefais wybod am y problemau yn AWEMA yn gyntaf pan gefais set o ddogfennau gan un o'm hetholwyr a oedd wedi bod yn aelod o fwrdd ymddiriedolwyr y sefydliad. A dweud y gwir cefais fy nychryn gan y dogfennau hynny. Wrth gwrs, cyfeiriaais y mater ar unwaith at Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'n bwysig cofio bod nifer o bobl yn ymchwilio i'r sefyllfa yn AWEMA ar hyn o bryd. Mae'n annheg disgwyl i Lywodraeth Cymru gymryd rhan weithredol yn y gwaith o edrych yn fanwl ar drefniadau llywodraethu unrhyw elusen mae'n gweithio gyda hi o ddydd i ddydd. Yr wyf yn falch, felly, bod y Comisiwn Elusennau wedi lansio ymchwiliad statudol i'r trefniadau llywodraethu yn AWEMA. Mae'n hollol iawn ei fod wedi gwneud hynny. Rwyf hefyd yn falch bod Heddlu De Cymru wedi cadarnhau mewn gohebiaeth ei fod yn gweithio gyda'r Llywodraeth ar ei hymchwiliad, ac yn cysylltu â Gwasanaeth Erlyn y Goron ynglŷn ag unrhyw elfennau o droseddoldeb a all ddod i'r amlwg o ganlyniad i'r ymchwiliad penodol hwnnw.

Efallai fod yr Aelodau'n gwybod bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn hwyr y llynedd, fel y

mentioned, and is undertaking an inquiry into grants management in Wales as a result. Our work, looking at that report and taking further evidence, gives us the opportunity to look at the 2012 report, which has just been published, in a little more detail—not directly with Ministers, of course, because that would be inappropriate, but certainly with the Permanent Secretary. I have to say, as Chair of the committee, that the Permanent Secretary has been extremely forthcoming and helpful in allowing us to ask questions, and she has kept the committee fully informed of developments as they have been occurring on the ground. Indeed, it was at a Public Accounts Committee meeting that she confirmed that AWEMA should have been regarded as a high-risk organisation following the publication of the report in 2004. I know that that is a matter of regret for the Permanent Secretary, and she will be prepared to answer some questions at a further meeting that will be convened as an evidence session on the subject of AWEMA.

Turning briefly to the ongoing investigation by the Wales Audit Office, one thing that I am pleased about is that the scope of the current investigation goes right back to the start, when AWEMA began in 1999, and it will be able to look at every single penny that has been given to the organisation, going right back to the point at which the clock started. It is appropriate that it has a wide scope and considers the relationship between the Welsh Government and the organisation, as well as the relationship between any other funders and the organisation, in the fullest sense, because we have to learn lessons from the situation that is emerging. It is concerning, and we have to make sure that problems do not recur in future.

In closing, I will just say that the Public Accounts Committee takes this matter very seriously, and we are looking forward to taking further evidence from the Permanent Secretary as part of our grants management inquiry. On the subject of AWEMA, we recognise that the Wales Audit Office is unlikely to report on its investigations for some time, but once a report is laid, we will obviously look at that in detail and bring a discussion back to this Assembly as a result.

dywedodd Aled, ac yn cynnal ymchwiliad i reoli grantiau yng Nghymru o ganlyniad i hynny. Mae ein gwaith, sef edrych ar yr adroddiad a chael rhagor o dystiolaeth, yn rhoi'r cyfle i ni edrych yn fanylach ar adroddiad 2012, sydd newydd gael ei gyhoeddi—nid yn uniongyrchol gyda Gweinidogion, wrth gwrs, oherwydd byddai hynny'n amhriodol, ond yn sicr gyda'r Ysgrifennydd Parhaol. Rhaid i mi ddweud, fel Cadeirydd y pwyllgor, fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi bod yn barod iawn i helpu drwy ganiatáu i ni ofyn cwestiynau, ac mae wedi hysbysu'r pwyllgor am y datblygiadau wrth iddynt ddigwydd ar lawr gwlad. A dweud y gwir, yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus cadarnhaodd y dylid ystyried AWEMA fel sefydliad risg uchel ar ôl cyhoeddi'r adroddiad yn 2004. Gwn fod hynny'n destun gofid i'r Ysgrifennydd Parhaol, a bydd yn barod i ateb rhai cwestiynau mewn cyfarfod pellach a drefnir fel sesiwn dystiolaeth ar AWEMA.

Gan droi'n sydyn at yr ymchwiliad parhaus gan Swyddfa Archwilio Cymru, un peth sy'n galonid i mi yw bod cwmpas yr ymchwiliad cyfredol yn mynd yn ôl i'r dechrau, pan ddechreuodd AWEMA yn 1999, a bydd yn gallu edrych ar bob un geiniog sydd wedi cael ei rhoi i'r sefydliad, gan fynd yn ôl at y pwynt y dechreuodd y cloc. Mae'n briodol bod ganddo gwmpas eang a'i fod yn ystyried y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliad, yn ogystal â'r berthynas rhwng unrhyw gyllidwyr eraill a'r sefydliad, yn yr ystyr lawnaf, oherwydd rhaid inni ddysgu gwersi o'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg. Mae'n destun pryder, a rhaid i ni wneud yn siŵr na fydd problemau'n digwydd eto yn y dyfodol.

Wrth gloi, rwyf am ddweud bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cymryd y mater hwn o ddifrif, ac rydym yn edrych ymlaen at gael rhagor o dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol fel rhan o'n hymchwiliad i reoli grantiau. Wrth drafod AWEMA, rydym yn cydnabod bod Swyddfa Archwilio Cymru yn annhebyg o adrodd ar ei hymchwiliadau am beth amser, ond ar ôl gosod adroddiad, byddwn yn amlwg yn edrych yn fanwl ar hwnnw ac yn dod â thrafodaeth yn ôl i'r Cynulliad hwn o ganlyniad i hynny.

Mike Hedges: As Darren Millar just said, all members of the Public Accounts Committee take this matter seriously and will do what is necessary regarding grants funding.

This debate would have been better had it been conducted following the result of the auditor general's investigation, which incidentally I believe that I was the first to request. I do not want to talk directly about AWEMA, but about the organisations that have had their funding channelled through AWEMA, some of which are in the Swansea area. These organisations have done nothing wrong, and neither have they been accused of doing anything wrong. They provide much-needed services in our community, yet several of them are concerned about their future, as are those employed by them, and those who receive the services. Can the Minister give these organisations any assurances that the funding for the good work that they are doing will continue? People are getting very hung up on rhetoric on this, but the reality is that there is a lot of good work being done out there, and we do not want to see it lost because of what is happening regarding one organisation.

Bethan Jenkins: I want to discuss the equality policy unit and to question some of the aspects of the 2004 report. In making its recommendations, the report stated:

'Due to the EPU's lack of project scrutiny and flexibility, AWEMA's approach to project management had been hindered rather than helped. It is not known at this present time whether the EPU has taken the same approach with the other umbrella organisations, or what the motivation may have been for adopting this particular approach. Based on the evidence viewed, we can only surmise that the EPU was systematic in its lack of management of all the projects that it had responsibility for'.

5.30 p.m.

It is interesting that the report's authors use

Mike Hedges: Fel y mae Darren Millar newydd ei ddweud, mae pob aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cymryd y mater hwn o ddifrif a byddwn yn gwneud yr hyn mae ei angen ei wneud mewn perthynas â chyllid grantiau.

Byddai'r ddadl hon wedi bod yn well petai wedi cael ei chynnal ar ôl cael canlyniad ymchwiliad yr archwilydd cyffredinol, gyda llaw rwyf yn credu mai fi oedd y cyntaf i ofyn am hynny. Nid wyf am siarad yn uniongyrchol am AWEMA, ond am y sefydliadau y mae eu cyllid wedi cael ei sianelu drwy AWEMA, rhai ohonynt yn ardal Abertawe. Nid yw'r sefydliadau hyn wedi gwneud dim byd o'i le, ac nid ydynt wedi cael eu cyhuddo o wneud unrhyw beth o'i le. Maent yn darparu gwasanaethau mawr eu hangen yn ein cymuned, ac eto mae nifer ohonynt yn pryderu am eu dyfodol, yn yr un modd â'r rheini a gyflogir ganddynt, a'r rheini sy'n derbyn y gwasanaethau. A all y Gweinidog roi unrhyw sicrwydd i'r sefydliadau hyn y bydd y cyllid ar gyfer y gwaith da maent yn ei wneud yn parhau? Mae pobl yn canolbwyntio ar rethreg ynghylch hyn, ond y gwir amdani yw bod llawer o waith da'n cael ei wneud ar lawr gwlad, ac nid ydym am weld ei golli oherwydd yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas ag un sefydliad.

Bethan Jenkins: Rwyf am drafod yr uned polisi cydraddoldeb a chwestiynu rhai agweddau ar adroddiad 2004. Wrth wneud ei argymhellion, nododd yr adroddiad:

Oherwydd diffyg hyblygrwydd a chraffu ar brosiectau'r uned polisi cydraddoldeb, cafodd agwedd AWEMA at reoli prosiectau ei llesteirio yn hytrach na'i helpu. Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a yw'r uned polisi cydraddoldeb wedi defnyddio'r un agwedd gyda'r sefydliadau ambarél eraill, na beth oedd y cymhelliant dros fabwysiadu'r agwedd benodol hon. Ar sail y dystiolaeth a welwyd, y cyfan gallwn ei wneud yw casglu bod yr undeb polisi cydraddoldeb yn systematig yn ei diffyg rheolaeth o'r holl brosiectau roedd yn gyfrifol amdanynt.

Mae'n ddiddorol bod awduron yr adroddiad

the word 'systematic', because following an inquiry that started in 2003, the Committee on Equality of Opportunity's report into mainstreaming equality made this recommendation:

'We recommend that the Assembly Government clarifies the role of the Equality Policy Unit, in particular who it reports and provides advice to.'

Minister, in your response to the report, as the Minister with responsibility for this area at the time, dated January 2005, you did not address this recommendation specifically, but grouped it with others and promised equality champions in all Welsh Government departments. In addition, in an update report to the Committee on Equality of Opportunity in 2005, no mention was made of this recommendation or of any way of improving the scrutiny of the EPU. I do not want to put words in your mouth, but you may say that that scrutiny was already being carried out, that processes were already in place and that it was not the purpose of the 2005 update, but it is worrying that this update concerned itself with the considerable widening of the EPU powers and remit, with spending implications attached, but, from what I have seen in the report, diligence was not applied to this particular widening of remit. The EPU's draft work plan of 2000 devoted a section to evaluation, proposing annual reports to the Assembly on progress and the identification of specific data collection requirements relating to key targets. Yet, when we my office looked for a report relating to the unit's performance, astonishingly there was none to be found in the public domain.

In view of such information, and given the central role that the equality policy unit played in promoting equality, does the Minister agree that what has happened with AWEMA could be regarded as fruit of a poisoned tree and that, as such, the Welsh Government has played a pivotal role in failing to introduce a culture of rigour where public money is concerned? Does the Minister agree that, if that is the case, it is

yn defnyddio'r gair 'systematig', oherwydd yn dilyn ymchwiliad a ddechreuwyd yn 2003, roedd adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar brif ffrydio cydraddoldeb wedi gwneud yr argymhelliad hwn:

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth y Cynulliad yn egluro swyddogaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb, yn enwedig pwy mae'n adrodd iddynt a phwy mae'n rhoi cyngor iddynt.

Weinidog, yn eich ymateb i'r adroddiad dyddiedig Ionawr 2005, a chithau'n Weinidog â chyfrifoldeb am y maes hwn ar y pryd, ni aethoch i'r afael â'r argymhelliad hwn yn benodol, ond ei grwpio gydag argymhellion eraill ac addo hyrwyddwyr cydraddoldeb yn holl adrannau Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, mewn adroddiad diweddarar i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn 2005, ni soniwyd am yr argymhelliad hwn nac am unrhyw ffordd o wella gwaith craffu'r uned polisi cydraddoldeb. Nid oes arnaf eisiau rhoi geiriau yn eich ceg, ond gallech chi ddweud bod y craffu eisoes yn cael ei wneud, bod prosesau eisoes ar waith ac nad dyna oedd diben diweddariad 2005, ond mae'n destun pryder bod y diweddariad hwn yn ymwneud ag ehangu cylch gwaith a phwerau'r uned polisi cydraddoldeb yn sylweddol, a bod goblygiadau gwariant ynghlwm wrth hynny, ond, o'r hyn rwyf wedi'i weld yn yr adroddiad, ni ddefnyddiwyd diwydrwydd wrth ehangu'r cylch gwaith. Roedd cynllun gwaith drafft yr uned polisi cydraddoldeb ar gyfer 2000 wedi neilltuo adran i werthuso, gan gynnig adroddiadau blynyddol i'r Cynulliad ar gynnydd a nodi gofynion casglu data penodol a oedd yn ymwneud â thargedau allweddol. Eto i gyd, pan edrychodd fy swyddfa am adroddiad yn ymwneud â pherfformiad yr uned, yn rhyfeddol nid oedd adroddiad ar gael i'r cyhoedd.

O ystyried gwybodaeth o'r fath, ac o ystyried y swyddogaeth ganolog y mae'r uned polisi cydraddoldeb wedi'i chwarae yn hyrwyddo cydraddoldeb, a yw'r Gweinidog yn cytuno y gellid gweld yr hyn sydd wedi digwydd yn AWEMA fel ffrwyth coeden wenwynig ac, o'r herwydd, bod Llywodraeth Cymru wedi chwarae rhan ganolog drwy fetu â chyflwyno diwylliant o drylwyredd yng nghyswllt arian cyhoeddus? A yw'r

view water differently. After two years of way below average rainfall across the UK, we are facing severe water shortages this summer if nothing changes. This situation is probably not going to get any better over the decades to come, and the likelihood is that it will get worse. However, the proverbial cloud has a silver lining for our corner of this island. There is much debate about the mechanisms for moving large quantities of water from the wetter parts of the UK to the parched south-east.

It is refreshing that, in contrast to normal arguments about what Wales does not have, when it comes to water Wales has an increasingly valuable resource. It is the responsibility of all of us in this Chamber, and outside it, to ensure that this is not squandered, but turned to Wales's best advantage. Not to do so would be negligent.

According to Welsh Water, our water resource position is normal for this time of year, and our reservoirs in Wales are 98% full. Currently, there are 64 operational impounding reservoirs run by Dŵr Cymru Welsh Water, supplying approximately 2.7 million people with the equivalent of 308 Olympic-sized swimming pools of water every day. Fourteen of these reservoirs are open to the public and provide recreation facilities on or around their shores, as do our canals and coastlines. While water is working for us, reservoirs are providing diverse leisure opportunities for local people to enjoy.

The Scottish Government is taking a completely new approach to water, recognising it as one resource, breaking down the previous barriers between different areas of water policy. This is an innovative approach; time will tell if it pays off. However, we should be watching closely in Wales. The restoration of waterways in Scotland has been key to regeneration policy. With the opening of the Millennium Link, created by the reopening of the Forth and Clyde and Union canals, an initial investment of £100 million has generated £342 million of private sector inward investment, and over

rheid i ni ddechrau edrych ar ddŵr yn wahanol. Ar ôl dwy flynedd lle gwelwyd llawer llai na'r lefel gyfartalog o law ar draws y DU, rydym yn wynebu prinder dŵr difrifol yr haf hwn os na fydd newid. Mae'n debyg na fydd y sefyllfa hon yn gwella dros y degawdau i ddod, ac mae'n debyg y bydd yn gwaethygu. Fodd bynnag, mae'r haul yn gwenu ar y gornel hon o'r ynys o'r tu ôl i'r cwmwl. Ceir llawer o ddadlau am y mecanweithiau ar gyfer symud llawer iawn o ddŵr o rannau gwlypach y DU i'r deddwyrain cras.

Mae'n braf bod gan Gymru adnodd sy'n cynyddu yn ei werth, sy'n wahanol i'r dadleuon arferol am yr hyn nad oes gennym yng Nghymru. Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom yn y Siambr hon, a'r tu allan iddi, sicrhau nad yw hwn yn cael ei wastraffu, ond yn cael ei droi yn un o fanteision gorau Cymru. Byddai peidio â gwneud hynny'n esgeulus.

Yn ôl Dŵr Cymru, mae ein sefyllfa o ran anodd dŵr yn arferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae ein cronfeydd dŵr yng Nghymru 98% yn llawn. Ar hyn o bryd, mae Dŵr Cymru Welsh Water yn rhedeg 64 o gronfeydd cronni dŵr gweithredol, gan gyflenwi tua 2.7 miliwn o bobl â'r hyn sy'n cyfateb i lond 308 pwll nofio maint Olympaidd o ddŵr bob dydd. Mae pedwar ar ddeg o'r cronfeydd dŵr hyn ar agor i'r cyhoedd ac yn darparu cyfleusterau hamdden ar eu glannau neu o'u cwmpas, fel y mae ein camlesi a'n harfordiroedd yn ei wneud. Wrth i ddŵr weithio i ni, mae cronfeydd dŵr yn darparu cyfleoedd hamdden amrywiol i bobl leol eu mwynhau.

Mae Llywodraeth yr Alban yn cymryd agwedd hollol newydd at ddŵr, gan ei gydnabod fel un adnodd, a chwalu'r rhwystrau blaenorol rhwng gwahanol feysydd o bolisi dŵr. Mae hon yn agwedd arloesol; amser a ddengys a fydd yn werth chweil. Fodd bynnag, dylem fod yn cadw llygad barcud ar hyn yng Nghymru. Mae adfer dyfrffyrdd yn yr Alban wedi bod yn allweddol i bolisi adfywio. Mae agor y Millennium Link, a grëwyd drwy ailagor camlesi Forth and Clyde ac Union, buddsoddiad cychwynol gwerth £100 miliwn, wedi cynhyrchu £342 miliwn o

5,200 new jobs. Water can, quite literally, give new life to an area.

The Falkirk wheel, an iron boat lift that connects that Forth and Clyde and Union canals in Scotland, is a perfect example of how, with a bit of invention, a canal can help boost its visitor numbers and transform an area's fortunes. It is a fantastic visit, if you get the chance. The wheel is 35m tall and does the same job, in one motion, that a series of 11 locks spread over 1.5 km did before its completion. It uses the Archimedes principle of displacement and is exceptionally fuel-efficient. In fact, it uses only the equivalent of the power required to boil eight kettles to complete one rotation.

Here in Wales, we can learn from Scotland to achieve similar benefits and encourage the Government and the private sector to work closely together to deliver these results. Reconnecting our waterways to their original destinations could help to transform communities and attract inward investment similar to that north of the border. It would not take much in Wales to connect the Neath and Tennant canals to the Swansea canal, to link the cities to the Valleys or to open up a link to the sea at the southern end of the Monmouthshire and Brecon canal. With a bit of imaginative thinking, we can do the same here as is happening north of the border.

As a number of you will know, I chair the cross-party group on waterways. That group is over 30 meetings old. It was originally established by Brian Hancock, a Plaid Assembly Member, back in the first Assembly. Indeed, at our last meeting a fortnight ago, it was great to see Brian there, still maintaining his interest in the waterways of Wales and reminding us of his infamous 'I have a dream' speech. Those of you who were there will remember it well. It has now passed into Assembly mythology. I was going to quote a bit of it, but I do not think that I would capture the original spirit; I can see that William Graham is keen to move on from the memory of that speech. That is not to say that it was not a fantastic speech,

fewnfuddsoddiad sector preifat, a dros 5,200 o swyddi newydd. Yn llythrennol mae dŵr yn gallu rhoi bywyd newydd i ardal.

Mae olwyn Falkirk, sef lifft cychod haearn sy'n cysylltu camlesi Forth and Clyde ac Union yn yr Alban, yn enghraifft berffaith o sut, gydag ychydig o ddyfeisgarwch, gall camlas helpu i roi hwb i nifer yr ymwelwyr a gweddnewid ffyniant ardal. Mae'n ymweliad ffantastig os cewch chi'r cyfle. Mae'r olwyn yn 35m o uchder ac yn gwneud yr un gwaith, mewn un symudiad, ag y byddai cyfres o 11 o lociau yn ymestyn dros 1.5 km wedi'i wneud cyn iddi gael ei chwblhau. Mae'n defnyddio egwyddor dadleoli Archimedes ac mae'n eithriadol o effeithlon o ran tanwydd. A dweud y gwir, mae un cylchdro'n defnyddio'r un faint o bŵer ag sydd ei angen i ferwi wyth tegell.

Yma yng Nghymru, gallwn ddysgu o'r Alban i gyflawni manteision tebyg ac annog y Llywodraeth a'r sector preifat i weithio'n agos gyda'i gilydd i gyflawni'r canlyniadau hyn. Gallai ailgysylltu ein dyfrffyrdd i'w cyrchfannau gwreiddiol helpu i weddnewid cymunedau a denu mewnfuddsoddiad tebyg i'r hyn welwyd i'r gogledd o'r ffin. Ni fyddai'n cymryd llawer yng Nghymru i gysylltu camlesi Castell-nedd a Thennant â chamlas Abertawe, gan gysylltu'r dinasoedd â'r Cymoedd neu i agor cysylltiad i'r môr ym mhen deheuol camlas Mynwy ac Aberhonddu. Drwy ddefnyddio ein dychymyg, gallwn wneud yr un peth yma ag sy'n digwydd i'r gogledd o'r ffin.

Fel y bydd nifer ohonoch yn gwybod, rwyf yn gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar ddyfrffyrdd. Mae'r grŵp hwnnw eisoes wedi cael dros 30 o gyfarfodydd. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol gan Brian Hancock, Aelod Cynulliad Plaid Cymru, yn ôl yn y Cynulliad cyntaf. A dweud y gwir, yn ein cyfarfod diwethaf bythefnos yn ôl, roedd yn wych gweld Brian yno, yn dal i gynnal ei ddiddordeb yn nyfrffyrdd Cymru ac yn ein hatgoffa o'i araith 'mae gen i freuddwyd' enwog. Bydd y rheini ohonoch a oedd yno yn ei chofio'n dda. Mae bellach yn rhan o fytholeg y Cynulliad. Roeddwn am ddyfynnu rhan ohoni, ond nid wyf yn meddwl y byddwn yn dal yr ysbryd gwreiddiol; gallaf weld bod William Graham yn awyddus i

which launched a group that has been accepted since then as key to progressing waterways across Wales.

The four canals in Wales are steeped in the industrial history of the areas that they once served. Let us not forget that, for a relatively short period of our history, the canals of Britain were like a modern-day motorway system, with raw materials and manufactured goods transported to the sea ports that served the then empire. Unlike canals in England, south Wales canals were never designed to form a network, but built to move coal and iron ore down the steep valleys to the ports on the Severn. This lack of a link to the main network means that maintaining and promoting Welsh canals presents different challenges.

As we know, today, they have a different role to play in leisure and tourism. The canals in Wales are already one of the most accessible and well used facilities for recreation and tourism, but they remain underexploited. The latest figures from British Waterways show that more than 7.5 million waterway visits are made to Welsh canals every year. Although 96% of their use is on tow paths, there are actually more boats using them than was the case during the freight-transporting heyday two centuries ago. I found it amazing when I read that statistic. Welsh canals are world-renowned due to their ability to combine natural, built and social heritage. However, they are extremely expensive. Over the last two centuries, the Monmouthshire and Brecon canal has faced a series of challenges, including a major breach occurring near Abergavenny in 2007. The repair bill approached £15 million. It is hoped that the new charity will be able to prioritise and maximise the financial potential of waterways. The Monmouthshire and Brecon canal alone supports 390 full-time equivalent jobs. If fully restored, it could create a further 129 jobs as well as acting as a regeneration catalyst for Cwmbran and Newport. A new link is needed in Cwmbran where, sadly, in the 1960s, a great deal of destruction of the

symud ymlaen o'r atgof am yr araith honno. Nid yw hynny'n golygu nad oedd yn araith wych, a lansiodd grŵp sydd wedi cael ei dderbyn ers hynny fel grŵp allweddol i ddatblygu dyfrffyrdd ledled Cymru.

Mae'r pedair camlas yng Nghymru yn gyforiog o hanes diwydiannol yr ardaloedd yr oeddent yn arfer eu gwasanaethu. Gadewch inni beidio ag anghofio, am gyfnod cymharol fyr o'n hanes, bod camlesi Prydain yn debyg i system draffordd fodern, gyda deunyddiau crai a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu'n cael eu cludo i'r porthladdoedd môr a oedd yn gwasanaethu'r ymerodraeth bryd hynny. Yn wahanol i gamlesi yn Lloegr, nid oedd camlesi Cymru erioed wedi cael eu cynllunio i greu rhwydwaith. Cawsant eu hadeiladu i gludo glo a mwyn haearn i lawr y dyffrynnoedd serth i'r porthladdoedd ar Afon Hafren. Mae'r diffyg cyswllt â'r prif rwydwaith yn golygu bod cynnal a hyrwyddo camlesi Cymru yn cyflwyno sialensiau gwahanol.

Fel y gwyddom, heddiw, maent yn chwarae rhan wahanol o ran hamdden a thwristiaeth. Mae'r camlesi yng Nghymru eisoes yn un o'r cyfleusterau mwyaf hygyrch a mwyaf poblogaidd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, ond nid ydym yn manteisio digon arnynt. Mae'r ffigurau diweddaraf gan Ddyfrffyrdd Prydain yn dangos bod dros 7.5 miliwn o bobl yn ymweld â chamlesi Cymru bob blwyddyn. Er bod 96% o'r defnydd a wneir ohonynt ar lwybrau halio, mewn gwirionedd mae mwy o gychod yn eu defnyddio nawr nag oedd yn gwneud yn ystod oes aur cludo nwyddau ddwy ganrif yn ôl. Cefais fy rhyfeddu pan ddarllenais yr ystadegyn hwnnw. Mae camlesi Cymru yn fyd-enwog oherwydd eu bod yn cyfuno treftadaeth naturiol, adeiledig a chymdeithasol. Fodd bynnag, maent yn hynod o ddrud. Dros y ddwy ganrif ddiwethaf, mae camlas Mynwy ac Aberhonddu wedi wynebu cyfres o sialensiau, gan gynnwys pan ddisgynnodd darn mawr o'r wal ger y Fenni yn 2007. Roedd y gwaith atgyweirio wedi costio'n agos at £15 miliwn. Y gobaith yw y bydd yr elusen newydd yn gallu blaenoriaethu a chynyddu potensial ariannol dyfrffyrdd. Mae camlas Mynwy ac Aberhonddu ei hun yn cefnogi 390 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Petai'n cael ei hadfer yn llawn, gallai

original canal occurred.

Such is the profile of the Monmouthshire and Brecon canal that it is celebrated by four ales designed by the Brecon Brewing company. These will be delivered to various pubs along the banks of the canal in the traditional way, by barge. I will be in one of those pubs to ensure that it is received in the traditional fashion. On the subject of pubs and their links to waterways, the Coach and Horses in Llangynidr, just outside Crickhowell, gets 60% of its custom from the canal—an example of how closely entwined businesses and our waterways have become.

In north Wales, a traditional use of canals to move water remains. The Llangollen canal is used to supply water to Kronospan in Chirk, providing water to a site that was not on a river course. There are also the environmental savings of taking people out of their cars and getting them onto their bikes to get to school, town or even their local pub or services by maximising the use of canals and their tow paths. With the new charity taking over later this year, I hope that the freedom from Government control will help achieve such an aim. British Waterways has been an excellent organisation and very worthy guardians of our wonderful waterways. I am confident that Glandwr Cymru will continue its good work, build upon it and help to preserve the waterways of Wales from many years to come.

I look forward to working closely with Andrew Strumpf, the head of regeneration for British Waterways in Wales and the west, who has been an excellent champion. I would warn you that it was Andrew who took me and my researcher on a speedboat tour of the waterways around the London 2012 Olympic site last summer. I would recommend that, if anyone of you ever take this up, when he advises you to wear waterproof clothing, do so, because our suits were not worth the

greu 129 o swyddi eraill yn ogystal â bod yn gatalydd ar gyfer adfywio Cwmbrân a Chasnewydd. Mae angen cyswllt newydd yng Nghwmbrân, oherwydd cafodd llawer o'r gamlas wreiddiol ei dinistrio yn y 1960au yn anffodus.

Mae proffil camlas Mynwy ac Aberhonddu mor uchel ei bod yn cael ei dathlu gan bedwar cwrw a gynlluniwyd gan gwmni Bragu Aberhonddu. Caiff y rhain eu danfon i dafarndai amrywiol ar hyd glannau'r gamlas yn y ffordd draddodiadol, ar gwch camlas. Byddaf yn un o'r tafarndai hynny i sicrhau ei fod yn cael ei dderbyn yn y dull traddodiadol. Wrth sôn am dafarndai a'u cysylltiadau â dyfrffyrdd, bydd y Coach and Horses yn Llangynidr, dafliaid carreg o Grughywel, yn cael 60% o'i gwsmeriaid o'r gamlas—enghraifft o ba mor agos yw busnesau a'n dyfrffyrdd.

Yng ngogledd Cymru, mae camlesi'n dal i gael eu defnyddio yn y ffordd draddodiadol sef i symud dŵr. Mae camlas Llangollen yn cael ei defnyddio i gyflenwi dŵr i Kronospan yn y Waun, gan ddarparu dŵr i safle nad oedd ar gwrs afon. Ceir hefyd arbedion amgylcheddol drwy dynnu pobl allan o'u ceir ac ar eu beiciau i gyrraedd yr ysgol, y dref neu hyd yn oed eu tafarn neu eu gwasanaethau lleol drwy fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio camlesi a'u llwybrau halio. Gyda'r elusen newydd yn cymryd drosodd yn nes ymlaen eleni, rwyf yn gobeithio y bydd y rhyddid rhag rheolaeth y Llywodraeth yn helpu i gyrraedd y fath nod. Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi bod yn sefydliad rhagorol ac yn warcheidwaid teilwng iawn o'n dyfrffyrdd gwych. Rwyf yn hyderus y bydd Glandŵr Cymru yn parhau â'i waith da, gan adeiladu arno a helpu i ddiogelu dyfrffyrdd Cymru am flynyddoedd lawer i ddod.

Rwyf yn edrych ymlaen at weithio'n agos gydag Andrew Strumpf, pennaeth adfywio Dyfrffyrdd Prydain yng Nghymru a gorllewin Lloegr, sydd wedi bod yn hyrwyddwr ardderchog. Byddwn yn eich rhybuddio mai Andrew a aeth â mi a'm hymchwilydd ar daith gwch cyflym ar hyd y dyfrffyrdd o amgylch safle Olympaidd 2012 Llundain haf diwethaf. Byddwn yn argymhell, os caiff unrhyw un ohonoch gyfle i wneud hynny, eich bod yn gwrandao arno os yw'n eich

money that we paid for them after that visit.

cynghori i wisgo dillad gwrth-ddŵr, oherwydd nid oedd ein siwtiau werth yr arian roeddem wedi'i dalu amdanynt ar ôl yr ymweliad hwnnw.

6.00 p.m.

Our waterways have economic and leisure benefits, but there are also the renewable energy opportunities that water can be used for on our inland waterways. Many years ago, water mills were used to grind corn and provide power. Today, hydropower, harnessed in the right way, and without causing disruption to the local ecosystem, can help us to meet our energy needs for many years to come.

Mae manteision economaidd a hamdden yn perthyn i'n dyfrffyrdd, ond mae hefyd modd defnyddio dŵr ein dyfrffyrdd mewndirol ar gyfer cyfleoedd i greu ynni adnewyddadwy. Flynyddoedd yn ôl, roedd melinau dŵr yn cael eu defnyddio i falu ŷd ac i ddarparu pŵer. Heddiw, gall ynni dŵr ein helpu i ddiwallu ein hanghenion ynni am flynyddoedd i ddod os byddwn yn ei ddefnyddio yn y ffordd iawn, a heb amharu ar yr ecosystem leol.

Small hydropower generation is already being developed at the junction of the Montgomery canal and the River Severn and we can develop many more projects, both large and small. In Osbaston, Monmouth, in my constituency, one of my more pioneering constituents started out building a house and has now built a hydroelectric power station with two Archimedes' screws on the River Monnow in his back garden. That is an example of what can be done, even on a small scale.

Mae cynhyrchu ynni dŵr ar raddfa fach eisoes yn cael ei ddatblygu ar gyffordd camlas Maldwyn ac Afon Hafren a gallwn ddatblygu nifer o brosiectau eraill, yn fach ac yn fawr. Yn Osbaston, Mynwy, yn fy etholaeth, mae un o'm hetholwyr arloesol wedi dechrau adeiladu tŷ ac erbyn hyn mae wedi adeiladu gorsaf bŵer trydan dŵr gyda dwy sgrif Archimedes ar Afon Mynwy yn ei ardd gefn. Dyna enghraifft o'r hyn mae modd ei wneud, hyd yn oed ar raddfa fach.

I welcome the designation by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science of the Haven in Pembrokeshire as an enterprise zone recently. We are all aware of the importance of this part of the world in Pembrokeshire in supplying the natural gas needs for not only Wales, but much of the United Kingdom. This designation also shows more; it shows the importance of water to the economy. In the case of the Haven, one of the deepest natural harbours in the world, we can see how sea water and our natural harbours are being recognised for the potential that they have for developing our economy. I recently joined my colleague, Paul Davies, in a visit to the new power station just outside Pembrokeshire, where use is being made of the sea water from that part of the world to cool the turbines to produce electricity. That is another interesting and innovative use of water—sea water in this case.

Rwyf yn croesawu bod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi dynodi'r Hafan yn sir Benfro fel ardal fenter yn ddiweddar. Rydym i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd y rhan hon o'r byd yn sir Benfro o ran cyflenwi anghenion nwy naturiol nid yn unig ar gyfer Cymru, ond llawer o'r Deyrnas Unedig hefyd. Mae'r dynodiad hwn yn dangos mwy hefyd; mae'n dangos pa mor bwysig yw dŵr i'r economi. Yn achos yr Hafan, un o borthladdoedd naturiol dyfnaf y byd, gallwn weld sut y mae dŵr môr a'n porthladdoedd naturiol yn cael eu cydnabod am eu potensial ar gyfer datblygu ein heconomi. Yn ddiweddar, ymunais â fy nghyd-Aelod, Paul Davies, ar ymweliad â'r orsaf bŵer newydd tu allan i sir Benfro, lle defnyddir dŵr y môr o'r rhan honno o'r byd i oeri'r tyrbinau i gynhyrchu trydan. Mae honno'n ffordd arloesol a diddorol arall o ddefnyddio dŵr—dŵr môr yn yr achos hwn.

From canals to coastlines, green energy to reservoirs, water has always been an important part of our lives in Wales, but it is clearly becoming increasingly important in all aspects of our lives. I believe that we are witnessing the renaissance of a resource, and it falls on all of us here and the Welsh Government to do what we can to ensure that we really do capitalise on the most important resource of all.

William Powell: I thank Nick Ramsay for bringing forward this short debate today and for the energy that he brings to the chairing of the cross-party group. It took me back to just a week or so ago to a happy walk that my family and I had in the Llangynidr area, stopping off in the Coach and Horses to make our small contribution to the local economy; we received a very warm welcome there.

He has covered many of the points that I wished to raise. He referred to the amount of jobs that are linked to the Monmouthshire and Brecon canal. Across Wales, there are currently in excess of 800 jobs that owe their existence to our waterways. Waterways are all about bringing people together, both urban and rural, as well as the heritage aspects. It is summed up for me by the words of Judith Alfrey from Cadw, who said:

‘Our waterways are in many ways a prime example of storytelling in action that have perhaps been overlooked in the past.... We believe it can once again act as a bridge between the past and the future to create distinctive and sustainable places.’

Aled Roberts: Nick’s comments about reawakening are very real. I am here, with the permission of the local Member for Clwyd South, to extol the virtues of Pontcysyllte. Many think that it is a world heritage site just for the aqueduct itself, but it is actually a 14-mile area involving most of the Llangollen canal as it goes through north Shropshire, Wrexham and into Denbighshire. What has struck me in the discussions that we have had in the cross-party waterways groups is the difference in approach in England, Scotland and Wales. I hope that we will look to Scotland to learn some lessons about the work that it has been able to realise with regard to regeneration. Although Pontcysyllte

O gamlesi i arfordiroedd, o ynni gwyrdd i gronfeydd dŵr, mae dŵr bob amser wedi bod yn rhan bwysig o'n bywydau yng Nghymru, ond mae'n amlwg yn dod yn bwysicach ym mhob agwedd ar ein bywydau. Credaf ein bod yn gweld adfywiad adnodd, ac mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom yma ac ar Lywodraeth Cymru i wneud yr hyn y gallwn ei wneud i sicrhau ein bod yn wirioneddol fanteisio ar yr adnodd pwysicaf oll.

William Powell: Diolch i Nick Ramsay am gyflwyno'r ddadl fer hon heddiw ac am ei egni wrth gadeirio'r grŵp trawsbleidiol. Wrth iddo siarad cefais fy atgoffa o daith gerdded hapus gyda fy nheulu yn ardal Llangynidr ryw wythnos neu ddwy yn ôl, a stopio yn y Coach and Horses i wneud ein cyfraniad bach at yr economi leol; cawsom groeso cynnes iawn yno.

Mae wedi delio â llawer o'r pwyntiau roeddwn am eu codi. Cyfeiriodd at faint o swyddi sy'n gysylltiedig â chamlas Mynwy ac Aberhonddu. Ar draws Cymru ar hyn o bryd mae dros 800 o swyddi sy'n bodoli oherwydd ein dyfrffyrdd. Mae dyfrffyrdd yn ymwneud â dod â phobl at ei gilydd, yn drefol ac yn wledig, yn ogystal â'r agweddau treftadaeth. Caiff ei grisialu i mi gan eiriau Judith Alfrey o Cadw, a ddywedodd:

Mewn nifer o ffyrdd mae ein dyfrffyrdd yn enghraifft wych o adrodd straeon sydd efallai wedi cael eu hesgeuluso yn y gorffennol.... Rydym yn credu y gallant unwaith eto fod yn bont rhwng y gorffennol a'r dyfodol i greu mannau unigryw a chynaliadwy.

Aled Roberts: Mae sylwadau Nick am ailddeffro yn real iawn. Rwyf yma, gyda chaniatâd Aelod lleol De Clwyd, i ganu clodydd rhinweddau Pontcysyllte. Mae nifer o bobl yn meddwl ei fod yn safle treftadaeth y byd oherwydd y draphont ddŵr yn unig, ond mewn gwirionedd mae'n ardal 14 milltir o hyd sy'n cynnwys y rhan fwyaf o gamlas Llangollen wrth iddi fynd drwy ogledd sir Amwythig, Wrecsam ac i mewn i sir Ddinbych. Yr hyn sydd wedi fy nharo yn y trafodaethau a gawsom yn y grŵp trawsbleidiol ar ddyfrffyrdd yw'r gwahaniaeth rhwng y dull gweithredu yn Lloegr, yr Alban a Chymru. Rwyf yn gobeithio y byddwn yn edrych ar yr Alban i

already has in excess of 100,000 visitors, it is in an area that has suffered greatly in recent years from the closure of the Flexsys and Air Products sites. We have an opportunity if we look at the lessons from Scotland—

The Deputy Presiding Officer: Order. That is a minute.

Antoinette Sandbach: I will take up the baton from Aled Roberts and say that the lessons from Scotland would clearly bring demonstrable benefits to the Pontcysyllte site and, in particular, could give a great boost to regeneration in Cefn Mawr. I would also like to emphasise something that perhaps has not been emphasised yet, which is that canals are places where people live still and that it is vital, when looking at the roles of canals, and, in particular, at the potential regeneration of Cefn Mawr, that affordable berths for those living on canal boats are maintained. I know many people who use canal boats as a step up to eventually moving into rented or owned accommodation and it is vital that the history of canals as places in which to live, work and enjoy—all those aspects of waterways—continues. Indeed, at Pontcysyllte last week, I could see people both living and working on the canal, and I would like to put on record my thanks to Jones the boats.

The Deputy Presiding Officer: Order. With that, your minute is up.

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): I thank the Members who have contributed to this short debate, and who have remained here today for it, for recognising the importance of water and Nick Ramsay for bringing this matter to Plenary today. It is absolutely right to say that water has an important part to play in the Wales of today, as it has had in the history and development of Wales. I believe that water is valued by the people of our country, and it is important not only to the people living here but also to visitors, businesses and the ecosystems that it supports. I would very much like to echo the remarks of Members in this debate in recognising water's importance and the wide

ddysgu rhai gwersi am y gwaith y mae wedi gallu ei wneud o ran adfywio. Er bod Pontcysyllte eisoes yn cael dros 100,000 o ymwelwyr, mae'n ardal sydd wedi dioddef yn fawr yn y blynyddoedd diwethaf yn sgîl cau safleoedd Flexsys ac Air Products. Mae gennym gyfle os edrychwn ar y gwersi o'r Alban—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae hynny'n funud.

Antoinette Sandbach: Cymeraf y baton gan Aled Roberts a dweud y byddai'r gwersi o'r Alban yn amlwg yn dod â manteision clir i safle Pontcysyllte ac, yn benodol, gallai roi hwb mawr i adfywio yng Nghefn Mawr. Hoffwn hefyd bwysleisio rhywbeth nad yw efallai wedi cael ei bwysleisio eto, sef bod camlesi yn llefydd lle mae pobl yn dal i fyw. Wrth edrych ar swyddogaethau camlesi ac, yn benodol, y potensial i adfywio Cefn Mawr, mae'n hanfodol cynnal angorfeydd fforddiadwy ar gyfer y rheini sy'n byw ar gychod camlas. Rwyf yn adnabod nifer o bobl sy'n defnyddio cychod camlas fel cam i fyny at symud i lety ar rent neu brynu eiddo ac mae'n hanfodol bod hanes camlesi fel llefydd i fyw, i weithio ac i fwynhau—yr holl agweddau hynny ar ddyfrffyrdd—yn parhau. A dweud y gwir, ym Mhontcysyllte'r wythnos diwethaf, gallwn weld pobl yn byw ac yn gweithio ar y gamlas, a hoffwn gofnodi fy niolch i Jones y cychod.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gyda hynny, mae eich munud ar ben.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Rwyf yn diolch i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl fer hon, ac sydd wedi aros yma heddiw ar ei chyfer, am gydnabod pwysigrwydd dŵr ac i Nick Ramsay am ddod â'r mater hwn gerbron y Cyfarfod Llawn heddiw. Mae'n hollol iawn dweud bod gan ddŵr ran bwysig i'w chwarae yn y Gymru gyfoes, fel y mae wedi'i wneud yn hanes a datblygiad Cymru. Credaf fod dŵr yn cael ei werthfawrogi gan bobl ein gwlad, ac mae'n bwysig nid yn unig i'r bobl sy'n byw yma, ond hefyd i ymwelwyr, i fusnesau ac i'r ecosystemau y mae'n eu cefnogi. Hoffwn ategu sylwadau'r Aelodau yn y ddadl hon drwy gydnabod pwysigrwydd dŵr a'r ystod eang o fanteision

range of benefits that it brings and can bring. y gall arwain atynt.

Our programme for government sets out a clear objective to ensure that we make the best possible use, in the wider public interest, of our ultimate resources as a nation, namely land, water and air. To achieve that, we will implement policies and legislation that integrate the services and benefits that are part of that potential for wider benefit. The consultation that we are currently taking forward on 'Sustaining a Living Wales', our Green Paper for a natural environment framework, is very much about recognising those benefits and offering an opportunity for people and organisations in Wales to feed in their views, so that we have the maximum opportunity to get the policy right for the future.

A high-quality water environment encourages visitors to come to Wales and it offers a wide range of water-based recreational activities on our many scenic inland and coastal waters. It is also important for commercial and recreational fishing and for the people living in Wales in terms of quality of life, as well as attracting visitors. When it comes to the leisure and marine industry, it is estimated that the direct revenue of the leisure and small commercial marine industry in Wales is approximately £67 million per annum, with a value-added element of some £21 million. Those figures do not include the additional impact of visitor spend when participating in water-related recreation. Therefore, it makes an important contribution to the economy and the quality of life in Wales.

As a result of the investment that is being made in Wales, we are increasingly building fishing as an industry and for recreation here in terms of the people of Wales and their interest in angling. An estimated 1.7 million angling days are benefitting individual residents and visitors fishing in Wales on an annual basis. In turn, that is estimated to benefit the economy of Wales by around £74 million per annum.

Darren Millar: I am grateful that you have raised the issue of angling, Minister. You will be aware that there can sometimes be tensions between those people who want to

Mae ein rhaglen lywodraethu yn nodi amcan clir i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau fel cenedl, sef tir, dŵr ac aer er budd ehangach y cyhoedd. Er mwyn cyflawni hynny, byddwn yn gweithredu polisiau a deddfwriaeth sy'n integreiddio'r gwasanaethau a'r manteision sy'n rhan o'r potensial ar gyfer budd ehangach. Mae'r ymgynghoriad rydym yn ei ddatblygu ar hyn o bryd ar 'Cynnal Cymru Fyw', ein Papur Gwyrdd ar gyfer fframwaith amgylchedd naturiol, yn ymwneud llawer â chydabod y manteision hynny a chynnig cyfle i bobl ac i sefydliadau yng Nghymru gyflwyno eu safbwyntiau, er mwyn i ni gael y cyfle gorau posibl i gael y polisi'n iawn ar gyfer y dyfodol.

Mae amgylchedd dŵr o ansawdd uchel yn annog ymwelwyr i ddod i Gymru ac mae'n cynnig ystod eang o weithgareddau hamdden dŵr ar ein dyfroedd arfordirol a mewndirol godidog. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer pysgota masnachol a hamdden ac ar gyfer y bobl sy'n byw yng Nghymru o ran ansawdd bywyd, yn ogystal â denu ymwelwyr. Wrth ystyried y diwydiant hamdden a morol, amcangyfrifir bod refeniw uniongyrchol y diwydiant hamdden a morol masnachol bach yng Nghymru oddeutu £67 miliwn y flwyddyn, gydag elfen gwerth ychwanegol tua £21 miliwn. Nid yw'r ffigurau hynny'n cynnwys effaith ychwanegol gwariant ymwelwyr wrth gymryd rhan mewn hamdden sy'n gysylltiedig â dŵr. Felly, mae'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi ac i ansawdd bywyd yng Nghymru.

O ganlyniad i'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud yng Nghymru, rydym yn gwneud mwy o waith i adeiladu pysgota fel diwydiant ac ar gyfer hamdden o ran pobl Cymru a'u diddordeb mewn pysgota. Amcangyfrifir bod 1.7 miliwn o ddiwrnodau pysgota o fudd i drigolion unigol ac ymwelwyr sy'n pysgota yng Nghymru yn flynyddol. Maes o law, amcangyfrifir bod hyn werth tua £74 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.

Darren Millar: Rwyf yn ddiolchgar eich bod wedi sôn am bysgota, Weinidog. Byddwch yn gwybod y gall tensiynau fodoli weithiau rhwng y bobl hynny sydd am ddefnyddio

use inland waterways for angling and those who want to use it for other recreational purposes, such as canoeing. Could you give us an update on what the Welsh Government is doing to resolve those tensions?

John Griffiths: Indeed. I have met a number of groups involved in those tensions—and I think that it is fair to describe the situation as such. I will shortly be hosting a meeting of key players to try to ensure that we continue what I think has been fairly constructive engagement. Although there are issues, there is also recognition that we have to accommodate various interest groups when it comes to the use of our waterways, and that it is not at all impossible to achieve that sort of accommodation. We have suggested some ways forward, in conjunction with Environment Agency Wales and the Countryside Council for Wales, and we will continue with those efforts. I recognise that there are issues, but it is not at all impossible to achieve constructive ways forward. We will continue with that effort.

One important aspect of water quality in Wales is our bathing waters, and we have some very good progress to cite in that regard, around compliance with the bathing water directive and blue flag awards. I know that that is well recognised and appreciated. We also need to plan effectively for the future when it comes to our water resources. Nick mentioned some issues and concerns around water availability in the south-east of England at the moment, and the fact that we are fortunate in Wales, in terms of our relative position, with there being no particular difficulties here at the moment. Of course, we keep in touch with developments in England, such as the recent summit hosted by Caroline Spelman, and there is also contact between our officials. We watch all of that with great interest, and our view is that in Wales we have a very important resource in our water, and that it must be recognised as such. In any future negotiations or developments, we would obviously want to get full value for that very important water resource.

dyfrffyrdd mewndirol ar gyfer pysgota a'r rheini sydd am eu defnyddio at ddibenion hamdden eraill, megis canŵio. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatrys y tensiynau hynny?

John Griffiths: Yn wir. Rwyf wedi cyfarfod â nifer o grwpiau sy'n ymwneud â rhai o'r tensiynau hynny—ac rwyf yn credu ei bod yn deg disgrifio'r sefyllfa felly. Cyn bo hir byddaf yn cynnal cyfarfod o'r partion allweddol i geisio sicrhau ein bod yn parhau â'r hyn rwyf yn meddwl sydd wedi bod ymgysylltiad gweddol adeiladol. Er bod problemau, ceir hefyd gydnabyddiaeth bod yn rhaid inni ddarparu ar gyfer grwpiau sydd â diddordebau amrywiol wrth feddwl am ddefnyddio ein dyfrffyrdd, ac nad yw'n hollol amhosibl darparu ar gyfer y rheini. Rydym wedi awgrymu rhai ffyrdd ymlaen, ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, a byddwn yn parhau â'r ymdrechion hynny. Rwyf yn cydnabod bod problemau, ond nid yw'n hollol amhosibl cyflawni ffyrdd adeiladol ymlaen. Byddwn yn parhau â'r ymdrech honno.

Un agwedd bwysig ar ansawdd dŵr yng Nghymru yw ein dyfroedd ymdrochi, ac mae gennym rywfaint o gynnydd da iawn i sôn amdano ynghylch hynny, sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r gyfarwyddeb dŵr ymdrochi a gwobrau baner las. Gwn fod hynny'n adnabyddus iawn ac yn cael ei werthfawrogi. Mae hefyd angen i ni gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol o ran ein hadnoddau dŵr. Soniodd Nick am rai materion a phryderon ynghylch argaeledd dŵr yn ne-ddwyrain Lloegr ar hyn o bryd, ac mae'r ffaith ein bod yn ffodus yng Nghymru, o ran ein safle cymharol, ac nad oes unrhyw anawsterau penodol yma ar hyn o bryd. Wrth gwrs, rydym yn cadw llygad ar ddatblygiadau yn Lloegr, fel yr uwchgynhadledd ddiweddar a gynhaliwyd gan Caroline Spelman, ac mae ein swyddogion mewn cysylltiad hefyd. Rydym yn gwylio hynny i gyd gyda chryn ddiddordeb, ac yn ein barn ni mae gennym adnodd pwysig iawn yn ein dŵr yma yng Nghymru, a bod yn rhaid iddo gael ei gydnabod felly. Mewn unrhyw drafodaethau neu ddatblygiadau yn y dyfodol, yn amlwg byddem am gael gwerth llawn am yr adnodd

dŵr pwysig iawn hwnnw.

Nick mentioned something else that is very significant, in terms of energy production. We have important European regional development fund support for using water in that way. Ynni'r Fro is very much about supporting community-scale projects. We have a grant scheme and general advice and support, and all of that will continue to be taken forward as effectively as possible. In respect of looking at what has been done in Scotland, I am very keen to learn lessons from around the UK and further afield. I will be taking forward a water strategy and consulting on it later this year. In taking forward that strategy, we will look at what has been achieved in Scotland, and that will be an important part of that exercise.

Soniodd Nick am rywbeth arall sy'n arwyddocaol iawn sef cynhyrchu ynni. Mae gennym gefnogaeth bwysig o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop ar gyfer defnyddio dŵr yn y ffordd honno. Mae Ynni'r Fro yn ymwneud â chefnogi prosiectau ar raddfa gymunedol. Mae gennym gynllun grant a chynghor a chefnogaeth cyffredinol, a bydd hynny i gyd yn parhau i gael ei ddatblygu mor effeithiol â phosibl. O ran edrych ar yr hyn sydd wedi'i wneud yn yr Alban, rwyf yn awyddus iawn i ddysgu gwersi o bob cwr o'r DU a thu hwnt. Byddaf yn datblygu strategaeth dŵr ac ymgynghori yn ei chylch yn nes ymlaen eleni. Wrth ddatblygu'r strategaeth honno, byddwn yn edrych ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni yn yr Alban, a bydd hynny'n rhan bwysig o'r ymarfer hwnnw.

It is also right to say that, as ever, we seek to build partnerships in taking water policy forward effectively. We have a Wales water industry forum that provides an opportunity for key stakeholders with an interest in the water industry and water services in Wales to talk about the challenges and how we move together most effectively. In conclusion, our overarching collective message from this short debate is that water is a fabulous asset for Wales that has a very important part in policy development and implementation in Wales, in many different aspects. We have to manage it sustainably for the future. We know the importance of providing affordable, high-quality water and sewerage services for our people. In developing a strategy together, I hope that we can have consensus on how we do that most effectively here in Wales.

Mae'n iawn dweud hefyd, fel bob amser, ein bod yn ceisio adeiladu partneriaethau wrth fynd â pholisi dŵr rhagddo'n effeithiol. Mae gennym fforwm diwydiant dŵr Cymru sy'n rhoi cyfle i randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb yn y diwydiant dŵr a gwasanaethau dŵr yng Nghymru siarad am y sialensiau a sut yr ydym yn symud gyda'n gilydd yn fwyaf effeithiol. I gloi, ein neges gyffredin ar y cyd o'r ddadl fer hon yw bod dŵr yn ased gwych i Gymru sydd â rhan bwysig iawn wrth ddatblygu a gweithredu polisiau yng Nghymru, mewn nifer o wahanol agweddau. Rhaid i ni ei reoli'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy ac o ansawdd uchel ar gyfer ein pobl. Wrth ddatblygu strategaeth gyda'n gilydd, rwyf yn gobeithio y gallwn gael consensws ar y ffordd fwyaf effeithio o wneud hynny yma yng Nghymru.

Y Dirprwy Lywydd: Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's meeting to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.14 p.m.
The meeting ended at 6.14 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)

Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Keith (Llafur – Labour)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
 Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hedges, Mike (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Julie (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Julie (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
 Rees, David (Llafur – Labour)
 Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)